

# ECO'R WYDDFA

Rhif 65

RHAGFYR 1981

Pris 15c

## O EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANRUG

Heb os nac onibai mae eisteddfod Llanrug bellach yn ddiwrnod mawr yng nghalendr yr eisteddfodwyr. Cafwyd eisteddfod blant lwyddiannus iawn yn y p'nawn a chanmolwyd y safonau gan y prif feirniaid y Parch John Gwilym Jones, Bangor (Adrodd a Llên), a Walter Glyn Davies, Amlwch (Cerdd).

Yn sesiwn yr hwyr bu'r cystadlu yr un mor frwd a chafwyd teilyngdod yn y ddwy brif gystadleuaeth lenyddol. Cyflwynwyd y gadair a'r fedal ryddiaith mewn seremoniau cofiadwy. Roedd seremoni'r cadeirio yng ngofal Gorsedd Beirdd a thrwmpedwyr Ysgol Uwchradd Brynrefail.



Swynwyd pawb, gan gynnwys y bardd buddugol, yn sesiwn yr hwyr gan berfformiad campus y genod bach o'r ddawns flodau yn ystod seremoni'r cadeirio. Roedd hon yn nodwedd newydd yn y seremoni. Hyfforddwyd hwy gan eu hathrawesau yn ysgol gynradd Llanrug.



Mr. R.O. Williams, Y Bala, y bardd cadeiriol a gorseddigion yr Ysgol Uwchradd yn ystod y seremoni. Mr Williams, sy'n athro yn Ysgol y Berwyn, Y Bala, enillodd hefyd ar y delyneg a'r englyn. Dyma'r seithfed cadair iddo'i hennill.

**NOS FERCHER**, Tachwedd 11 yng Nghaernarfon, daeth tua 150 o bobl hen ac ifanc, yn cynrychioli pob carfan o'r gymdeithas, ynghyd i gyfarfod a drefnwyd i sefydlu Cangen Arfon o fudiad CND. Y teimlad oedd fod Cangen Gwynedd bellach yn rhy fawr ac anhyblyg i drefnu'i gweithgareddau'n effeithiol, ac yn sicr bydd canolbwyntio ar unedau daearyddol llai yn cryfhau'r mudiad.

Y siaradwyr gwadd oedd y Dr Eirwen Gwynn a Mr Emlyn Sherrington. Yn ei sylwadau, gwawdiodd y Dr Eirwen Gwynn syniadau plentynnaidd y Llywodraeth yn eu rhaglen amddiffyn suful. Pa ffwl sy'n credu fod cuddio dan y bwrdd neu gysgodi'n y twll-dan-grisiau yr un mor ddiogel mewn ymosodiad niwcliar ag yw'r

cuddfannau tan-ddaeol a baratoir ar gyfer y "pwysigolion"? Pryderai fod Cymry Cymraeg yn ddifraw ynglŷn â'r sefyllfa, ond roedd yn amlwg nos Fercher fod mwyafrif y rhai oedd yn bresennol yn Gymry, a bod y neges o'r diwedd yn cyrraedd clustiau'r Cymry Cymraeg.

Awgrymwyd fod y cyfryngau yn

## YN Y RHIFYN HWN

... Mae gwahoddiad i chwi helpu'r papur bro hwn drwy ymaelodi â Chlwb Cefnogwyr Eco'r Wyddfa. Rhoddwyd ychydig wybodaeth am hyn yn y rhifyn diwethaf. Trowch i dudalen 23 am yr holl fanylion angenrheidiol ac yna ewch ati!

Clywsom hefyd fod y Ffug-eisteddfod sydd i'w chynnal ar 5 Chwefror wedi ennyn cryn frwdfrydedd yn rhai o'r pentrefi'n barod - a hynny heb iddynt weld y rhestr testunau! Rwan ta, trowch i'r tudalennau canol am drî, a phob lwc gyda'r paratodau!

Mae mwy nag arfer o hysbysebion yn y rhifyn hwn ac yn yr un sy'n dilyn ymhen tair wythnos. Mae'n draddodiad bellach i fasnachwyr a siopwyr y fro anfon eu cyfarchion tymhorol a'u diolch i chwi am eu cefnogi drwy'r flwyddyn. Ein diolch ninnau iddynt hwythau am gefnogi'r 'Eco'.



Olwen Meredydd Jones



Y Prif Lenor: J.H. Evans, Rhiwlas.



Llyr Siôn Roberts

Enillwyd y cwpan am y perfformiad gorau yn holl gystadlaethau adrodd y p'nawn gan Olwen Meredydd Jones, (uchod chwith), Gwen-y-Wawr, Glanffynnon; a'r cwpan am yr eitem gerdd orau gan Llyr Siôn Roberts (chwith), Bedw Gwynion, Llanrug, 3½ oed, sef enillydd ieuengaf y dydd.

Cafwyd enillydd lleol ar y Fedal Ryddiaith sef Mr J.H. Evans, Rhiwlas. Ei gasgliad o tair stori fer ef, ar y testun 'Ddoe, Heddiw, Yfory' ddaeth i'r brig mewn cystadleuaeth uchel iawn ei safon yn ôl y beirniad.

Rhagor o luniau a'r canlyniadau llawn tu mewn.

## SEFYDLU CANGEN ARFON C.N.D.

gwyrr-droi'r ddadl niwcliar drwy bwysleisio perygl colli rhyddid pe bai Rwsia yn bygwth yr ynysoedd hyn. Ond wftio at hynny a wnaeth Mr Sherrington gan ychwanegu fod gan yr Undeb Sofietaidd ormod o synnwyr cyffredin i geisio gwtio eu polisïau a'u byddinoedd ar wledydd Gorllewin Ewrop oherwydd eu profiadau yn Afghanistan a Phwyl.

Mewn ateb o'r llawr, mynegodd un siaradwr y teimlad y dylem yn y wlad hon fod â mwy o ofn ymyrraeth yr Unol Daleithiau o gofio'u harweiniad presennol a'u datganiadau milwrol yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Penderfynwyd sefydlu Cangen Arfon oedd i gynnwys hen ardal Dosbarth Gwledig Gwyrfaï a thref Caernarfon. Etholwyd pwyllgor i geisio cynrychioli pob rhan o ardal Arfon, ac erbyn i'r Eco ddod o'r wasg, bydd y pwyllgor hwn wedi cyfarfod i ethol swyddogion ac i drefnu gweithgareddau. Yr ymgyrch bwysig gyntaf yn ddiau fydd casglu enwau ar y ddeiseb y soniwyd amdani yn rhifyn diwethaf yr 'Eco'. os am ychwaneg o wybodaeth, gellir cysylltu â Mr Hefin Jones, Pant Mwyn, Llanrug (Ffôn: Caernarfon 3838).

# ECO'R WYDDFA

Rhif 65  
RHAGFYR 1981

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth  
Cymdeithas Gelfyddydau  
Gogledd Cymru

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

### GOLYGYDD NEWYDDION

**CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23  
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Dafydd  
Whiteside Thomas, Brony Nant, Pont-  
rhythallt, Llanrug, (Caernarfon 3515)

**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony  
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,  
Penisarwaun. (Penylllyn 438)

### TREFNYDD NEWYDDION

**YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams,  
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).

**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane  
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,  
Ffordd Capel Coch, Llanberis.  
Padarn 561

**FFOTOGRAFFWYR:** Ifan Parry,  
Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,  
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf  
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John  
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug  
(C'fon 5605)

**TREFNYDD GWERTHIANT:** Ian  
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon  
3776).

**TRYSORYDD:** Gwyn Oliver Jones, 58  
Bwthyn Gwyn, Ffordd Deiniol,  
Deiniolen.

**TREFNYDD GWERTHIANT POST:**  
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon  
3227).

**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl  
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:  
**BETHEL:** Geraint Elis, Sycharth  
(Portdinorwic 726)

**BETWS GARMON:** Mrs Brenda  
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

**BRYNREFAIL:** D.G. Ellis, Gweledfa,  
Brynrefail (Padarn 223)

**CEUNANT:** Ifan Parry, Morwel  
(Waunfawr 321)

**CWM-Y-GLO:** Dafydd Price, Tŷ Capel  
(Llanberis 550)

**DEINIOL:** Mrs Nancy Rowlands,  
12 Pentre Helen (Llanberis 267)

**DINORWIG:** O.R. Williams, 2 Bro  
Elidir (Llanberis 671)

**LLANBERIS:** Mrs Siân Thomas,  
Tŷ'r Ysgol. (Llanberis 220)

**NANT PERIS:** T.J. Roberts, Llys Awel  
**LLANRUG:** Mrs Eirlys Pierce, Swyn  
yr Awel (C'fon 3776)

**PENISARWAUN:** Mrs Mary Davies, 9  
Llys y Gwynt, Penisarwaun (Penylllyn  
329)

**TAN-Y-COED:** Miss Megan  
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed  
(Waunfawr 355)

**WAUNFAWR:** Mrs G. Jones, Rhandir  
Mwyn, (Waunfawr 626).

**TREFNYDD PLYGU:** Gwyndaf  
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

**TREFNYDD BUSNES:** Goronwy  
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,  
Llanrug (C'fon 4839)

## Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf  
o'r wasg ar  
RAGFYR 17  
Deunydd i law'r  
golygyddion perthnasol  
RHAGFYR 9  
os gwelwch yn dda.

# LLYTHYRAU

## Y TAFLWR LLAIS

Annwyl Syr,

Yr wyf wedi meddwl  
lawer gwaith am anfon gair  
atoch i ddweud gymaint o  
fwynhad a gaf wrth ddarllen  
'Eco'r Wyddfa' o fis i fis.  
Gwelaf yn y rhifyn diwethaf  
fod Mrs Mary Lloyd Williams  
yn gofyn yn ei colofn hynod o  
ddiddorol a fedrai rywun  
gofio enw'r dyn ddeuai i'r  
ysgolion i "daflu ei lais".

Mae'n dda gennyf gael  
dweud fy mod yn ei gofio yn  
iawn ac yn cofio ei enw sef Ap  
Harri. 'Rwy'n cofio'r hwyl a'r  
chwerthin a'r plant wrth eu  
bodd. Yr oedd yn byw ym  
Mangor. Byddai galw mawr  
amdano i roi eitemau mewn  
gwahanol gyfarfodydd a  
'Sale of Work' weithiau a'r  
cwbl er budd achosion da yn  
yr ardal. Y mae'r lluniau a'r  
hanesion yn 'Eco'r Wyddfa'  
yn codi hiraeth arnaf yn aml  
yn enwedig wrth gofio am yr  
eisteddfodau y bŵm yn  
cyfeilio ynddynt am  
flynyddoedd lawer. Byddaf  
yn cofio am yr unawdwy'r lleol  
ardderchog fyddai'n cystadlu  
ynddynt. Diolch i chi am roi  
"hwb i'r galon" o fis i fis.  
Dymunaf lwyddiant a bendith  
ar eich gwaith yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir,

Annie Rees Owen,

Elidir,

5 Ffordd Deiniol,  
Deiniolen.

Annwyl Syr,

'Rwy'n cofio y tafleisydd yn  
dwad i ysgol Bryn Eryr erstalwm  
— i'n diddori. Ap Harri oedd ei  
enw. Diolch am yr hanes.

T.W. Thomas,

Berwyn.

## HOGIA MOTO BEICS LLANRUG

Annwyl Syr,

Diolch yn fawr i Mr Emyr Jones,  
Caernarfon am y penillion  
ardderchog i Motor Beics Waunfawr  
yn rhifyn Tachwedd. 'Roeddwn yn eu  
hadnabod bron i gyd. Yn y cyfnod  
hwnnw, yr oedd yna nifer fawr o fotor  
beics yn Llanrug. Amgaeaf lun wedi  
ei dynnu gan un o'r bechgyn, yn Ynys  
Manaw, mis Mehefin 1949. Efallai  
bod yna ychydig yn yr ardal yn eu  
cofio yn iawn. Tybed oes yna rhywun

## TRYDAN EGLWYS LLANDDEINIOL

Diolch i Mrs D.M. Jones, Caernarfon  
am anfon y penillion yma o waith y  
diweddard Thomas Jones, Twm  
Bethel, inni. Dyma'i ragarweiniad  
iddynt:

Am flynyddoedd lawer bu  
Llanddeiniolen a'r cylch heb drydan  
ac Eglwys St Deiniol yn cael ei goleuo  
â llusern olew a chanhwyllau. Ond o'r  
diwedd, daeth Trydan i'r Llan a  
goleuwyr yr eglwys. O mor brydferth  
yr oedd yng ngolau'r trydan. Ond ar  
yr un pryd, meddyliais fod golau yr  
lesu yn fwy disglair nac unrhyw olau  
bydol, ac felly gwnes y penillion hyn i  
drydan eglwys Llanddeiniolen:

Cyrhaeddodd Trydan dithau

Hen Eglwys lân y plwy

A'th lampau wedi diffodd

Ni fydd ei heisiau mwy

Blyneddodd hir fuont yma.

Yn hongian uwch dy lawr.

A'r olew mud yn llosgi

Yn llewyrch d'allor fawr.

Rhyw chwithdod fydd ymadael

Sant Deiniol — wyt ti'n drist

Wrth weld y lampau'n myned

I'w cadw yn y gist?

Fe gladdwyd myrdd o seintiau

O dan dy olau di

A llawer yna a welodd

Y ffordd i Galfari.

Dwy gannwyll sydd wrth dy allor

Mae'r lampau wedi mynd

A'r trydan fydd yn dangos

Mor brydferth wyt — 'rhen ffrind

Cei fyw ganrifoedd eto

A'th olau disglair clyd

A Christ Gwaredwr dynion

Yn olau mawr y byd.

## DIOLCH

Carwn ddiolch drwy gyfrwng Eco'r  
Wyddfa, i barwb a fu mor garedig  
wrthyf tra y bŵm yn Ysbyty Gobowen  
yn aros; am y llu o gardiau, a hefyd  
arian a nwyddau. 'Roedd pob gair  
caredig yn help mawr i mi yn yr ysbyty  
yn enwedig ymhell o gartref. Maent yn  
rhy niferus i'w hateb yn unigol. Diolch  
hefyd i'r Parch a Mrs Trevor Lewis, ein  
bugail, am eu holl garedigrwydd i'm  
priod a minnau. Derbynied pawb fy  
niolch llwyrfa am bob dim.

Mrs Emyr Pritchard

1 Ffordd Deiniol

Deiniolen.

## TRYCHINEB DINORWIG

Daeth llythyr ynglŷn â'r uchod  
oddi wrth Mrs Eluned Owen, 74  
Coney Green Drive, Northfield,  
Birmingham. Mae Mrs Owen yn  
derbyn 'Eco'r Wyddfa'  
oherwydd gall ddarllen a siarad  
Cymraeg ond nid yw'n medru  
ysgrifennu'n ddigon da'n y  
Gymraeg meddai hi.

Yn ei llythyr, mae'n cyfeirio at  
foddi Owen Thomas, ei wraig a'i  
ferched Ellen a Gwen, o Dy'n y  
Fawnog, Dinorwig. 'Roedd tad  
Mrs Owen sef William Thomas  
(neu Wil Ty'n y Fawnog) o'r un  
teulu, a phriododd â Catherine  
Jones o Fryn Gola'. Rhoddwyd  
gwisg fedydd y genethod a  
foddwyd iddynt, a bedyddiwyd  
12 o'u 13 o blant ynddi, gan  
gynnwys Mrs Owen. Bedyddiwyd  
wyrion ac wyresau  
William a Catherine Thomas yn y  
wisg hefyd, gan gynnwys tri mab  
Mrs Owen. Defnyddiwyd y wisg  
fedydd 35 o flynyddoedd yn ôl ar  
fedydd Gwilym, mab ieuengaf  
Mrs Owen, ond mae'r wisg wedi  
ei glanhau'n flynyddol ers  
hynny. Mae Mrs Owen bellach  
yn 70 oed, ac wedi ymadael â  
Dinorwig er pan oedd yn dair  
oed. Mae'n awyddus i'r wisg  
fedydd hanesyddol hon  
ddychwelyd i'w chynefin, ac y  
mae'n holi a oes unrhyw  
amgueddfa'n yr ardal a fyddai'n  
falch o'i derbyn. Efallai fod rhai  
o'r teulu'n parhau'n ardal  
Dinorwig, os felly, byddai'n  
ddiddorol derbyn eu sylwadau.

Llawer o ddiolch i chwi Mrs  
Owen am drafferthu i sgwennu  
atom, a gobeithio y cewch lawer  
blwyddyn arall i fwynhau darllen  
yr 'Eco'.

## COFIO

## YSGOL

## BRYNERYR

Yn rhifyn 63 o 'Eco'r Wyddfa',  
mae llun o hen Ysgol Bryneryr a'r  
athrawon. Yr athrawes gyntaf yn  
y llun â llyfr yn ei llaw yw Mary  
Williams, Ty'n Twll, Brynrefail,  
ond nid wyf yn siŵr iawn o'r  
ganol. Cof sydd gennyf o Nellie  
Williams yn athrawes yn yr  
ysgol, "Nellie Bryneryr" y gelwid  
hi ond fe fu farw yn ferch ifanc o'r  
T.B. 'Roedd ei thad yn godwr  
canu am flynyddoedd yng  
Nghapel Brynrefail ac yn  
arolygwr yr Ysgol Sul.

'Rwyf yn sicr o Mary Williams,  
Ty'n Twll, bu'n brifathrawes ar  
ysgol fach Brynrefail a phriododd  
â Wil Parry, Fachwen.

'Rwyf mewn oedran bellach,  
a'r cof heb fod yr hyn y dylai fod.

Yr eiddoch yn gywir,


William E. Williams

(Brynrefail gynt)

3 East Avenue,

New York.

GOL. — Diolch am eich llythyr ac am y  
wybodaeth. Peidiwch â phoeni am y  
cof — chwi oedd yr unig un i anfon  
unrhyw wybodaeth i ni am y llun!



Criw o hogia Llanrug (ar y chwith) yn gwyllo rasmus moto beic Ynys Manaw.

Y GOBEITHLU – Agorwyd tymor y Gobeithlu yn y Capel Mawr nos Lun, Tachwedd 2 pryd y dangoswyd ffilmiau seiliedig ar yr ysgrythur gan Mrs Nansi Roberts, Annedd Wen. Daeth nifer dda o'r plant ynghyd gyda llawer o'r rhai ieuengaf yno am y tro cyntaf. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Michelle Jones, 13 Bro Rhythallt a Meinir Williams, 25 Bro Rhythallt. Yng ngofal y 'projector' fel ei arfer yr oedd Mr John Williams, Gweledfa.

Ar nos Lun Tachwedd 16 dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Bethan Lloyd Jones, Meifod a Gwen Jones, Gwenlyn. Dangoswyd dau sribed ffilm i'r plant gan Mrs Nansi Roberts, Annedd Wen gyda Mr John Williams, Gweledfa'n gofalu am y taflunydd. Arweiniodd y gweinidog y plant i derfynu'r cyfarfod trwy gydadrodd y fendith Apostolaidd. Cyfeiliwyd gan Bethan Parry, Ael-y-bryn.

CYMDEITHAS LENYDDOL Y CAPEL MAWR – Daeth cynulliad da i gyfarfod cyntaf tymor newydd y Gymdeithas nos lau, Hydref 29. Llywyddwyd gan y Parch W.O. Roberts. Cafwyd cyngerdd o safon uchel gan barti 'Lleisiau Gweunydd', Deiniolen gyda'r Parch Ronald Wyn Roberts yn arwain. Darparwyd ymborth ysgafn gan rai o chwiriorydd y Gymdeithas. Diolchwyd i bawb gan Mrs Nansi Roberts, Annedd Wen a Mrs Jane Williams, Bryn Eifion.

Nos lau, Tachwedd 12 am saith o'r gloch cafwyd noson yng ngofal Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol ar ffurf 'Call my Bluff' 'Pwy sy'n Twyllo'. Gwahoddwyd panel o gymdeithas Pontrhythallt i gymryd rhan yn y noson, y cynrychiolwyr oedd Mrs Mary Lloyd Williams, Llys Awen, Mr Emrys Owen, Hafan Elan a Mrs Amy Smith, Llechwedd. Tîm Capel Mawr oedd Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Mr Gwyn Cadwaladr, Mountain View, Mr Myrddin Williams, Penterfyn. Llywyddwyd gan Mr Gwilym Owen, Glasgoed. Cyflwynwyd y diolchiadau gan Mr J. Owen yn cael ei gefnogi gan Mrs Evans, Lloc. Rhoddwyd y te gan Mrs Eileen Williams, Afon Rhos a Mrs Joan Maxwell, Noddfa. Y tîm buddugol oedd Cymdeithas Undebol Pontrhythallt.

BEDYDD – Prynhawn Sul, Hydref 25 yn y Capel Mawr bedyddiwyd Paul Michael, mab bychan Rees Glyn a Glenys Lewis (nee Jones, gynt o Bryn Awel, Llanrug) Hen Golwyn. Gweinyddwyd gan y gweinidog, y Parch W.O. Roberts.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR – Daeth nifer dda o chwiriorydd i'r noson goffi a gynhaliwyd nos lau, Tachwedd 5 am saith o'r gloch. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan y llywydd Mrs Nansi Roberts, Annedd Wen. Croesawyd yr oll o'r chwiriorydd oedd yn bresennol ac anfonwyd ein cofion cynnes at y rhai oedd yn methu bod yno oherwydd gwaelledd a diolchwyd am gyfraniadau mewn arian a nwyddau ganddynt. Gwnaed trefniadau ar gyfer y Ffair Nadolig sydd i'w gynnal Rhagfyr 3 am saith o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. Rhoddwyd y coffi gan Mrs Lovatt, Brwynog, Mrs Thomas, Gerallt a diolchwyd iddynt ac i bawb am eu parodrwydd i hyrwyddo ein hymdrech yn Rhagfyr gan Mrs Nansi Roberts.

MERCHED Y MAWR – Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn yr Ysgol Gynradd nos Fawrth, Tachwedd 10 gyda Miss Phyllis Ellis yn y gadair. Y siaradwr gwadd oedd Mr Griff Harries, a ddangosodd 'Hen Bethau' a'r defnydd a wnaed ohonynt. Diolchwyd gan Mrs J.C. Williams, Bod Fair. Dymunwyd adferiad iechyd i Mrs L. Owen, Glasdy a llongyfarchwyd gŵr yr ysgrifennydd, Mrs Eirlys Pierce, ar ei benodi'n brifathro Ysgol Beddgelert. Miss

# LLANRUG

Megan Humphreys a Mrs Beth Ann Williams fydd yn cynrychioli'r gangen ar Bwyllgor yr Anabl.

Y gwestwagedd oedd Mrs Evans, Lloc, Mrs Nan Jones, Gorwel, Mrs Roberts, Arwyn, Mrs Joan Griffith, Pant Tirion a Mrs M. Owen, Glasgoed. Diolchwyd iddynt gan Mrs Myfi Roberts.

Y Parti Nadolig fydd y cyfarfod nesaf yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis ar Ragfyr 8. Bydd y bws yn cychwyn o'r Sgwâr am 7 o'r gloch ac yn mynd ar hyd Ffordd yr Orsaf i Bontrhythallt.

CLWB BLODAU'R GRUG – Cynhaliwyd cyfarfod ddydd lau Tachwedd 12 dan lywyddiaeth y Parch D.G. Williams. Y wraig wadd oedd Mrs N. Owen, Trigle, Llanrug, a chafwyd anerchiad diddorol ar ei hymweliad â'i chwaer a'r teulu yn Awstralia.

Hefyd cawsom anerchiad byr gan Mrs M. Roberts, 2 Tai Plastirion a'r ei thaith i Wlad Belg. Diolchwyd iddynt gan Miss M.G. Roberts, Ganllwyd a Mrs K. Williams, Morawel. Croesawyd yn ôl ar ôl gwaelledd Mrs J.M. Jones, Ger-y-Ffynnon a Mrs G.A. Williams, Bryn Teg. Hefyd dymunwyd yn dda i Mrs Owen, 1 Rhosrug ar ei phen-blwydd. Rhoddwyd y raffl gan Mrs D. Jones, Y Fedwen ac enillwyd hi gan Mrs Jones, Bodlondeb. Rhoddwyd y te gan Miss M. Evans, Y Fedwen, Mrs M. Lewis, Madryn House, Mrs Williams, Y Ficerdy, Mrs L. Evans, Gwelfor, 2 Hermon Terrace. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ragfyr 10 pryd y cynhelir gwasanaeth Carolau.

CYMDEITHAS UNDEBOL – Nos Fawrth Tachwedd 17 gyda Mrs J.L. Williams, Bod Fair yn llywyddu, cafwyd sgwrs gan y Parch Oswyn Rees, Bangor, yn ymwneud â'i waith fel Swyddog gyda'r Gwasanaeth Cymdeithasol. Rhoddwyd cyfle ar y diwedd i'r aelodau ofyn cwestiynau ynglŷn â'r gwasanaeth.

Diolchwyd yn gynnes i Mr Rees gan Mrs W. O. Roberts. Edrychwn ymlaen am y cyfarfod nesaf, pryd y bydd Mr Geraint Huws Roberts (Park Villa gynt) yn ein hannerch.

CROESO – Croesewir yn gynnes iawn Mr a Mrs Selwyn Jones, Gwyddfor, Pontrhythallt i'r ardal. Mae Mrs Jones yn ferch i'r Parch a Mrs Evan Lynch, Carrog.

CYDYMDEIMLIR – â Mr a Mrs R. Parry, 12 Bro Rhyddallt yn eu profedigaeth o golli eu chwaer yng nghyfraith yn Cwm-y-glo.

YN YR YSBYTY – Aed â Mrs Williams, Y Berllan i'r ysbyty yn ystod yr wythnos. Dymunir adferiad iechyd buan iddi.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL PONTRHYTHALLT – Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas pnawn lau, Hydref 16 o dan lywyddiaeth Mrs Nesta Pritchard, Glanfa. Cymerwyd y rhan arweiniol gan Mrs J. Williams, Bod Fair. Anfonwyd ein cofion at rai o'r aelodau oedd yn wael, ac yn methu bod gyda ni, a chroesawyd rhai aelodau newydd i'n plith. Gwnaed trefniadau ar gyfer ein Noson Goffi a byrddau gwerthu ar Dachwedd 20. Rhoddwyd y te gan Mrs C.E. Roberts a Miss Eirlys a W.R. Jones, Hedsor Villa.

Y SEINDORF – Cafwyd cystadleuaeth agos rhwng tri o aelodau'r Seindorf yn y gystadleuaeth Unawd Offeryn Chwyth Agored yn Eisteddfod Llanrug. Y canlyniad oedd: 1. Mr Gwyrfa Williams, ac yn gydradd ail Mr James Jones a Mr Gareth Hughes. Daeth gwobrau i'r dysgwyr hefyd yn yr adrannau Offeryn Chwyth. O dan 12: 1. Graham

Williams, 2. Gwyn Bowie Thomas, 3. Nigel Thomas a Dylan Owen. O dan 19: 1. Miss Lesley Williams.

Roedd y Seindorf yn y Neuadd Goffa ar fore Sul y Cofio fel arfer. Chwaraewyd yr Wys Olaf gan Mr John Tame. Aethant ymlaen i Gaernarfon i gymryd rhan yn y gwasanaeth yno dan a rweiniad Mr Joh Tame. Chwaraewyd yr Wys Olaf a'r Reveille gan Mr Tame a Mr Elfyn Williams.

Mae'r Seindorf yn brysur yn ymarfer ar gyfer y gystadleuaeth yng Nghei Connah ar y 28ain o'r mis yma.

Fe fydd y Swper Blynnyddol yng Ngwesty Bron Eryri ar Ragfyr 12.

Gobeithir y bydd y Seindorf yn dod o gwmpas y pentref yn nes i'r Nadolig i ganu carolau.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Harry Roberts, 2 Tai Plastirion ddiolch yn ddiffuant i bawb ddaeth ar y daith i Wlad Belg am eu diddordeb a'u cydymdeimlad â hwy pan yn ymweld â bedd tad Mrs Myfi Roberts. Diolch arbennig i Mr Derfel Gruffydd am gynnal gwasanaeth bythgofiadwy ar lan y bedd.

UNDEB Y MAMAU – Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Cangen Llanrug o Undeb y Mamau yn y Rheithordy am 7 o'r gloch nos lau, Tachwedd 5. Agorwyd y cyfarfod gyda gwasanaeth byr yn cael ei arwain gan y Rheithor ac ef hefyd oedd yn llywyddu. Yn ei anerchiad dywedodd y Rheithor fod sefydliadau eglwysig fel Undeb y Mamau yn gwneud gwaith rhagorol ledled y byd. Gallai pob un oedd yn aelod o Undeb y Mamau deimlo'n falch o fod â rhan yn y gwaith da a wneir. Yr oedd cangen Llanrug wedi bod yn gyfrifol am gyfrannu dros dri chant o bunnau tuag at achosion da megis Y British Arthritis Council, Sefydliad Pendalar, Caernarfon at waith gyda'r anabl ac at Ganolfan Gymdeithasol Cwm-y-glo ac fe anfonwyd cyfraniad at waith Undeb y Mamau mewn gwledydd tramor. Diolchodd y Rheithor i'r swyddogion oll am eu gwaith da yn ystod y flwyddyn. Wrth dderbyn adroddiad y trysorydd talodd y Rheithor deyrnged i'r ddiweddar Mrs C. Owen, Isfryn a fu'n drysorydd y gangen am dros bum mlynedd a deugain. Y swyddogion a etholwyd oedd: Llywydd, Mrs D. Gwynfor Williams, Y Rheithordy; Is-lywydd, Mrs J.E. Watkins, Dolwen, Cwm-y-glo; Ysgrifennydd, Mrs G. Pierce, Glan'rafon, Pont Rug; Is-ysgrifennydd, Mrs L. Orritt, Morannedd, Cwm-y-glo; Trysorydd, Mrs H. Roberts, Bod Gwynedd, Cwm-y-glo. Ymwelwyr, Miss C. Hughes a Mrs West, Cwm-y-glo a

Miss A.C. Jones, Llanrug. Y gwestwagedd oedd Mrs V. Spratt a Miss A.C. Jones, Glanllyn ac fe roddwyd y raffl gan Mrs R.J. Jones, Lyndale. Diolchwyd iddynt gan y Rheithor. Diweddwyd gyda gweddi.

CYFLWYNO RHODD – Yn ystod gwasanaeth y Cymun Bendigaidd ar fore Sul, Tachwedd 1, Gŵyl yr Holl Saint, cyflwynwyd rhodd werthfawr o Flwch Afrlladennau at wasanaeth yr eglwys gan deulu y ddiweddar Mrs Laura Davies, Bryn Derwen, Llanrug. Derbyniwyd a chysegrowyd y blwch gan y Rheithor ac yr oedd teulu Mrs Davies yn bresennol. Hoff wasanaeth Mrs Davies oedd gwasanaeth y Cymun Bendigaidd a pha fodd yn well i'w choffáu nag wrth dderbyn rhodd fydd yn cael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth y Cymun Bendigaidd. Gweinyddwyd yr Offeren gan y Rheithor a'r organydd oedd Mr J.T. Morris, Erw Wen.

GWAELEDD – Deallwn fod Mrs R.J. Jones, Lyndale wedi ei chymryd i'r ysbyty ym Mangor a hyderwn yn fawr y bydd yn cael adferiad buan. Da iawn yw deall hefyd fod Mrs R.J. Owen, Glasdy wedi dod adref o'r ysbyty a'i bod yn gwella yn foddhaol. Y mae Miss M. Griffiths, Cwellyn hefyd yn gwella yn foddhaol ar ôl bod ym Mangor mewn ysbyty.

HAFAN ELAN – Da deall fod Mrs N. Williams, Moelwyn wedi dychwelyd o'r ysbyty ar ôl cael triniaeth lawfeddygol. Mae Mrs Williams ar hyn o bryd yn aros yng nghartref ei merch yn Llanfairfechan, gobeithio y cawn ei gweld yn ôl ar y Stad yn fuan.

Nid yw amryw o'r Stad wedi bod yn rhy dda yn ddiweddar. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddynt oll.

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs A. Rowlands a Mair, Cilmeri yn eu profedigaeth drist o golli brawd ac ewythr hoff sef y diweddar Mr Eleazar Rowlands, Cwm-y-glo.

Nos lau, Hydref 22 bu rhai o drigolion y Stad yn ymweld â Gwaith Trydan Dinorwig trwy garedigrwydd y prif swyddog diogelwch Mr John Hughes. Yr oedd yn brofiad ac yn agoriad llygad i weld y gwaith aruthrol sydd wedi mynd ymlaen yno, ond sydd erbyn hyn bron a'i gwblhau.

Diolchwyd i Mr John Hughes a'i gydweithwyr am ein tywys o amgylch gan Mr E. Owen Rhif 9 a diolchodd Mrs D. Jones (Y Warden) i Miss M.J. Rowlands, Cilmeri am wneud y trefniadau.

Mr John Wyn Owen, Llanrug oedd ein gŵr gwadd nos Fawrth Tachwedd 3. Cafwyd noson ddifyr a diddorol yn ei gwmni yn adrodd hanes hen gymeriadau y chwareli. Croesawyd ef i'n plith gan Mr E. Owen, Rhif 9 a thalwyd y diolchiadau gan Mr C. Williams, Rhif 19. Darparwyd y te gan Miss M. Owen, Rhif 3 a Mrs L. Jones, Rhif 15.

## Ysgol Foduro Arfon



Hyfforddwr Profiadol Gwasanaeth o Ddrws i Ddrws.

Pris Rhesymol

Taxis K.T.

Cludwyr ymhell ac agos

Gwasanaeth 24 awr

Ffôn: Caernarfon 76105

## W.J. GRIFFITH

PLYMAR  
A GOSODWR  
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL  
SYSTEMAU  
GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National  
Association of  
Plumbing and Mech-  
anical Services  
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,  
Dim un dasg rhy fawr.

## DATHLU PRIODAS EURAIDD



**CYFARCHION I MR A MRS HARRI TOMOS JONES, Tŷ UCHAF, CEUNANT, AR ACHLYSUR EU PRIODAS EURAIDD, TACHWEDD 4, 1981**

Mae'r dail heb lwyr gilio o frigau'r hen fro,  
A'r ddau'n cyd-fyfyrion heb lawer o frys,  
Ac eto yn cofio, fel doe yr ymrwymo,  
Rhoi aur pur i berlio yn gylch am ei bys.

Cyfarchion o ddifri i Harri a Jennie,  
Am fyw ar ôl priodi mor hapus drwy'r daith,  
Am hanner can mlynedd, heb golli'r amynedd  
Cyd-fyw yw eu rhinwedd drwy'r holl flwyddi maith.

Mewn drycin, a heulwen, mae'r ddau yma'n llawen  
Yn troi yr un ddalen o fore hyd hwyr,  
O'r Tŷ Ucha'n trafelio, i'r Kwik-save i siopio,  
Bob amser yn cofio eu neges yn llwyr.

Peth braf yw cael symud o'r gongol i'r gwynfyd  
I brofi rhyw olud, mae'n werth ambell dro,  
Cael cwrdd â chyfeillion, fu iddynt mor ffyddlon  
A gweld i'r gorwelion o gyrrau y fro.

Mae Harri medd Jennie yn sgut am bob stori,  
A honno'n un ddigri, heb fod yn ddichwaeth,  
A'i glustiau'n agored bob amser i glywed  
Hen stori ddiniwed, neu weithiau un waeth.

Mae'r stori'n llawn cystal â ffisig mewn potal,  
Rhaid diolch i'r dyfal am lunio'r rhai hyn.  
Peth iach yw cael chwerthin, 'rôl cerdded drwy'r ddrycin,  
A gweld dau benelin yn gwasgu yn dynn.

Mae'r ddau mewn llawenydd yn deall ei gilydd,  
'Run modd mewn ystormydd er garwed y loes,  
Bu'r naill yn ymgeledd i'r llall pan mewn gwaeledd,  
Try hyn yn orfoledd tra'n cario y Groes.

Wel dyma ni heno, mewn gwledd yn cael cinio,  
A phawb yn dymuno pob bendith i'r ddau,  
Hir oes yn y Ceunant, a mynwes llawn mwyniant,  
Boed iechyd a llwyddiant yn bur i barhau.

*W.J. Jones, Talymignedd Isaf, Nantlle (Brawd Mr Harri Jones)*

## CEUNANT

**DIOLCH** – Dymuna Mr a Mrs H. Jones, Tŷ Uchaf ddiolch i'w teulu a'u cyfeillion am y rhoddion a'r dymuniadau da ar achlysur eu priodas au.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Catherine

Wright, Glandŵr ar fod yn ail yn y prawf terfynol i ysgolion Gwynedd mewn cystadleuaeth coginio dan nawdd y Bwrdd Nwy a gynhaliwyd yn y Coleg Normal, Bangor.

## CWM-Y-GLO

**DIOLCH** – Dymuna Dafydd E. Jones, 4 Brynhyfryd ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a'i gymdogion am yr anrhegion, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn ysbytai Caerdydd, Llundain a Bangor ac ar ôl dod adref.

**CAWL A CHÂN** – Nos Fawrth, Hydref 6 cynhaliwyd noson o Gawl a Chân ar y cyd gan yr Urdd a Merched y Wawr i godi arian at redeg y Ganolfan. Daeth cynulliad da o tua saithdeg ynghyd a chafwyd noson hwyliog yng nghwmni Edward Morus Jones, gyda'r cwmni yn ymuno yn y canu. Mrs Watkins, Mrs Orritt a Mrs J. Hughes oedd yn gyfrifol am y cawl blasus. Enillwyd raffl y noson gan Mrs E. Hughes a Mrs P. Rowlands. Talwyd y diolchiadau gan Miss Lowri Prys Roberts.

**MERCHED Y WAWR** – Nos Fercher, Tachwedd 18 cafwyd anerchiad grymus gan Dr Eirwen Gwyn ar Ryfel Ddoe a Heddiw. Cymharodd ei phrofiadau yn ystod y rhyfel ddiwetha' â'r sefyllfa pe caed rhyfel niwclear. Eglurodd yn ddiamwys fely buasai rhyfel niwclear heddiw yn derfyn ar ein gwarediddiad a'n hannog i ystyried hyn a chefnogi mudiadau diarfog. Diolchwyd iddi gan Mrs Gwyneth Chick. Rhoddwyd y te a gwobr y raffl gan Mrs Hannah Jones a Mrs Nellie Pritchard a'r enillydd oedd Mrs Roberts.

Cafwyd adroddiad o'r Pwyllgor Rhanbarth a chyfarfod Aberystwyth gan y Llywydd. Etholwyd Miss Mat Pritchard yn gynrychiolydd ar Bwyllgor Rhanbarth yr Anabl a Mrs Watkins i ddosbarthu Y Wawr. Pasiwyd i roi cyfraniad at beiriant i ddarganfod cancer y fron.

Nos Fercher, Rhagfyr 16 cynhelir noson o ddathlu Nadolig dan ofal Mrs Watkins.

**MARW** – Brynhawn Sadwrn, 7 Tachwedd bu farw Eleazar Rowlands, 4 Dolafon ac yntau yn bump a thrigain oed. Mab ydoedd i'r diweddar Hugh a Mary Rowlands, Tros Ffordd Cwm y Glo. Cafodd ei eni yn Ne Cymru ond symudodd y teulu i

Gwm y Glo pan oedd Eleazar tua phedair oed. Yr oedd yn gymeriad ar ei ben ei hun a meddai farn gadarn ac nid ofnai draethu'r farn honno pan fyddai galw am hynny. Yr oedd yn gymeriad hoffus a thawel a dirwgnach ac yn onest fel dur. Yn ystod y Rhyfel bu'n aelod o'r Gatrawd Gymreig ac fe'i daliwyd gan yr Almaenwyr yn Nghreta ac fe'i carcharwyd mewn gwersyll carcharorion rhyfel yn yr Almaen. Yr oedd ganddo nifer o gyfeillion ond rhywfodd carai fod ar ei ben ei hun a thybed nad effeithiau ei garcharu oedd hynny? Bu'n gweithio yn y chwarel yn Llanberis am gyfnod ac hefyd yn yr Atomfa yn Nhrawsfynydd yn ystod cyfnod adeiladu'r orsaf bwer yno. Dioddefodd gystudd blin a chas ond ni fu iddo rwgnach yn ystod ei gyfnod mewn ysbytai nag wedyn yn ei gartref. Cafodd pob caredigrwydd yn ei waeledd gan ei deulu a chan gymdogion a chan T. Owen, Dolfaon, un o'i gyfeillion pennaf. Bu ei angladd ym mynwent Llanfihangel yn rug ar ddydd Mercher, Tachwedd 11, gyda'r Rheithor yn gwasanaethu ac yn cael ei gynorthwyo gan y Parch W.O. Roberts, Y Capel Mawr. Yn y gwasanaeth yn yr Eglwys canwyd ei hoff emynau a'r organyddes oedd Miss N. Owen, Glan'rafon. Bu gwasanaeth coffa amdano yn Eglwys Sant Gabriel, Cwm y Glo y nos Sul canlynol gyda'r Rheithor yn arwain y gwasanaeth. Yr organyddes oedd Miss C. Hughes, Pool Street. Yn lle blodau, derbyniwyd rhoddion tuag at Gronfa Ymchwil y Cancr.

**GWAELEDD** – Deallwn bod Mr Llew Hughes mewn ysbyty yng Nghaernarfon ac anfonwn ein cofion ato a hyderwn y caiff adferiad llwyr a buan. Mae dyled yr Eco yn fawr iddo gan iddo fod yn Brif Ddosbarthwr yn y pentref o'r cychwyn. Y mae Mrs M. Chick, Mairlys wedi ei chaethiwo i'r tŷ yn ystod y dyddiau diwethaf a hyderwn y caiff hithau adferiad buan ac y gwelwn hi eto o amgylch.

**DIOLCH** – Dymuna teulu'r diweddar Eleazar Rowlands, 4 Dôl Afon ddiolch i bawb am bob cydymdeimlad, cymorth, a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth trist a hefyd am y llythyrâu a chardiau niferus.

Dymunant hefyd ddiolch am yr ymateb hael i'r apêl at Gronfa ymchwil y Cancr.

**COFION** – Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da i lan, ŵyr Mrs Williams, 13 Dolafon, sydd mewn ysbyty yn Lerpwl.

**CLWB Y GRAIG** – Cynhelir Gyrfa Chwist Nadolig yn y Ganolfan, nos Fercher, Rhagfyr 9, am 7.30 o'r gloch. Pris tocynnau: 50c yn cynnwys lluniaeth. Dymuniadau gorau gan y Pwyllgor i Mr Llywelyn Hughes ein Cadeirydd, sydd wedi treulio amser yn Ysbyty'r Bwth, Caernarfon.

**MARW** – Trist iawn oeddem yn y Cwm, pan ddaeth y newydd am farw disyfyd Mrs Eluned Parry, Craig y Don, gweddwr Mr Humphrey Parry, a merch ieungaf y diweddar Mr a Mrs Richard Parry. Hanai hi a'i diweddar briod o deuluoedd cerddorol, a dechreuodd Mrs Parry ddefnyddio ei llais swynol yng nghôr plant Mr John Thomas gynt. Bu'r ddau yn aelodau ffyddlon a gweithgar yng nghapel MC gydol y blynyddoedd; ac yn ddiweddar bu Mrs Parry yn aelod yn y Tabernacl.

Nid anghofiwn ei gofal diflino am ei diweddar briod yn ystod ei waeledd hir, a'i sirioldeb drwy'r cwbl. Cydymdeimlir yn fawr â'i hunig chwaer, Miss Annie M. Parry, a'r teulu yn eu hiraeth.

### DOSBARTHU'R ECO YNG NGHWM-Y-GLO

Mr Peter Casey, Manchester House, yw Prif Ddosbarthwr yr Eco 'rwan. Diolch iddo am ymgymryd â'r gwaith a diolch hefyd i'r canlynol am sicrhau'r gwerthiant o dŷ i dŷ: Mr Tom Owen, 3 Dolafon; Mr Llew Hughes, Hyfrydle; Mrs Vera Price, Tŷ Capel; Mrs Williams, Nant Forgan; Mrs Williams, Elidir View; Mr Iorwerth Jones, Min-y-Don; Mrs Orritt, Morannedd.

**SETIAU  
TELEDU LLIW  
AIL LAW  
MEWN CYFLWR  
RHAGOROL  
SIOP DELEDU**

**T  
CEPAS**

Ffordd yr Orsaf  
**LLANRUG**  
(Ffôn: Llanberis 205  
gyda'r nos)



**ATGYWEIRIO DODREFN  
'FRENCH POLISHING'  
UGAIN MLYNEDD O BROFIAD YN Y  
GWAITH**

**J. RHEON PRITCHARD**

**14 GLANRAFON**

**BONTNEWYDD**

Ffôn: Caernarfon 3507)



DYMUNA  
JERRY & MARGARET  
WARDLE

**SWYDDFA'R  
POST**  
*a Stordy  
Cwm-y-glo*

NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA

i'w cyfeillion oll


**Cyfarchion Nadolig o  
GWM-Y-GLO  
a BRYNREFAIL**



**GORS BACH  
PANEL  
BEATING  
SERVICE  
Cwm-y-glo**

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR  
24 AWR



Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd Dda  
ODDI WRTH  
**MORRIS BROS.**  
BECWS GORS BACH, CWM Y GLO  
Ffôn: Llanberis 430  
HEFYD YM  
MECWS PEN Y BRYN  
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 268  
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 5526

Dymuna  
Huw a Barbara Rheolwyr newydd

**Gwesty'r  
Fricsan**

(Snowdon Hotel)  
CWM-Y-GLO  
Llanberis 289



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn ystod hwn, eu  
Nadolig cyntaf yng ngofal y dafarn.  
Croesewir cyfeillion hen a newydd dros yr ŵyl.

NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA  
oddi wrth  
**C & D.WAGER  
Llythyrdy  
BRYNREFAIL**

Ffôn: LLANBERIS 241

Eich Stor Leol Deuluol ar gyfer  
Papurau Newydd Bwydydd Ffrwythau  
Dilladau Llysiau Melysion Tybaco

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda  
oddi wrth bawb yn

**London  
Garage**

CWM-Y-GLO



Ffôn Llanberis 234



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda  
oddi wrth  
Mrs. Fowler

**Siop Chips  
Cwm-y-Glo**

Ffôn Llanberis 514

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

# CYFARCHION NADOLIG O LANBERIS



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl  
gwsmeriaid oddi wrth

**DORIS ac  
ELIZABETH**

**D & E Dinorwig House  
LLANBERIS**

Ffôn: Llanberis 300

Ar gyfer eich holl  
anrhegion Nadolig.  
Sanau. Dillad gwau i blant  
a merched.  
Nwyddau Ffansi  
Cardiau Nadolig - dwsin  
am 28c.

Papur lapio Nadolig am  
ddim gyda phob archeb  
dros £5



NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD  
DDA

i bawb  
oddi wrth

**Tŷ  
Bwyta**

STRYD FAWR

**Llanberis**

Ffôn: Padarn 487

BWYD DA AM  
BRIS RHESYMBOL



Nadolig Llawn a Blwyddyn  
Newydd Dda i chwi oll

oddi wrth

**THOMAS  
PRITCHARD  
IRONMONGER**

(D.A. LEWIS)

BIRMINGHAM HOUSE

LLANBERIS

Ffôn 206

CYFARCHION Y TYMOR  
oddi wrth

**H.E. HUGHES**

**a'r MEIBION**



Ffôn: 444

MASNACHWYR GLO

1 BYTHYNNOD GADLYS LLANBERIS

**ROBERT GARTSIDE B.Sc., M.P.S.**



FFERYLLYDD

COMPTON HOUSE

LLANBERIS Ffôn : 264

AM EICH ANRHEG NADOLIG!

GWERTHWR SWYDDOGOL

Persawriau

SORTILAGE, LENTHERIC, YARDLEY

MAX FACTOR

Ffilmiau a chamerau

AGFA, KODAK a FUJI

Dewis da o winoedd a gwirodydd

NADOLIG LLAWEN I BAWB!

**ROYAL VICTORIA HOTEL**

GWESTY BRENNHINOL VICTORIA  
LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN

A

BLWYDDYN NEWYDD DDA

I CHWI OLL

oddi wrth



**WESTY  
BRENNHINOL  
VICTORIA  
LLANBERIS**

FFÔN LLANBERIS 253



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda  
i chwi oll oddi wrth

**Bistro**

**45 Stryd Fawr  
LLANBERIS**

Ffôn: PADARN 278  
(Danny a Nerys Roberts)  
Pryd gorau'r fro



Dymuna  
Meurig a Mari Evans  
ac Iwan



**CASTLE  
GIFT SHOPS LTD.**

Llanberis (379) Caernarfon (3158)

ddiolch yn fawr i'w cyfeillion a'u cwsmeriaid am  
bob cefnogaeth yn ystod eu 25 mlynedd mewn  
busnes yn Llanberis



Nadolig Llawen  
a Blwyddyn Newydd Dda  
i bawb yn  
Llanberis a'r Cylch  
oddi wrth

**CENTRAL  
GARAGE**

LLANBERIS.  
Ffôn: 202

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Gweithdy Crefftau

**odyn  
copr**

Stryd Fawr  
LLANBERIS  
Ffôn

Padarn 366  
Llanberis 591

Ar gyfer anrheg  
Nadolig lleol  
eleni

Nadolig Llawen a Blwyddyn  
Newydd Dda i chwi oll

**MYRA'S**  
44A STRYD FAWR  
LLANBERIS

Dymuna Mr a Mrs Starkey ac  
Alicia Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd Dda i'w  
cwsmeriaid, hen a newydd

CARDIAU, ANRHEGION,  
MELYSION, SIGARETS, HUFEN  
IA, TEISENNAU a LOGIAU  
NADOLIG

Cardiau, Anrhegion, Melysion,  
Sigarets, Hufen Iâ, Teisennau a  
Logiau Nadolig

Nid dim ond siop i ddringwyr  
ydi siop Joe Brown  
Dewch, er enghraifft, i weld  
y dewis gwyh o gotiau 'quilted'  
i'w gwisgo bob dydd.

Mae'r prisiau cyn rhated â  
neb yn y cylch ac mi wnaent  
anrhegion Nadolig delfrydol.

Cofiwch –  
I ddringwyr a llawer mwy!



**Joe  
brown**  
CLIMBING & CAMPING  
EQUIPMENT SPECIALIST

LLANBERIS TEL. 327

Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

**CABS  
PADARN**

FFÔN: PADARN 347

Gwasanaeth Tacsî a Bws Mini

Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd

Unrhyw bellter : Hur Contract

Dymuna Dafydd a Myra Price, 83 Maes Padarn, Llanberis  
a'r holl yrrwyr

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Cofiwch y Nadolig hwn:

CAR AC YFED – COLLI TRWYDDED  
CABIAU NI – HWYL A SBRI!

NADOLIG LLAWEN A  
BLWYDDYN NEWYDD  
DDA  
oddi wrth

**Vera a Haydn**

**SIOP  
CHIPS**

SNOWDON VALLEY  
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 659

DYMUNA  
CLEDWYN A BETTY  
PARRY

GLAN Y DON  
STRYD FAWR  
LLANBERIS

301

NADOLIG LLAWEN  
A


BLWYDDYN NEWYDD

DDA

i'w

ffrindiau a chwsmeriaid o!

Lle Rhagorol  
l Brynu Eich  
Anrhegion Nadolig!



## Llanberis Art & Craft

Nadolig Llawn a  
Blwyddyn Newydd Dda LLANBERIS, TEL. 597



NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA  
i holl ddarllenwyr yr ECO



BRYSIWCH I GAEL EICH

## Teganau

YN SIOP

### E. WILSON HUGHES

84 Stryd Fawr

LLANBERIS

FFÔN  
491

Wrth droed yr Wyddfa . . .



## BWYTY FFERM BRON ERYRI LLANBERIS

Ffôn  
391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

### HYSBYSIAD PWYSIG

Y mae ein CANOLFAN ADLONANT newydd ar agor o'r cyntaf o fis  
Rhagfyr gyda lle i 300.

Byddwn yn cynnal pob math o nosweithiau adloniant yn cynnwys  
dawnsio gyda grwpiau Cymraeg gorau Cymru yn dechrau nos Wener  
Ionawr 22 gyda **GERAINT JARMAN A'R CYNGANEDDWYR**.  
Bydd CABARET bob wythnos ar NOS SADWRN. DISCO bob wythnos.  
GRWPIAU CYMRAEG a nosweithiau 'COUNTRY & WESTERN'

Yr ydym yn trefnu dwy noson arbennig ym mis RHAGFYR i roi cyfle i chi  
brofi a gweld ein cyfleusterau:-

NOS FERCHER RHAGFYR 2 - CABARET yn cyflwyno grŵp 'EXODUS'  
a DISCO - tocynnau £1.

NOS WENER RHAGFYR 11 - CABARET yn cyflwyno grŵp 'SLIMLINE'  
a DISCO - tocynnau £1.

Bydd CINIO LLAWN neu BWYD BASGED ar gael hefyd.  
Tocyn mynediad ar werth ymlaen llaw neu wrth y drws o 6.30 ymlaen.  
GWYLIWCH AM EIN POSTERI AC AM HYSBYSEB YN ECO'R WYDDFA  
BOB MIS I GAEL RHAGOR O FANYLION.

PEIDIWCH AG ANGHOFIO EIN 'NOSON CALAN' -  
YCHYDIG DOCYNNAU AR ÔL!

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU

AM 1982

oddi wrth

W. J. DAVIES

## MODURDY'R WYDDFA

LLANBERIS Ffôn 225.



A.A. R.A.C. M.O.T.

Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos

NADOLIG LLAWEN  
A BLWYDDYN  
NEWYDD DDA



CROCHENDY  
LLANBERIS POTTERY


## G. Ll. Jones

ENGINEERING

GROVE HOUSE, LLANBERIS ☎ 322

(G.Ll. Jones & H.Ll. Jones)

GWAITH DUR GRAENUS I SIWTIO BOB  
CWSMER, ER ENGHRAIFFT GRISIAU DIANC  
RHAG TÂN, OFFER FFARM, GIATIAU. HEFYD  
OFFER MEYSYDD CHWARAE AR GYFER  
CYNGHORAU BRO, BWRDEISTREF AC ATI  
CYFARCHION NADOLIG I HOLL  
DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA





# Mwy o gyfarchion Nadolig LLANBERIS

Nadolig Llawn  
a  
Blwyddyn Newydd Dda  
oddi wrth  
**MARTIN & CAROL**



**PRINCE OF  
WALES  
LLANBERIS**

Ffôn LLANBERIS 708

Cwrw blasus  
Croeso cartrefol



Adloniant:-  
Nos Fercher a Nos Sadwrn  
Canu Cymraeg efo'r organ

**Nos Wener**  
Country & Western

**CYFARCHION  
Y TYMOR**

oddi wrth



**IDWAL  
THOMAS**  
SIOP ESGIDIAU  
Stryd Fawr  
**LLANBERIS**

Ffôn PADARN 282



NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD  
DDA  
oddi wrth

**P  
E  
E  
T  
I  
E  
S**



AR AGOR  
9am - 8pm  
7 DIWRNOD  
YR  
WYTHNOS

STRYD FAWR  
LLANBERIS

**CYMYSGWR  
CONCRIT  
AR FENTHYG**

£10 yr wythnos  
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO  
LLWYTHI YSGAFN  
CLIRIO SAFLEOEDD,  
DANFON TYWOD,  
GRO A DEFNYDDIAU  
ADEILADU ERAILL

**ERIC  
GOVER**

11 STRYD YR  
WYDDFA

**LLANBERIS**


Ffôn:  
**PENLLYN 285**  
neu **PADARN 327**

Cyfarchion y Tymor  
i chwi oll

**SIOP GOED**

STRYD FAWR

**LLANBERIS**



NADOLIG LLAWEN  
a Blwyddyn Newydd Dda  
oddi wrth  
Mr. a Mrs. W.JONES  
Gwen, Alwena  
a Michael Wyn

**Padarn  
Stores**

**LLANBERIS**  
Llanberis 496  
BARGEINION

**Mace**

NADOLIG LLAWEN A  
BLWYDDYN NEWYDD  
DDA

i bawb oddi wrth

**Bessie Jones**  
**Siop  
Caxton**



STRYD FAWR  
LLANBERIS



NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA  
I CHWI OLL

oddi wrth

ARFON A DILYS PHILLIPS

**Dorothy's**

SIOP 'DAFEDD  
A DILLAD PLANT

38 STRYD FAWR **Llanberis** Ffôn: 772

GAN BWY  
MAE'R GWALLT DELA'N Y FRO?  
ATEB: CWSMERIAID

**NEW IMAGE  
HAIR DESIGN**

STRYD FAWR  
**LLANBERIS**  
FFôn: Llanberis 627

NADOLIG LLAWEN  
A BLWYDDYN NEWYDD DDA ICHWI OLL

Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd  
Dda oddi wrth

## CELTIC HOUSE

Stryd Fawr  
LLANBERIS

ANRHEGION NADOLIG A  
WNAED YN LLEOL:  
TEGANAU MEDDAL : DILLAD  
GWELY

NADOLIG LLAWEN A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA  
oddi wrth  
Wil a Garvin

TOM  
JONES

A'R CWMNI



STORFA GIG  
GLAN PADARN  
LLANBERIS  
(Ffôn 319)



Brysiwch!

Archebwch eich

TWRCI  
NADOLIG  
a'ch

CYW IÂR  
a PHOB MATH  
O GIGOEDD  
ERAILL

YN AWR  
gan

Wavell  
Roberts  
CIGYDD  
LONDON HOUSE  
LLANRUG

Ffôn:  
Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO!

Mynnwch y gorau  
a dewch atom ni!

# LLANBERIS

CARTREF PEN GWAITH – Dymuna Matron Plas Pengwaith, ddiolch o galon i'w staff am eu caredigrwydd a'u gwaith di-flino yn paratoi'r Noson Goffi yn y Cartref nos Wener, Tachwedd 16. Hefyd, mae ei diolch yn fawr iawn i'r llu cyfeillion caredig-maent yn rhy niferus i'w henwi yn bersonol, am eu haelioni a'r amrywiol ffyrdd y buont yn cynorthwyo yr ymdrech. Yn bennaf, diolch i'r cyhoedd yn gyffredinol am eu cefnogaeth hael a pharod eto eleni. Diolch dros yr holl aelodau sy'n byw mor hapus fel un teulu mawr ym Mhengwaith. Diolch yn fawr.

CLWB ERYRI – Yng Ngwesty'r Gwynedd, ar nos Wener ym mis Hydref gyda Mr Emlyn Davies, Waunfawr yn llywyddu gwrandawyd ar araith ddifyr dros ben ar farddoniaeth gan Mr Harri Gwynn, Llanrug. Diolchwyd iddo gan Mr Tom Jones, Llanrug.

Y mis hwn, eto yng Ngwesty'r Gwynedd rhoddodd Mr Cledwyn Williams, cyn-brifathro Ysgol Gynradd Llanrug ddarlith hynod o bleserus, a diolchwyd iddo gan y llywydd, Mr Cledwyn Jones, Llanberis.

YN YR YSBYTY – Mae rhai o'r ardalwyr yn dal i dderbyn triniaeth a da yw deall bod y cyfan yn gwella yn araf a hwyrach erbyn y byddwch yn darllen yr Eco y bydd rhai ohonynt wedi dychwelyd gartre – pob dymuniad iddynt gael llwyr wellhad yn fuan iawn. Ar hyn o bryd ym Mangor y mae Evie Oliver Roberts, Teras Minafon. Yno hefyd yr oedd Mr David Griffiths, 38 Dôl Elidir, a oedd wedi torri ei goes, ond y mae wedi dychwelyd gartref. Mr Robert Hughes, Stryd Padarn, yntau yn Ysbyty Glan Clwyd yn disgwyl dychwelyd gartref. Mr Evan Evans, Stryd Yankee, yntau yn ysbyty Lerpwl; Mrs Jane Owen, Castle View a Mrs Martha Hughes, y ddwy wedi dychwelyd adref.

AR Y TELEDU – Da iawn Rhian, 'roedd pawb o'r ardalwyr yn siŵr o fod ar eu traed yn eich gwyllo ac yn gwrando arnoch ar y rhaglen 'Gorau Gwerin' – HTV, nos Fawrth. Merch Mr a Mrs Alwyn Owen, 15 Stryd Siarlot yw Rhian ac wedi ennill llwyddiant yn eisteddfodau lleol yr Urdd, y Genedlaethol a Llangollen.

CASGLIAD CYMDEITHAS GENEDELAETHOL ATAL CREULONDEB I BLANT – (NSPCC) – Dymuna Mrs Jane Davies, Stryd y Dŵr ddiolch i'r cyfeillion hynny a fu'n casglu o amgylch yr ardal at y Gymdeithas uchod am y swm anrhydeddus o £56.49. Y casglwyr oedd Mrs Rhys Owen, Mrs Mary Owen, Miss Carys Jones a Miss Bethan Jones, Mr Geraint Morris, Miss Elinor Williams a Keith a Mark Parry.

YN 21 OED – Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Bryn a Dylan ar ddathlu eu pen-blwydd yn 21ain oed ar Dachwedd 20. Dyna ddymuniadau mam a dad a'r teulu oll o 60 Dôl Elidir.

Llongyfarchiadau i tithau Derek, o 50 Maes Padarn, ar gyrraedd by ben-blwydd yn 21 oed – ddydd lau, Tachwedd 21, oddi wrth mam, dad, Dewi, Delyth a Samantha.

UNDEB Y MAMAU – Ar Dachwedd 3 cyfarfu aelodau o Undeb y Mamau, Eglwysi Sant Peris a Sant Padarn pryd y cafwyd anerchiad difyr ac addysgiadol iawn gan y Canon Alun Jones ar 'Y Seintiau Cristnogol'. Diolchwyd iddo gan Mrs Denneas Hughes a Mrs Eric Owen. Cydymdeimlwyd ag un o'r aelodau, sef Mrs Nellie Roberts, ar golli ei brawd mor sydyn, a dymunwyd adferiad buan i amryw o'r aelodau oedd yn cwyno, rhai yn eu cartrefi ac

eraill yn yr ysbyty. Darparwyd lluniaeth ysgafn gan Mrs Hughes, Bwthyn y Gadlys a Mrs Cheeseman.

PRIODASAU – Pleserus iawn yw cofnodi priodasau ein pobl ifainc lleol a chyd-lawenhau â hwynt ar y diwrnod hapusaf yn eu bywyd. Derbyniwch longyfarchiadau yr ardalwyr yn gyfan.

Olwen a 'Hai' : Merch Mrs Mary Gay Pritchard, a'r diweddar Hugh Pritchard, Stryd Turner yw Olwen a phriododd â 'Hai', bachgen dymunol iawn o Tai-Wan. Cyfarfu'r ddau tra'r oeddent yn gweithio yn Swyddfa Chwarel Dinorwig. Priododd y ddau yng Nghaernarfon, ac yna bendithiwyd y briodas yn Eglwys Sant Peris, Nant Peris gyda'r Parch Ganon Alun Jones yn gwasanaethu. Pob lwc i chi Olwen a Hai-Tien Yu.



John ac Olwen: Yng Nghapel Cefn Bach, Llanedwen, Ynys Môn y priodwyd John Gwyn Williams, mab Mrs Gwyneth Williams, a'r diweddar Alun Williams, Eirianfa, ag Olwen, merch Mr a Mrs John L. Williams, Bodafon, Llanfair P.G., Môn, gyda'r Parchedigion J. Bennett Jones a John S. Roberts yn gweinyddu a Mr Alwyn Jones, wrth yr organ. Trefnwyd yr arlwy yng ngwesty Carreg Brân, Llanfairpwll, a bu amryw o'r gwahoddedigion yn gwir fwynhau eu hunain gyda'r nos mewn disgo a drefnwyd ar eu cyfer.

Deallwn na fydd y ddeuddyn yn aros yn barhaol yn yr ardal a gresyn mawr yw hyn, oherwydd mae John wedi bod mor weithgar gyda phob mudiad lleol. Ond rhaid rhoi ystyriaeth i'w waith dyddiol. Swyddog gweinyddol sydd yn gweithio o Gaernarfon yw John, a rhaid byw mor agos â phosibl at y Swyddfa. Ers tua 8 mlynedd mae wedi bod yn gyfrifol am y Clwb leuenctid, yn Swyddog Maes dros Wynedd i Gymdeithas Clybiau leuenctid Cymru. Mae yn gynghorydd Cymuned, yn aelod o Bwyllgor y Ganolfan ac wedi gweithio gyda'r pwyllgor carnifal a mabolgampau. Nid anghofiwn y Padarn Roc a drefnodd mor llwyddiannus. Gobeithiwn yn wir, pa le bynnag y bydd Olwen a John yn gwneud eu cartref, y cawn eu cydweithrediad eto o dro i dro. Pob bendith iddynt yn eu byd newydd.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yng nghyfarfod Hydref cawsom noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr Vernon Hughes, Beechbank, pan ddangosodd ffilm Awdurdod Dŵr Cymru – hanes dŵr o'i darddiad i'r gegin. Yr oedd yn ffilm gwerth ei gweld, yn addysgol, ac wedi ei chyflwyno yn arbennig o dda, gyda golygfeydd hyfryd. Diolch yn fawr i Mr Hughes.

YN Y COLEG – Y tymor yma dechreuodd Cheryl, merch Mr a Mrs Owen, Crud yr Awel gwrs ar drin gwallt yng Ngholeg Technegol Llandrillo. Hefyd, Michelle, merch Mr a Mrs T. Thomas, Stryd Tŷ Du. Dymunir i'r ddwy bob llwyddiant tra yn y Coleg.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL – Agorwyd y Gymdeithas yn swyddogol gan y llywydd, y Parch

Marcus Robinson yng Nghapel Coch, nos Lun, Hydref 26, a chafwyd anerchiad gan y Parch Hugh John Hughes. Llywydd y noson oedd Mr Hugh Richard Jones.

Yna, ar ddechrau Tachwedd, rhoddodd Mr R.H. Parry, gynt o Gwm y Glo araith odieithol o ddifyr ar hanes y fro. Diolchwyd iddo gan Mr Vernon Hughes a Mrs Dilys Bayliss yn eilio. Swyddogion y flwyddyn yw: llywydd, y Parch Marcus Robinson; is-lywydd, Mr Hugh Richard Jones; trysorydd, Mrs Hughes, Beech Bank; ysgrifennydd, Mrs Lola Sellars, Hafan.

DYDD Y COFIO – Cynhaliwyd gwasanaeth gan y Parch Ganon Alun Jones ar Sul y Cofio a chafwyd gorymdaith drwy'r pentref gydag aelodau o'r Llong Brydeinig dan arweiniad Mr Ellis Jones, hefyd Mr G. Branningam, Mr Eurwyn Roberts, ysgrifennydd, Mr Noel Lewis, cyd-ysgrifennydd. Gosodwyd y Blodeudyrch Pabi ar y Gofeb, ger y Ganolfan gan y Llong Brydeinig, Y Cadlanciau Milwrol, Adran Sant Ioan, Y Sgowntiaid, Y Guides, Y Seindorf Leol, Y Clwb Pêl-droed, Pwyllgor Pêl-droed Llanberis, Pwyllgor y Carnifal, Undeb y Mamau, Sefydliad y Merched, Clwb y Mamau Ifainc, Cymdeithas Anabl Eryri, Y Gymuned, Y Gymdeithas Lafur, Clwb yr Henoed, Y Gwasanaeth Tân, Y Brownies a Mrs Squires.

TAITH GERDDED – Os cafodd teithwyr dywydd garw rhyw dro, y 40 o ferched dewr o ffatri'r Glyn oedd y rheini. Cawsant y glaw a'r gwynn a'r eira trwchus wrth iddynt gerdded ar Dachwedd 25 o'r ffatri i gopa'r Wyddfa. Cyn cychwyn 'roedd yr arwyddion tywydd yn sobor o ddigalon, ond er hyn i gyd ni ddigalonodd neb. Dechreuodd fwrw eira cyn iddynt gyrraedd 'Ty Hanner-ffordd, a gwaethygodd y tywydd hyd iddynt gyrraedd Clogwyn – dim ond hanner y cerddwyr a gariodd ymlaen i gyrraedd y copa.

Mawr yw diolch y merched i fechgyn y sgowntiaid o Gaernarfon am eu cynorthwyo ar hyd y daith. Hefyd i'r Uwchgaptan Maesten Jones a'i gi 'Gwyn', oedd wrth law ar hyd y ffordd rhag iddynt golli'r llwybr yn yr eira. Wedi cyrraedd yn ôl i'r pentre 'roedd gwesty Bron Eryri wedi paratoi lluniaeth ardderchog i bawb a fu ar y daith gerdded. Oedd y daith yn werth yr ymdrech deudwch? – oedd wrth gwrs. Codwyd £400 gan y criw bach yma at apêl Jimmy Saville ar gyfer ysbyty Stoke Manderville. Ardderchog iawn – rhywbeth y dylai'r cyhoedd eich hedmygu am ei wneud yn wyneb yr anawsterau.

MARWOLAETH – Ddydd Mawrth, Tachwedd 17, claddwyd Miss Nora Williams, Fachwen ym mynwent Nant Peris. 'Roedd Nora yn 60 oed, ac wedi byw ei hoes yn yr ardal, wedi cadw busnes yn y Stryd Fawr am flynyddoedd, a mynd o gwmpas yr ardaloedd cyfagos ar hyd blynyddoedd y rhyfel gyda'i bara a'i chacenni a phawb yn ei disgwyl yn eiddgar yr un amser bob dydd. Wedi colli'i thad, bu ei mam yn wael am flynyddoedd lawer a gofallodd Nora amdani hyd y gallai. Daeth gwaeledd i'w rhan hithau ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma gorfu i Netta, ei chwaer ddod gartre i Fachwedd i ofalu amdani. Estynnir cydymdeimlad dwys â Netta a'i chwaer ieuengaf yn eu colled.

YR APÊL AT GRONFA'R ARENNAU – Mae'r pwyllgor lleol wedi dechrau yn dda iawn gyda'r apêl am gefnogaeth i Gronfa'r Arennau. 'Roedd pawb fu yn y cyngerdd a gynhaliwyd yn Ysgol Dolbadarn, wedi ei drefnu gan Mrs Barbara Owen a Miss Ann Sweeney, wedi cael mwynhad, hwyl a sbri. Cafwyd amryw o eitemau o ganu ac actio a sioe bypedau i'r plant. Diolchir i Mr John Hugh Hughes, y prifathro

am lywyddu, i bawb a fu'n darparu ar gyfer y noson goffi a'r bwrdd cacennau, ac i'r llu cyfeillion a anfonodd roddion hael iawn.

Enillwyr y raffl ydoedd 1. Darlun paent: tocyn rhif 77 (pinc); 2. hamper o fwyd: Mrs K. Owen, Dôl Eilian; 3. Cyw iâr: Mrs Hughes (gwraig y prifathro); 4. Siocled: Iris, CEGB.

Nid oes gwybodaeth pwy yw enillydd y Tocyn 77. Os gwelwch yn dda gwnewch gais i'r ysgrifennydd, Mrs Joan Hughes, 1 Stryd Tomos.

Fe wnaed elw o £180 ac mae'r rhoddion ariannol yn dal i ddod i law yn ddyddiol. Bydd aelodau'r pwyllgor yn barod i dderbyn unrhyw rodd tuag at y gronfa. Aelodau'r Pwyllgor yw: Cadeirydd, Sian Thomas; trysorydd, Eiddwen Thomas, ysgrifennydd, Joan Hughes. Y pwyllgor yw Mrs Jane Morris, Mrs Enid Jones, Mrs Marian Jones, Mrs Jean Roberts, Mrs Madeline Rogers, Mrs Mair Roberts, Mrs Doris Hughes, Mrs Barbara Owen, Mrs Carys Lloyd Williams, Mrs Carol Torr a Mrs Bet Roberts.



**JUDO** – Ym mhencampwriaeth Judo Gogledd Cymru a gynhaliwyd ym Mhlas Madog, Wrecsam, ar Dachwedd 1, ennillodd Gillian, unig ferch Mr a Mrs Bernard Evans, Isallt, Stryd Newton, y Tlws Arian yn y gystadleuaeth o dan y pwysau 45Kg. Aelod o Glwb Bashido, Bangor yw Gillian, ac yn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, Llanrug.

Llongyfarchiadau i chi Gillian, credaf mai chi yw'r eneth gyntaf yn yr ardal i ymddiddori mewn judo. Daliwch ati – i anelu am y Tlws Aur.

Yn yr un bencampwriaeth llwyddodd Adrian, mab hynaf Mr a Mrs Dennis Williams, 23 Stryd Fawr i ennill y Tlws Aur yn y gystadleuaeth dros y pwysau 71Kg. Mae Adrian yn hen law ar Judo erbyn hyn, ac wedi ennill llawer o wobrau, ac wedi ei ddewis yn aelod o dîm Judo Cymru. Llongyfarchiadau i chwithau hefyd Adrian.

**Y CWMNI DRAMA** – Mae drama newydd ar y gweill gan y cwmni drama lleol. Byddant yn ymarfer ffars arall gan Meirion Powell – sef 'Y Treble Chance'. Byddant yn ymarfer yn ystod misoedd y gaeaf fel y gellir ei llwyfannu yn y gwanwyn.

**ADRAN URDD YR YSGOL** – Nos Iau, Hydref 29, cafwyd noson ddifrif iawn i ddathlu Calan Gaeaf. Bu'r plant yn brysur iawn yn gwneud gwisgoedd gwrachod, masgiau, hetiau gwrachod, a lanteri maip, a bu cystadlu brwd a mwynhawyd noson hwyllog dros ben wedi ei threfnu gan Mr Iwan Roberts, un o athrawon yr ysgol.

**NAW LLITH A CHAROL** – Mae darpariaethau ar droed gan blant Ysgol Dolbadarn i gynnal noson o Naw Llith a Charol yn eglwys Sant Padarn, bnawn Sul, Rhagfyr 13, am 2 o'r gloch. O gofio'r wledd a gawsom y llynedd wrth y plant, mae pawb yn disgwyl yn eiddgar iawn am eu clywed eto eleni. Nos Fawrth, Rhagfyr 15, bydd noson agored yn yr ysgol rhwng 6 ac 8 o'r gloch.

**Y GOBEITHLU** – Mae'r Gobeithlu Undebol wedi dechrau ar waith y gaeaf gyda brwdfrydedd, dan lywyddiaeth y Parch Marcus Robinson. Y noson gyntaf cymerwyd

y rhannau arweiniol gan Christine Pitts a Trystan Ohmas, ac yna dangoswyd sleidiau ar y Fro gan y Parch Hugh John Hughes. Yr ail nos Lun, cymerodd Glyn a Derek Hughes y rhan agoriadol a chyflwynwyd y noson i ofalaeth Mr Tom R. Jones, 'Rallt Goch, Ceunant, pryd y difyrwyd y plant gyda stori gyffrous.

Ar Dachwedd 16, Nicola, Julie ac Ian Torr fu'n agor y cyfarfod ac yna cafwyd eitemau gan Christine, Eirian a Siwan.

Trefnwyd rhaglen ar gyfer y Nadolig. Y swyddogion eleni yw – ysgrifenyddion: Mrs Catherine Lloyd Williams a Mrs Lola Sellars; trysoryddion: Mrs Helen Parry a Mrs Meirwen Bayliss.

**CROESO GARTRE** – Bu Owen Jones, Llainwen, drosodd yn yr America ar ei wyliau, ond druan ohono, cymerwyd ef yn wael, a bu yn derbyn triniaeth mewn ysbytai tra bu yn y wlad. Mor falch yw'r ardalwyr o'i weled wedi dychwelyd gartref ac wedi gwella. Bydd yn hir iawn cyn meddwl am groesi'r lwydd eto 'rwy'n siŵr. Croeso gartre i ti Now.

**CYNGOR Y GYMUNED** – Pan gyfarfu pwyllgor y Gymuned yn ddiweddar yn y Ganolfan bu trafodaeth ar amryw o bynciau pwysig iawn ynglŷn â gwelliannau i'r ardal a'r cylch, a'r penderfyniad i argymhell Pwyllgor Arfon i ystyried yr awgrymiadau. Dyma rai o'r argymhellion:

1. Fod mwy o ddarpariaeth ar gyfer ieuenctid yr ardal.
2. Ceisio am ddiwydiannau ysgafn i'r cylch.
3. Trefnu lle chwarae i'r plant wrth ymyl y stadau tai newydd. Dylid rhoddi blaenoriaeth i Nant Peris lle nad oes unrhyw le chwarae i blant y pentref.
4. Trefnu mwy o leoedd parcio yn y pentref.
5. Rhoi ystyriaeth i ddatblygu Glyn Rhonwy er lles i'r ardal a'r cylch.
6. Datblygu tir Dôl-y-Goeden fel Canolfan Adlonaint.
7. Lledu'r palmant drwy Nant Peris a lledu'r ffordd hyd Bont-y-Gromlech.
8. Gwell gwasanaeth trafniadaeth cyhoeddus i Nant Peris.
9. Trefnu i'r dyfodol am fynwent newydd.
10. Mae nifer o'r offer chwarae sydd wrth y Lanfa wedi eu symud er iddynt gael eu hatgyweirio yn barod erbyn y gwanwyn.
11. Mae'r Cyngor mewn cysylltiad â'r Parc Cenedlaethol i blannu coed yma ac acw ar hyd y pentref.

Gwerthfawrogwyd y gwaith a wnaeth Cyngor Arfon yn glanhau yr ysbwriel o Clegir unwaith eto. Gresyn o beth bod yr ardalwyr mor anystyriol, a gwybod mor beryglus i iechyd y cyhoedd yw gadael y fath fudreddi i fagu llygod mawr ac i gario afiechyd.

Bydd y Cyngor eto eleni yn rhannu grantiau i'r mudiadau a'r cymdeithasau lleol i'w helpu i gario eu gwaith da ymlaen. Os am wneud cais fe ddylid gwneud hynny cyn diwedd y flwyddyn i'r ysgrifennydd: Mr Islwyn Jones, Y Garn, Bryn Moelyn, Llanrug.

**YN GWELLA** – Rai misoedd yn ôl cyfarfu Neville, mab Mrs Thomas a'r diweddar Peris Thomas, â damwain tra'n ymarfer gyda phlant yr ysgol ar y cae chwarae a bu yn yr ysbyty am beth amser. Deallwn ei fod wedi gwella ac wedi ail ddechrau ar ei waith fel ysgolfeistr yn Stratford.

**CROESO GARTREF O HONG KONG** – Ar ôl tua 9 mlynedd o wasanaeth gyda'r llywodraeth yn Hong Kong mae Gareth a Brenda, a'u pedair merch wedi dychwelyd yn ôl i Brydain. Mab Mrs Jackson, Maes Padarn yw Gareth ac 'roedd ei ddychweliad yn bleser o'r mwyaf iddi ac i wybod ymhellach nac ydoedd ef a'i briod yn bwriadu mynd i wlad arall eto. Flwyddyn yn ôl anfonodd Gareth

docyn awyren i'r fam iddi gael syniad sut wlad yr oedd ef a'i deulu yn ymgartrefu ynddi. Bu Mrs Jackson yno am tua mis – ond Cymru, er yr holl law ac oerni, oedd yn cyfri orau ganddi ac 'roedd yn falch o ddod yn ôl i'r hen ardal.

**YSGOL DOLBADARN** – Cynhelir partïon Nadolig Ysgol Dolbadarn (Babanod) – pnawn Mercher, Rhagfyr 9, a'r Adran Iau – pnawn Iau, Rhagfyr 10.

**RAS BRAMIAU** – Cynhelir ras bramiau nodedig y Clwb Pêl-droed bnawn Llun, Rhagfyr 28. Dyma gyfle i rhywun sydd eisiau gwared â hen goits. Buasai'r clwb yn falch iawn ohonynt. Apelir ar rai i gymryd rhan ac i eraill eu nodd. Bydd y ras yn

cyhwyn o Stryd y Ffynnon, yna ymlaen drwy'r pentref at westy'r Fictoria ac yn ôl i Stryd y Ffynnon. Am fanylion pellach dewch i gysylltiad ag un o aelodau'r Pwyllgor neu Arfon Phillips, 38 Stryd Fawr (ffôn: Llanberis 772).

**DYWEDDIAD** – Llongyfarchiadau i Valerie Ann, merch ieuengaf Mr a Mrs Cledwyn Parry, Glan y Dŵr ar ei dyweddïad ar Dachwedd 14, â Colin James Jones, mab Mr a Mrs W. Jones, Pant-y-Pistyll, Nebo.

**PERSONOL** – Tra bydd Sian yn yr ysbyty yn Lerpwl, derbynïaf y newyddion lleol y dymunwch eu cyhoeddi yn yr Eco. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad, – **Meira Bryn Hughes.**

## TAN-Y-COED

**CYNGOR YR EGLWYSI RHYDDION** – Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor o Gyngor yr eglwysi rhyddion yn Festri Tan-y-Coed nos Fercher, Tachwedd 4.

Agorwyd y cyfarfod mewn defosiwn gan Mr Glyn Owen. Ymhellach cafwyd annerchiadau ar Ddiarfogi Niwclear, gan Mr Hefin Jones a Mr Selwyn Williams, ac yna bu trafod ar y pwnc.

Diolchwyd i'r siaradwyr gan Mr Glyn Owen a'r Parch W.O. Roberts.

Mrs Miriam Hughes oedd y cyfeilydd.

**LLONGYFARCHIADAU** i'r plant canlynol o'r ardal ar eu llwyddiant yn eu gwahanol adrannau yn Eisteddfod Cylch Llanrug ddydd Sadwrn, Tachwedd 7: Manon Ll. Evans, Amlyn Ll. Evans, Ruth Gardener, Bethan L. Parry, Wyn Parry, Annwen Parry a Jake Wood, hefyd Mrs Lola Butler a enillodd wobw am ysgrifennu sgets.

**BRYSIWCH WELLA** – Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da i Mrs Nancy Jones, 6 Tai Bryngwyn. Deued gwellhad llwyr a buan iddi. Dymunwn adferiad buan i Mrs

Jennie Rees Hughes, Oerddwr a gyfarfu â damwain i'w throed yn ei chartref. Brysied wella. Da Deall bod Mrs Nancy Morris, Awelfryn yn parhau i wella, ein cofion a'n dymuniadau da iddi hithau.

**DERBYN AELOD** – Nos Sul, Rhagfyr 6, derbynnir ymysg eraill Linda W. Jones, Pant Clyd gynt yn gyflawn aelod o Gapel Mawr, Llanrug. Ein dymuniadau da i Linda a'i chyfoedion ar yr achlysur pwysig hwn yn eu hanes.

**MARW** – Ar Dachwedd 11, bu farw Mr Harry Thomas, mab y diweddar Mr a Mrs Thomas, 2 Tai Minffrwd, a brawd Mr William E. Thomas, a'r diweddar Mr Robert D. Thomas, Bronant, 2 Tai Minffrwd a Mr Owen W. Thomas, 1 Tai Bryngwyn, Mr John Thomas, Mrs Mary Mc Naughton a Mrs Jennie Maud, Roscoe.

Ym Manceinion yng nghartref ei ferch y bu farw Mr Thomas, ac ym Manceinion y claddwyd ef ddydd Mercher, Tachwedd 18. Cydymdeimlwn â'r brodyr a'r chwiorydd, ei briod a'i blant yn eu profedigaeth sydyn.

Sain (Recordiau) Cyf.,  
Ffordd Llanllyfni,  
Penygroes,  
Caernarfon,  
Gwynedd.  
Tel : Penygroes 732



## RECORDIAU NADOLIG SAIN



**ROSALIND A MYRDDIN:** 'Dau Fel Un'

**'Nos Nadolig Yw':** Carolau Côr Ysgol Glan Clwyd

**Tom Davies:** Record hir-ddisgwyliedig Tom 'Bryniog'.

Enillydd Rhuban Glas Eisteddfod Dyffryn Lliw.

**'Coed y Maes':** Doniau Dyffryn Conwy – Record Bro Gŵyl Gerdd Dant 1982.

**'Y Mab Darogan':** Drama Gerdd wych Cwmni Ieuenctid Maldwyn.

**Plethyn:** 'Rhown Garreg ar Garreg'.

**Tecwyn Ifan:** 'Edrych i'r Gorwel'.

**'Caneuon Grace a Siân':** Leah Owen a Wynford Evans (Tenor).

**Côr Meibion Dyfnant:** 'Gwledd o Gân'.

**Côr Meibion Dowlais**

**Canu Roc:** Geraint Jarman: 'Diwrnod i'r Brenin'. Rhiannon Thomas: 'Dwed y Gwir'.

**Plant Ysgolion Morgannwg Ganol:** 'Awn Ymlaen'.

**Yn eich siop leol rwan!**



# PERERINDOD

Plentyn seithmlwydd oedd Myfi Davies ym 1918 pan ddaeth y newydd dychrynlyd i'w chartref yn Seion "na fyddai dad yn dod adra". Tra'n ymladd yn y Rhyfel Mawr yn Fflandrys bu farw William S. Davies ar Fawrth 26, 1918, ac fe'i rhoddwyd i orwedd ym mynwent 'The New Military Cemetery', Vlamertinge – rhyw bentref bychan o fewn ychydig filltiroedd i Ieper. Ie,

"Garw fu rhoddi'i bridd i'r briddell, –

Mwyaf garw oedd marw ymhell."

Yn y blynyddoedd cynnar wedi'r rhyfel nid oedd amgylchiadau yn caniatáu i deuluoedd galar ymweld â'r mannau lle gorweddai eu hanwyliaid ond pan ddaeth cyfle i fam Myfi fynd draw i Fflandrys fe wnaeth y Lleng Brydeinig y trefniadau. Pan oedd y weddw ar fin cychwyn, digwyddodd salwch yn y teulu a bu'n rhaid gohirio'r trefniadau. Daeth cyfle arall heibio ond y tro hwn eto ddigwyddodd rhyw anffawd fel y bu'n rhaid gohirio eto. Yn anffodus, ni chafodd Mrs Davies gyfle arall.

Yr oedd Myfi, y ferch, Mrs Myfi Roberts, Tai Plastirion, Llanrug yn

benderfynol o fynd i weld bedd ei thad, pe deuai cyfle i'w ffordd – ac fe ddaeth. Ond, fel ei mam o'i blaen, pan oedd hithau ar fin cychwyn fe ddaeth salwch i'w rhwystro.

Pan gyhoeddodd Rhiannon Morris, Bwsiau Arfonia ei bod am drefnu taith i Wlad Belg yn ystod mis Hydref eleni, Myfi a Harri Roberts oedd y cyntaf i roi eu henwau i lawr. Yn ystod Hydref 17-22 'roedd llond bws o drigolion Llanrug a'r cyffiniau yng Ngwlad Belg.

Trefnwyd diwrnod o daith i ardal y mynwentydd a'r fynwent gyntaf oedd yn rhaid ymweld â hi oedd Vlamertinge. Aeth y criw yn gyfan i'r fynwent gyda Myfi i gyd-gynnal ac i gyd-rannu o'i phrofiad – profiad na allai neb ond hi ei ddirnad, dim ond dyfalu. Cynhaliwyd gwasanaeth syml ac effeithiol ar lan y bedd o dan ofal Mr Davies, Plas Gwyn, a chyfranogodd pawb o ryw awyrgylch arbennig.

Bydd y profiad hwnnw yn Vlamertinge yn sicr o aros ym meddyliau pawb oedd yno'r diwrnod hwnnw, ond i Myfi Roberts rhaid ei fod yn brofiad cyfan gwbl unigryw.



Mr a Mrs Roberts wrth fedd tad Mrs Roberts ym mynwent Vlamertinge.

## RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu cyfraniadau tuag at gostau cynnal yr Eco:

£1.00: Mrs Olwen Jones, 45 Stryd Llyn, Caernarfon.

£1 – Mr David Roberts, Bangor; Mr a Mrs John Jones, 9 Tan-y-Foel, Deiniolen; Di-enw, Deiniolen; Teulu

8 Tai'r Faenol, Deiniolen; Di-enw, Deiniolen; 50c – Di-enw, Deiniolen.

£2: Mr Hugh S. Jones, Buarth Newydd, Dinorwig.

£1: Mr a Mrs John Eryl Roberts, Ystrad Mynach.

£1: Mrs Emyr Pritchard, 1 Ffordd Deiniol, Deiniolen.

£4.00: O.E. Jones, Seland Newydd



Trigolion Llanrug a'r cylch ar eu taith ddiweddar i wlad Belg.

## SAITH CANMLWYDDIANT MARW LLYWELYN II

Cynhaliwyd cyfarfod gan Cofiwn (Cymdeithas Coffáu Cenedlaethol Cymru) yn Neuadd Bentref Abaty Cwmhir ar ddydd Sadwrn, Hydref 17, i drafod trefniant coffáu saith canmlwyddiant (1282-1982) marwolaeth Llywelyn II. O'r 40 o wahanol fudiadau cenedlaethol a wahoddwyd y chwe mudiad canlynol yn unig a anfonodd gynrychiolwyr: Adfer, Cofiwn, Plaid Cymru, Pwyllgor Coffa Abergele, Pwyllgor Coffa Abaty Cwm Hir ac is-bwyllgor 1282-1982 Arfon. Mynegodd Cymdeithas yr Iaith a'r Mudiad Meithrin ddiddordeb ond ni anfonasant gynrychiolwyr.

Er gwaethaf yr ymateb siomedig, cafwyd cyfarfod brwd ac adeiladol.

Mae Rhaglen Goffáu Genedlaethol eisoes wedi'i pharatoi. Cynhelir gweithgareddau gan gynnwys raliau, cyngherddau, arddangosfeydd, ffilmiau, dramâu ac yn y blaen, bob mis o'r flwyddyn nesaf ar hyd a lled Cymru. Fe'ch atgoffwn chi ohonynt yn yr Eco. Am ragor o fanylion cysylltwch â Chris Schoen, 2 Sgwâr Betris, Talysarn, Caernarfon.

## EISTEDDFOD GADEIRIOL FFUG BRO 'ECO'R WYDDFA'

BYDD yr Eisteddfod uchod yn cael ei chynnal ar NOS WENER, CHWEFROR 5, 1982 yn Neuadd Ysgol Bryn'refail. Beirniad yr holl gystadlaethau fydd W.S. Jones (Wil Sam); a'r arweinydd fydd Arwel Jones, Llanrug. Dyma restr y cystadlaethau llwyfan a chartref:

### CYSTADLEUTHAU SWNLLYD Y LLWYFAN

1. Côr adrodd yn cynnwys sown effects. (Rhyddiaith neu Farddoniaeth.)
2. Unawd ar unrhyw offeryn gwreiddiol.
3. Deuawd i fab a merch; gyda'r mab yn ferch a'r ferch yn fab. (Cynhelir y gystadleuaeth hon dan amodau a rheolau'r Gemau Olympaidd.)
4. Adrodd unigol. Hunan-ddewisiad – dim mwy na thri phennill gyda'r llythren 'W' i'w chyfnewid am lythren gyntaf pob gair.
5. Parti chwibanu deuchwib – 'Llwyn Onn'. (Ni chaniateir tynnu dannedd gosod ar y llwyfan.)
6. Darn o ryddiaith heb ei atalnodi.
7. Balé wedi ei seilio ar un o straeon Wil Cwac Cwac.
8. Côr crib – unrhyw ddarn safonol.

### CYSTADLAETHAU BARDDONLLYD A LLETHOL

9. Llythyr cwyno
10. Parodi ar 'Y Tylluanod' neu 'Defaid William Morgan'.
11. Limric i'w gorffen:  
"Aeth Draenog am dro rhyw ben bore."
12. Cystadleuaeth y Gadair. Cerdd gocosaid: 'Miri yn y Pentref'.

### Gwobrau

Tlws y Ffwlbri – i'r pentref gyda mwyaf o farciau yn yr Eisteddfod.

Gwobr arbennig i'r Cythraul 'Steddfod.

Byddwn yn eich atgoffa o'r cystadleuthau hyn eto yn y rhifyn nesaf, ond os oes unrhyw un am wybodaeth ynglŷn â'r eisteddfod, gellir cysylltu â Miriam Hughes, Rallt Deg, Cwm-y-glo (Ffôn: Llanberis 416).

Ar gyfer pob parti . . .  
I ddathlu pob achlysur . . .



## Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen  
Thomas)

## Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

## SCIPIA

YMGYMERIR Â CH  
N  
SBWRIEL ADE  
DIWY  
TELERAU

Ffôn:

Dydd Caernarfon 567  
Llanfairfechan 680 32

Gyda'r Nos  
Penylllyn 236.



Wlad Belg.

## ADEIRIOL FFUG R WYDDFA'

cael ei chynnal ar NOS WENER,  
Ysgol Bryn'refail. Beirniad yr holl  
(Wil Sam); a'r arweinydd fydd  
restr y cystadlaethau llwyfan a

## WNLLYD Y LLWYFAN

ects. (Rhyddiaith neu Farddoniaeth.)  
diol.

o yn ferch a'r ferch yn fab. (Cynhelir y  
olau'r Gemau Olympaidd.)

l - dim mwy na thri phennill gyda'r  
yren gyntaf pob gair.

n Onn'. (Ni chaniateir tynnu dannedd

Wil Cwac Cwac.

## DDONLLYD A LLETHOL

faid William Morgan'.

re."  
ocosaid: 'Miri yn y Pentref'.

wyaf o farciau yn yr Eisteddfod.

od.

uthau hyn eto yn y rhifyn nesaf, ond os  
â'r eisteddfod, gellir cysylltu â Miriam  
n: Llanberis 416).

## GWEITHGAREDD DIWEDDARAF THEATR BARA CAWS

Traeth diffaith yng Nghymru yn  
y bumed ganrif. Gwelir dau  
offeiriad yn sefyll ger y môr  
cynddeiriog. Mae un ohonynt yn  
cario baban. Maent am aberthu'r  
baban hwn i blesio duwies y môr,  
rhag i'r tonnau guddio'u tai a'u  
tiroedd. Anodd credu mai Gwion  
bach, y baban gwantan hwn sydd  
ar fin cael ei foddi, fydd Taliesin,  
bardd mwy na holl fawredd llys  
enwog Maelgwn Gwynedd yn  
Aberffraw, a dewin cryfaf ynys  
Prydain. Ond dyma oedd y stori a  
ddilynwyd yng nghynhyrchiad  
olaf Theatr Bara Caws -  
'Taliesin'.

Bu'r cwmni yn teithio  
Gwynedd yn ystod mis  
Tachwedd, a chafwyd ymateb  
brwd i'r cynhyrchiad gan blant  
ieuengaf yr Ysgolion Uwchradd.  
Seiliwyd y sgript lwyfan a  
ysgrifennwyd gan Valmai Jones  
ar nofel Frances Thomas - 'The  
Blindfold Track' a enillodd i'w  
awdures wobwr Tir na n'Og am y  
nofel orau i blant yn ddiweddar.  
Chwaraewyd rhan Gwion gan  
Siwan Jones, Maelgwn Gwynedd  
gan Derec Parry a'r Arglwydd  
Elfyn gan Myrddin Jones. Sara  
Harris-Davies oedd arglwyddes y  
gors a chwaraewyd Myrddin gan  
Dyfan Roberts a Hywel gan  
Gwyn Vaughan. Catrin Edwards  
oedd yn gyfrifol am yr effeithiau  
cerddorol arbennig ac yr oedd y



Yr actorion yw Siwan Jones, Myrddin Jones, Sara Harris-Davies, Derec Parry,  
Gwyn Vaughan, a Dyfan Roberts. Llun: Derec Owen.

cynhyrchiad i gyd yng ngofal  
Clive Roberts, gyda Penni Bestic  
yn cynllunio'r set a'r gwisgoedd.

Yn dilyn y cynhyrchiad hwn,  
fe fydd y cwmni rwan yn mynd  
ati i greu rhaglen gymuned debyg  
i 'Bargen' a 'Hwyliau'n Codi' a  
gaiff ei seilio ar broblem y  
di-gartref. Gobeithir teithio o  
amgylch neuaddau pentref  
Gwynedd am gyfnod o chwe  
wythnos yn ystod misoedd

Chwefror a Mawrth, ac os y  
dymunwch i'r cwmni ymweld  
â'ch neuadd bentref, gellwch  
ysgrifennu atom i'r Coleg  
Normal, Bangor.

Er nad oes gennym  
gynhyrchiad tebyg i'r 'Bynsan  
Binc' eleni, hoffem ddymuno  
Nadolig Llawn a Blwyddyn  
Newydd Dda ichi gyd, ac  
edrychwn ymlaen at eich gweld  
ym mis Chwefror a Mawrth.

Wedi darllen ysgrif Mrs Enid Jones ar Syr Hugh Owen yn yr Eco, tybed a fydd  
hyn o ddiddordeb. Codwyd o un o ddyddiaduron y diweddar Barch R. Pryce  
Ellis, Gweinidog Glasgoed, Penisarwaun 1884.

Hydref 22 1888 ar ddydd Llun am 3.15  
y prynhawn, dadorchuddio cerflun  
Syr Hugh Owen ar y maes. Ffurfiwyd  
gorymdaith yn y castell, sef y Bant,  
Volunteers, Naval Reserves, Mace  
Bearers, Maerod, Y Cyngor Trefol, Y  
Coedwigwyr (hen ac ieuanc), yr  
Oddfellows: rhai o athrawon colegau  
Bangor ac Aberystwyth,  
Cynrychiolwyr byrddau ysgolion, y  
London Education Committee.

Yn absenoldeb Arglwydd Aberdâr  
(oherwydd afiechyd) cymerwyd y  
gadair gan Syr John Puleston  
Galwodd ar y maer (John Jones), yr  
hwn a ddywedodd ei fod ef ar ran y  
dref yn derbyn y cerflun.

Dadorchuddiwyd gan Mrs Wynne  
Jones (merch yr Arglwydd Aberdâr).  
Canodd Tom Harries 'Hen Wlad fy  
Nhadau', y band, a'r dorf yn ymuno  
yn y cytgan. Cafwyd anerchiad gan  
Syr John Puleston. Siaradwyd gan  
Mr Milo (y cerflunydd), Parch E.  
Herbert Evans, yr hwn a sylwai fod

Caernarfon y dydd hwn yn  
anrhydeddu un o'i phlant ei hun. Er  
mai ym Môn y ganed ef (yn y Foel ar  
lan y Fenaï, ger Dwyran) treuliodd  
lawer o'i amser yn y dre.

Nid i goffawdwriaeth mewn rhyfel,  
y codid y cerflun cyntaf yng  
Nghaernarfon, er fod yr hen gastell  
yn ymyl, wedi bod yn fan aml i frwydr  
waedlyd, ond i "Arwr Addysg".  
Apeliai at ieuencyd, pan yn pasio'r  
golofn, gymeryd i fewn i'w calonau  
wersi bywyd Syr Hugh Owen sef -  
Caredigrwydd i'w fam; ffyddlondeb  
i'r Ysgol Sul; gwladgarwr pur ac  
uwchlaw popeth, - ei grefydd - "Dyn  
Duwydoedd". Siaradwyd wedyn gan  
Mr Marchant Williams, Capt Verney,  
Principal Reichel, yr hwn a  
nodweddaï Syr Hugh Owen fel un  
"persistent rather than brilliant".  
Lewis Morris, Syr Hugh Owen (mab y  
diweddar Syr Hugh Owen) a Canon  
Wynne Jones. Diweddwyd drwy i'r  
band chware "God Save the Queen".

STORFA

# Mace

## O.R. & M. PARRY

### Sgwâr Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael  
o fwydydd, llysiau  
a diodydd

## SCIPIAU ARFON

YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB  
MATH  
SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A  
DIWYDIANNOL  
TELERAU RHESYMBOL


Ffôn:

Dydd Caernarfon 5670  
Llanfairfechan 680 329

Gyda'r Nos  
Penylllyn 236.



## BILL ac EILEEN GRIFFITHS



### Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da  
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol



Bysus pleser a bysus mini ar log  
Bysus 12-52 sedd ar gyfer pob achlysur  
Telerau cystadleuol  
Gwaith contract  
Gwasanaeth tacsï lleol



# IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd, Gallt-y-foel

## DEINIOLEN

Ffôn Llanberis 484

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA  
i chwi oll



Cyfarchion  
Nadolig o



# DDEINIOLEN DINORWIG

## a PHENISARWAUN

Nadolig Llawen  
a Blwyddyn  
Newydd Dda i  
chwi oll oddi  
wrth

# BRYTHON JONES LLYTHYRDY CLWT Y BONT Ffôn: Llanberis 325

Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd Dda  
oddi wrth

# IFAN a MARIAN WILLIAMS



SIOP GIG  
BRISTOL HOUSE  
DEINIOLEN  
Ffôn: Llanberis 297

Diolch i bawb a'n cefnogodd yn  
ystod ein blwyddyn gyntaf



NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA  
I BAWB  
oddi wrth  
CLIFFORD, DIANA A NIA

# Swyddfa'r Post DEINIOLEN

Ffôn : LLANBERIS 283

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA  
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA  
oddi wrth  
bawb yn

# ARFON GARAGE

DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

CYFARCHION Y TYMOR  
oddi wrth

# Ann Hughes a genod

SIOP BAPUR NEWYDD

## DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 483



Nadolig Llawen  
a Blwyddyn Newydd Dda  
oddi wrth  
GONTRACTWYR LLORIAU



# CUMBERLAND

Manchester House, Stryd Fawr  
DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 536. Hefyd Penmaenmawr 3424

Yr arbenigwyr ar:

Loriau Bloc, Leino, Rwber, Thermo-plastig,  
Corc, Carpedi, Ail-lorio

# THOMAS & JONES Gwydrwyr



YR HEN SINEMA  
STRYD FAWR  
DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 680 neu 486

Cedwir, torrir, danfonir a gosodir pob math o wydr.  
Gwydro Dwbl. Drysau patio. Awyrwyr Xpelair.  
Gwerthwyr pecynnau gwydro dwbl DIY Polycell y  
medrwyd eu gosod eich hun  
Ar Agor 8-5 Llun-Gwener. 8-12 Sadwrn.



Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd Dda  
oddi wrth  
**Pat Owen**

# SIOP GRON PENISARWAUN

Ffôn: Padarn 272


Diolch yn fawr am eich cefnogaeth  
yn ystod ein blwyddyn  
gyntaf yn y siop.



Mal, Joan a Derek Tavener  
perchnogion newydd

# GAREJ RHIWEN DEINIOLEN

yn dymuno Nadolig Llawen  
a Blwyddyn Newydd Dda i'w  
cwsmeriaid hen a newydd



NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA  
oddi wrth

# JACOB A. JAMES

**Regent House  
DEINIOLEN**

Ffôn: Llanberis 461

NADOLIG LLAWEN a  
BLWYDDYN NEWYDD  
DDA i chwi oll  
oddi wrth

# W.H.Jones

CIGYDD



WAENGOCH  
DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 638

Nadolig Llawen a Blwyddyn  
Newydd Dda i bawb oddi  
wrth



OFFER DRINGO  
A DIOGELWCH  
CLOGWYN  
DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis  
551 neu 816

Newydd Sbon! Gweithdy Crefftau



**SIOP AMAN Stryd Fawr  
DEINIOLEN**



Rhowch anrheg lleol y Nadolig hwn!  
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Gwyl a'r  
teulu

Cefnogwch  
ddiwydiant bro –  
rhowch anrheg  
Nadolig lleol  
eleni

# CROCHENDY BRON Y FOEL DINORWIG

Ffôn: Llanberis 405

Nadolig Llawen a Blwyddyn  
Newydd Dda i bawb



CYFARCHION  
Y TYMOR  
A'R  
DYMUNIADAU GORAU  
AM 1982  
oddi wrth

GWYN OLIVER JONES

# Tafarn Datws Arfonnia

DEINIOLEN




DYMUNA  
CLARICE, ERYL  
a'r STAFF

# BULL INN

DEINIOLEN

NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD  
DDA

i gwsmeriaid a  
chyfeillion oll

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI  
WRTH

# J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU  
A THREFNWYR ANGLADDAU

# DEINIOLEN

Ffôn: PENYLLYN 518 (Dydd)  
Y FELINHELI 670124 (Nos)

Am ddewis da o  
anrhegion Nadolig  
i bawb o'r teulu



## SIOP HELEN DEINIOLEN

Ffôn Llanberis 386



NADOLIG LLAWEN  
a BLWYDDYN NEWYDD DDA  
i chi oll



I DRWSIO'R  
TELEDU  
NEU'R  
RADIO  
FFONIWCH...

Cyfarchion y tymor oddi wrth

## Osmond W. Shaw

DEINIOLEN

Ffôn:  
LLANBERIS 545  
Gwasanaeth 'run diwrnod  
os ffoniwch cyn 10 o'r  
gloch y bore

Nadolig Llawen  
a Blwyddyn Newydd

Dda oddi wrth

BOB A RUTH  
PHILLIPS

WELLINGTON  
INN

Deiniolen

Ffôn : Llanberis 227



Cwrw blasus — chwerw ar  
ei orau

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda  
i chiwi oll oddi wrth



## BECWS DEINIOLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

# DEINIOLEN

DIOLCH — Dymuna Mr David Roberts, (1 Plasllwyd Terrace, Bangor gynt) 6 Llys Elen, Bangor, ddiolch o galon am bob caredigrwydd a dymuniadau da yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gobowen. Diolch yn arbennig i ardal Deiniolen a Dinorwig.

Dymuna Jason John Jones, 9 Tan-y-Foel, Gallt-y-Foel ddiolch i'w ffrindiau ysgol am eu dymuniadau da iddo tra yn Ysbyty Dewi Sant Bangor lle y cafodd driniaeth lawfeddygol. Diolch hefyd i'w deulu a'i gymdogion.

Dymuna Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau, ac yn arbennig ei chymdogion am eu caredigrwydd tra fu yn ysbyty Môn ac Arfon Bangor. Diolch hefyd i weithwyr yr Eco am eu dymuniadau da ac am bob cymorth a dderbyniodd. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna plant, chwiriwydd a brawd Mrs Annie Ll. Jones, 5 Tai Cynfi ddymuno pen-blwydd hapus iawn iddi ar gyrraedd ei phedwar ugain. Boed iddi gael iechyd a llawer blwyddyn eto. Dymuniadau gorau oddi wrthynt fel teulu.

MERCHED Y WAWR — Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod nos Lun, Tachwedd 16 dan lywyddiaeth Mrs Miriam Lewis. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf gan yr ysgrifennydd. Y gŵr gwadd oedd Mr Myfyr Parry, Trigfa, Clwt-y-bont, dirprwy-brifathro Ysgol Pendalar, Caernarfon. Dywedodd air byr am y gwaith yn yr ysgol ac yna dangosodd ffilm o'r plant yn cadw cyngerdd yn yr ysgol yng Nghaernarfon. Mwynhaodd yr aelodau noson hynod o ddifyr. Talwyd diolch i Mr Parry gan Mrs Dilys Hughes, Ty'n-y-weirglodd. Llongyfarchwyd Mrs Jane Eirlys Williams, 3 Pentre Helen ar fod yn llwyddiannus yn yr eisteddfod yn Llanrug yn ddiweddar. Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Ragfyr 15. Etholwyd Mrs Beti Wyn Davies, Pentre Helen ar Bwyllgor y Ganolfan. Hefyd etholwyd Mrs Jane Jones, 3 Stryd Newydd, sydd yn aelod o Glwb Elidir, ar bwyllgor y ganolfan. Rhoddwyd y te gan Mrs Myfanwy Jones, 4 Pentre Helen, Mrs J.C. Hughes, 26 Pentre Helen, Mrs Gwladys Williams, 27 Pentre Helen a Mrs Beti Wyn Davies, 82 Pentre Helen.



Mwy o  
Gyfarchion  
Deiniolen

CLWB ELIDIR — Cynhaliwyd cyfarfod o'r Clwb uchod ddydd Mawrth Tachwedd 17 yn y Clinig. Yr oedd y cyfarfod yng ngofal y llywydd, Mrs C. Marren, a dywedodd air byr am y ddiweddar Mrs Mair Jones a fu yn ysgrifenyddes y Clwb am rai blynyddoedd a safodd yr aelodau fel teyrnged. Casglwyd y swm o £28.40 gan aelodau'r clwb i'w anfon i Gronfa Cyfeillion Ysbyty Eryri er cof am Mrs Mair Jones.

Dymunwyd pen-blwydd hapus iawn i Mrs Annie Lloyd Jones, 5 Tai Cynfi oedd yn dathlu ei phen-blwydd, Tachwedd 18, yn bedwar ugain. Canodd yr aelodau ben-blwydd hapus iddi. Rhoddwyd y te pen-blwydd gan blant Mrs Jones ac mae'r aelodau a'r pwyllgor yn dra diolchgar iddynt am eu haelioni. Enillwyd y raffl (rhoddedig gan ferch Mrs Jones, sef Mrs Gwyneth Lloyd Roberts, Glynafon, Stryd Fawr, Llanberis) gan Mrs Maggie Roberts, Maes Eilian, Dinorwig. Talwyd ymweliad â'r Clwb gan y Parch Ifor Ll. Williams, B.A. gweinidog Libanus (B) a Sardis (B) ac hefyd Penuel Bangor. Bydd y te nesaf Rhagfyr 1. Mae pwyllgor ac aelodau'r clwb yn dra diolchgar i bawb am y rhoddion o nwyddau ac arian ac hefyd am eu presenoldeb yn y Noson Goffi a gynhaliwyd yn y Clinig nos Wener diwethaf.

LLONGYFARCHION — Dymunwn longyfarch mab Mrs Eirlys Lloyd Jones, 73 Pentre Helen, sef Malcolm Ll. Jones, ar lwyddo mewn arholiad mewn coleg Polytechneg yn y Gyfadran Fathemateg ac Astudiaethau Cyfrifiaduron. Dyma anrhydedd mawr eto i un o fechgyn yr ardal. Pob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

BLWYDDYN YR ANABL — Cynhaliwyd cyfarfod gyda chynrychiolaeth o Sefydliad y Merched a Merched y Wawr yn Llys Myfyr, trwy garedigrwydd Mrs Miriam Lewis. Gofynnwyd i'r Weinyddes Leol, Sister Marabel ddod yno i roi gwybodaeth i ni ar offer oedd i'w gael er budd yr anabl. Penderfynwyd archebu dau declyn er galluogi'r cleifion sydd yn orweiddiog yn eu cartrefi i wneud eu hunain yn fwy cyffyrddus. Bydd y rhain hefyd yn helpu'r rhai sydd yn gofalu am y claf. Gwnaed elw o £153 o'r Noson Goffi. Pris y nwyddau a bwrcaswyd oedd £133.00 ond cafwyd gostyngiad o £10.00, oedd yn gadael y gweddill o £30.00. Penderfynwyd anfon y swm yma i Ysbyty Gobowen gan fod amryw o drigolion y cylch wedi bod yn yr ysbyty yma yn ddiweddar.

NOSON GOFFI CLWB ELIDIR — Cynhaliwyd Noson Goffi yn y Clinig, nos Wener, Tachwedd 13 a bu'n llwyddiant mawr. Gwnaed elw o £200 i'r Clwb ac mae'r pwyllgor i'r oedolion yn dra diolchgar i bawb a fu'n helpu, ac a gyfrannodd mewn unrhyw fodd. Dyma enillwyr y raffl: Tegan Meddal: Mrs Katie Davies, Glyn Terrace; Gateau: Mrs Nan Owen, Cynfi Terrace; Tedi: Mrs Moss, Porthaethwy; Shampoo a Set: Miss Nia Davies, Llythyrdy. Cystadleuaeth dyfalu pwysau coes oen: Mrs Nelli Hughes, Erw Fair.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Yng nghyfarfod mis Tachwedd o'r Sefydliad cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni'r Parch Trefor Lewis. Ei destun oedd Gwaith a Bywyd Ilefarydd Ty'r Cyffredin, Mr George Thomas, A.S. Hefyd cafwyd ffilmiau o Dy'r Cyffredin a dangoswyd ysblander y gwahanol ystafelloedd oedd allan o gyrraedd y cyhoedd. Darllenwyd y llythyr misol gan y llywydd Mrs Eirlys Williams. Diolchwyd i'r Parch T. Lewis gan Mrs

Mary Thomas, Tai'r Faenol. Gwerthwyd nifer o blanhigion a gaed trwy garedigrwydd Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen. Gwestwagedd y mis oedd Mrs H.J. Thomas a Miss Kathleen Jones. Cydymdeimlwyd â theulu'r ddiweddar Mrs Mair Jones, Tai'r Faenol a fu mor deyrngar i'r Sefydliad. Hefyd cydymdeimlwyd â Mrs Eirian Jones, New Street a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar. Bydd y cyfarfod nesaf yn Gyfarfod Blyneddol, Rhagfyr 7. Taer erfynnir am bresenoldeb yr oll o'r aelodau.

CYNGOR EGLWYSI — Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf dan nawdd y Cyngor nos Fercher, Hydref 21, pryd y cafwyd gwasanaeth diolchgarwch yn Festri Ebenezer wedi ei drefnu gan Mr Gwyn Parry. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan ieuenctid y pentref.

Cynhaliwyd yr ail gyfarfod o dan nawdd y Cyngor yn Festri Cefn-y-Waun, Tachwedd 9, pryd y cafwyd gwasanaeth o Fawl a Chân gan aelodau'r Eglwysi. Cynhelir Gwasanaeth Carolau Undebol yn Eglwys Llandinorwig, nos Sul, Rhagfyr 20 am 5.30 p.m. Fore Nadolig, gweinyddir y Cymun yn Festri Disgwylfa am 9.30.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL — Yn ystod yr haf ffurfiwyd y Gymdeithas uchod a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar Hydref 26. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Lywydd y Gymdeithas, Mrs Nan Owen, a throsglwyddwyd yr awennau i Lywydd y noson, Mrs M.C. Griffith. Y gŵr gwadd oedd y Dr J. Gwilym Jones, Groeslon, a thraddododd ddarlith ar 'Mwynhau L'enyddiaeth'.

DIOLCH — Dymuna Siân ac Eifion, 8 Tai'r Faenol ddiolch i'w holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach, Alaw Mari. Diolch yn fawr i bawb.

Y SEINDORF — Enillwyr clwb 200 y Seindorf am fis Tachwedd oedd:

1. Rhif 34 — £25 : Mrs Mair Owen, Fyrnwy House, Deiniolen. 2. Rhif 59 — £25 : Mrs D Davies, Post Office, Deiniolen. 3. Rhif 27 — £5 : Mrs M. W. Jones, 37 Glanffynnon, Llanrug.

PRIF DDOSBARTHWR — Diolch i Mr Owain Myfyr Parry, Trigfa, Clwt y Bont, am gynorthwyo Mr Caradog Thomas 2, Bro Helen, Clwt y Bont fel Prif Ddosbarthwr.



Y Goeden Eirin

Am bryd o fwyd  
diddorol mewn  
awyrgylch  
gartrefol ffoniwch

LLANWINDA  
830921

Tŷ bwyta  
trwyddedig yn y  
Dolydd, Groeslon

Cofiwch archebu  
mewn da bryd

#### Y BUGAIL CRAFF

Mae Bryngwyn yn dringo y goeden o'i gwraidd.  
'Waeth heb a bod dicter gan hwn mae y praid.  
A'r gelyn yn llifio'r canghennau mewn dig.  
Gan ofn gweld y bugail yn dringo i'r brig.  
Hen gyfaill mynwsol estynnaf it glod,  
'Rwy'n diolch i'r drefn erioed, am dy fod  
Os digwydd i'r gelyn a thithau gael cwrdd,

A wnei di ddweud wrtho sut mae bridio hwrdd!

Pwy wyr mewn blwyddyn neu ddwy na fydd ynta',  
Fel tithau dy hun yn bridio'r rhai gora',  
A llu o'i gyfeillion ar stand ac mewn clorian,  
Yn ceisio cael brid yr hwrdd, gafodd gwpan.

DAFYDD CEFN COCH



SANT IOAN

Dyma lun o arweinyddion Dosbarth Oedolion Deiniolen: o'r chwith i'r dde, Mr Len Williams, 16 Pentre Helen, (Darlithydd i'r Cadlanciau); Mr Niel Owen, Stryd Newydd (Arweinydd y Cadlanciau); Mrs J.H. Jones, Maes Gwylfa (Swyddog Nyrsio); Mr J.T. Jones, Pentre Helen (Swyddog Rhanbarth). Tynnwyd y llun ar ddydd Sul y Cadoediad, Tachwedd 8, o flaen y Gofeb. Mae Mr J.T. Jones newydd gael ei urddo yn Wrecsam.

## BETHEL

MERCHED Y WAWR – Nos Fercher, Tachwedd 11 trefnodd cangen Bethel noson o Godi Cwestiwn. Gwahoddwyd Clwb Bro Bethel i ymuno â hwy am y noson.

Y panelwyr oedd, Mrs G.A. Williams, Llanddona; Mr Frank Rhys Jones, Tregarth; Mr Gwilym Owen, Bethel. Llywydd y noson oedd y Parch Ronald W. Roberts, Deiniolen. Enillwyd y raffl gan Mrs Dyfi Jones, Llwyn Eithin. Diolchwyd ar ran Clwb Bro Bethel gan Mr W.H. Jones ac ar ran y Gangen gan Mrs Elizabeth Evans, Blaen Parc. Y mis nesaf bydd y cinio Nadolig yng Ngwesty Glynllifon Marian Glas. Os oes rhywun yn dymuno mynd cysyllter â Mrs J. Foulkes, Mrs Mair Price neu Mrs Gwyneth Jones.

PLAID CYMRU – Nos Wener, Tachwedd 20 cafwyd noson hwyliog iawn yn y Neuadd yng nghwmni Gari Williams a Llesiau'r Gweunydd. Trefnwyd y noson gan y gangen leol o Blaid Cymru. Diolch i bawb am eu cefnogi a diolch i ferched y pwyllgor am drefnu swper i'r perfformwyr.

YR URDD – Nos Fercher, Tachwedd 18 aeth llond bws o aelodau'r Urdd i gefnogi eu tîm mewn cwis ar wybodaeth gyffredinol yn erbyn tîm o gangen y Waunfawr. Aelodau'r tîm oedd Meinir Williams, Angharad Price, Angharad Elis, Aled Jones, Elwyn Parry a Dafydd Llywelyn Jones. Roedd yn chwith gan y plant nad oedd Anty Fanny yn gallu bod yno oherwydd gwaeldd Mr Owen a Vernon. Rwy'n siŵr ein bod yn dymuno adferiad buan a llwyr i'r ddau.

DYMUNIADAU GORAU i Jaqueline Bailey, Anthorne, Sharon Roberts, 19 Eryri a Glyn Williams, 8 Caerhos, Seion fydd yn 18 oed yn ystod mis Rhagfyr. Glyn ar y 3ydd, Sharon ar y 7ed a Jaqueline ar y 19fed.

YR YSGOL – Edrychir ymlaen at wasanaeth Nadolig a drefnir gan yr ysgol yng nghapel Cysegr nos Fercher Rhagfyr 16. Yn ogystal ag eitemau gan blant yr ysgol cymerir rhan gan Gôr Adrodd y Rhos a Chôr Cadnant.



Wythawd Bethel: buddugwyr yn Eisteddfod Llanrug yn ddiweddar.

DIOLCH – Dymuna Eluned a Brian Davies, Garth, 2 Glanllyn ddiolch yn gynnes iawn i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd; am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach Sioned Catrin. Diolch hefyd i blant Ysgol Sul Cysegr am y fased o ffrwythau.

CYDYMDEIMLAD – Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu'r diweddar Mr William Thomas, 9 Cremlyn a fu farw ar Hydref 24.

LLONGYFARCHIADAU i Gwilym, mab hynaf Mr Robert Morgan a'r ddiweddar Mrs E.M. Morgan a briododd â Miss Siân Jones, Rhostryfan ar Dachwedd 7.

CLWB Y RHOS – Cafwyd noson ddifur iawn yng nghwmni Mr T.H. Williams, (Carreg Fawr), Waunfawr yn adrodd rhai o'i gerddi a hanesion difyr. Trefnwyd y noson gan Mr John E. Jones. Croesawyd dau aelod newydd, sef Mr Tom Owen, Berwyn a Mr Robin Jones, Stad Eryri.

YR EISTEDDFOD – Erbyn hyn mae'r cynnyrch llenyddol wedi dod i law ac mae'n braf gweld eto fod cynifer wedi cystadlu.

Cofiwch y beirniadir y gwaith llaw a'r coginio yn y Neuadd, Rhagfyr 3 am 6.00. Dewch â chynnyrch i'r neuadd erbyn 5.45 p.m. Bydd

## ATGOFION

(Cyfres o ysgrifau byrion gan Goronwy O. Jones, Caerffynnon, Penisa'rwaun)

### ADRE'N ÔL

Cefais fy ngeni ar Chwefror 25, 1915 ym Minffordd, ger Bangor. Y cof cyntaf sydd gennyf fel plentyn yw gweld fy nhad yn dod adref o'r rhyfel. Nid oeddwn ond rhyw dair oed ar y pryd. 'Roeddwn yn chwarae allan wrth ochr y ffordd oedd yn rhedeg trwy bentref bach Minffordd. Digwyddais edrych i fyny a gweld milwr yn dod dros ben Allt Bwtsiar Bach (i roi ein henw ni arni). 'Roedd un o'n cymdogion, Mrs Menai Jones yn cerdded efo fo. 'Roedd o yn ei 'khaki' gyda 'bandelier' lledr ar draws ei frest, bag ar ei 'sgwyddau, clos a sbardunau, gan ei fod yn perthyn i'r 'Garrison Artillery'.

Nid wyf yn sicr sut, ond rhywffordd neu'i gilydd, 'roeddwn yn gwybod mai 'nhad

oedd y milwr, er iddo fod i ffwrdd am ddwy neu dair blynedd. Rhedais i'w gwrdd. 'Rwy'n ei gofio fo yn gafael yn fy llaw ac yn fy ngwasgu at ei ochr, a cherdded adref. 'Doeddwn i fawr o beth, ond mae'r daith fer honno yn fyw yn fy nghof.

'Roedd chwaer fy nhad yn byw yn Rhif 12, Minffordd, ac fe stopiodd yno am ryw funud cyn symud yn ei flaen i gyfeiriad Nant Teras, lle'r oeddem ni'n byw yn rhif 20. Aeth i lawr llwybr yr ardd ac i'r tŷ. Mae'n siŵr bod Mam yn ofnadwy o falch o'i weld o, er na fedra'i gofio'n iawn. Y peth sydd yn sefyll yn fy meddwl ydi bod ganddo far o siocled i mi, a hwnnw oedd, reit siŵr, i mi fel plentyn bach, y peth mwyaf, gan fod cael bar o siocled – un mawr, ac nid rhyw far dwy geiniog, a'r cyfan i chi'ch hun yn beth mawr i blentyn bach.

### AR WERTH

Corn Ffrengig (Corn Dwbl) mewn cas mawr.

Ffôn: Penygroes 331 ar ôl 3.30 o'r gloch.

Beic Modur, Honda 90cc – 'S' – mewn cyflwr da; treth; MOT; Rack a bocs. Am fanylion pellach, ffonier Padarn 259 ar ôl 5.30 o'r gloch, neu ar benwythnos.

### CALENDR RYGBI 1982

Am y tro cyntaf bydd Calendr Rygbi Cymraeg ar gael ar gyfer 1982. Mae'r Calendr, sy'n cynnwys cartwnau gwirioneddol ddigri gan Anne Morris, Penmachno, a limrig ar gyfer bob mis, eisoes wedi lledu sawl wyneb drwy Gymru! Yn ogystal ag ysgafnder, mae ynddo hefyd yr holl ddyddiadau tyngedfennol i'r cefnogwr difrifol. Anrheg gwyh i rywun sydd â diddordeb yn y gêm. Fe'i cyhoeddir gan Wasg Carreg Gwalch, Llanrwst ac mae ar werth yn eich siop Gymraeg leol am £1.15.

### POSTERI NADOLIG LLAWEN

Ni ddylai neb bryderu ei fod yn gorfod cyfarch ei gwsmeriaid gydag addurniadau Saesneg y Nadolig hwn. Mae poster lliwgar mawr (30" x 16") yn cario'r geiriau 'NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA' ar gael yn Gymraeg eleni. Fe'i cyhoeddir gan Wasg Carreg Gwalch, Llanrwst ac mae ar werth yn eich siop leol am 75c yr un. Yn ogystal, gellir cael sribed i'w roi ar hyd top ffenestr yn dwyn y geiriau 'CYFARCHION Y TYMOR' am 30c yr un.

## GWYDRO DWBL? ARFON WINDOW FITTERS Ltd.

56a Ffordd Penchwintan, Bangor  
Bangor 52313

Cyngor arbenigol yn rhad ac am ddim  
Gwarant o 5 mlynedd ar yr holl waith

CEFNOGWCH Y CWMNI LLEOL  
SY'N LLOGI LLAFUR LLEOL

Cyfarwyddwr: Ian Harris

CLWB GWYRFAI – Gwnaeth Clwb Gwyrfael elw o £32.10 mewn cyfarfod a drefnwyd yn arbennig i godi arian ar gyfer Canolfan Waunfawr.

Gwahoddwyd Eurig Wyn, Cadeirydd y Ganolfan, i'r cyfarfod i ateb cwestiynau'r aelodau am y cynlluniau, a chafwyd prynhawn difyr.

Mae pwyllgor ariannol y Ganolfan yn ddolchgar eithriadol i Glwb Gwyrfael am yr ymdrech hon, ac yn gobeithio'n fawr y bydd cymdeithasau eraill y pentref yn gwneud cyfraniad blynyddol cyffelyb.

Penderfynodd Clwb Gwyrfael hefyd i wahodd trefnwyr Clwb 300 y Ganolfan i un o'i gyfarfodydd nesaf i dynnu'r tocynnau buddugol, a gofynnir i Dewi Jones, trefnydd y Clwb 300 gysylltu â hwy.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys nos lau, Tachwedd 5 gyda Mrs C.A. Jones yn llywyddu.

Llongyfarchodd Mrs Mary Davies ar enedigaeth wŷr bach a dymunodd adferiad buan i Mrs Lloyd Williams ac i Miss Powell.

Gwnaethpwyd elw o £70 yn y noson goffi yn ddiweddar. Bydd yr elw yn mynd i Gronfa Muscular Dystrophy. Enillodd Mrs Maureen Griffith y raffl, a Mrs Eira Taylor y ddol.

Cafwyd adroddiad o Gyngor yr Hydref a gynhaliwyd ym Mangor gan Mrs C.A. Jones. Ar ôl gwrthwynebiad y Sefydliad i symud y blwch postio, mae'r Postfeistr ym Mangor wedi penderfynu ei adael yn yr unfan yng Nghroesysaun.

Darllenwyd adroddiad y trysorydd gan Mrs Buddug Rowlands ac adroddiad y Pwyllgor gan Mrs Katie Wyn Jones. Rhoddodd y llywydd ei haraith, ac aeth ymlaen i groesawu Mrs Harding Roberts, y trefnydd gwirfoddol a roddodd sgwrs ar waith y Sefydliad.

Diolchodd Mrs Morgan Jones iddi ac i'r pwyllgor am eu gwaith yn ystod y flwyddyn.

Enillodd Mrs Jones Evans y raffl a roddwyd gan Miss M. Roberts a rhoddwyd y blodau i Miss Powell a Miss Williams. Y pwyllgor am y flwyddyn nesaf yw: Mrs C.A. Jones, Llywydd; Mrs Katie Wyn Jones, Ysgrifennydd; Mrs Buddug Rowlands, Trysorydd; Mrs H.M. Evans, Mrs Betty Griffith, Mrs Bet Hughes, Mrs Alice Johnstone, Mrs Gwen Jones, Mrs Peggy Jones a Mrs Missen.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd yr Eglwys nos lau, Rhagfyr 3 pryd fydd Mrs Cemlyn Williams yn rhoi arddangosfa o Addurniadau Nadolig.

CLWB GWYRFAI – Cyfarfu'r clwb yn Neuadd yr Eglwys bawn lau Hydref 29 gyda Mrs Miles yn y gadair, cafwyd cyfarfod cartrefol gydag aelodau o'r clwb yn cymryd rhan, trwy arddangos rhywbeth anghyffredin a dweud ychydig o'i hanes. Cafwyd pnawn difyr iawn.

Ar Dachwedd 5 cafwyd cyfarfod dan lywyddiaeth Mrs Morgan Jones, gofynnwyd i'r aelodau sefyll er cof am Mr William Jones, Gilfach, oedd wedi bod yn aelod ffyddlon o'r clwb, ac yn drysorydd am flynyddoedd. Drwg iawn gennym ei golli. Cafwyd bwrdd moes a phryn a'r elw yn mynd

# WAUNFAWR

tuag at Ganolfan yr ardal. Daeth cadeirydd pwyllgor y Ganolfan, Mr Eurig Wyn, yno i roi sgwrs ac egluro llawer ynglŷn â hi. Diolchwyd iddo gan Miss Katie Roberts, Trefeilian. Bydd y cyfarfod nesaf Tachwedd 19 a'r cinio Nadolig yng Nghwesty Bron Eryri, Llanberis ar Ragfyr 3. Bydd y bws yn cychwyn o'r Post am 12 o'r gloch.

**PLAID CYMRU** – Clwb 100 – (Hydref) 1. Rob Jones, £8; 2. Emllyn Williams, £4; 3. Gwilym Hughes, £2.50.

(Tachwedd) 1. Jenny Jones, £8; 2. Michael Williams, £4; 3. Gwyn Davies, £2.50.


Cynhelir y Ffair Nadolig eleni nos Wener, Rhagfyr 11 yn Neuadd yr Eglwys am 6.30. Bydd y gangen yn cynnal ei pharti Nadolig yn y Foelas Llanrug nos Lun, Rhagfyr 21. Bydd yno ddisgo, bwyd ac adloniant am £2.50. Tocynnau ym Mhenyberth ac yn Y Frenni.

**YR URDD** – Ar y nos Fercher olaf ym mis Hydref, cafwyd noson hwyliog, wedi ei threfnu gan Kevin Jones yr arweinydd, i ddathlu Calan Gaeaf. Yr wythnos wedyn, roedd hi'n noson Guto Ffowc, a thrwy garedigrwydd Mr Williams eto eleni, aeth yr aelodau a'u ffrindiau i gae Bod Hyfryd i weld y tân gwyllt. Kevin Jones a Gareth Jones oedd yn eu tanio, a diolch byth, ni losgwyd neb. Aeth pawb wedyn draw i festri Capel Croesysaun, i gael cawl a chŵn poeth. Nos Fercher 1, cafwyd gemau yn yr Urdd, ac ar ddiwedd y noson fe ddewiswyd tîm i gystadlu yn erbyn tîm o Fethel a fydd yn ymweld â'r gangen nos Fercher Tachwedd 18.

**YR EGLWYS** – Bwriedir cynnal yr 'Ysgol Sul' bob nos Lun o hyn ymlaen o 6 o'r gloch tan 7, yn Neuadd yr Eglwys, dan ofal y Parch Trefor Jones, Ficer. Croesewir unrhyw blentyn o'r pentref.

Cynhelir Ffair y Nadolig, nos Wener, Tachwedd 27, am 6.30 o'r gloch yn Neuadd yr Eglwys. Tâl mynediad fydd 20c i oedolion a 10c i blant, hyn yn cynnwys paned o de.

**PEDAIR CENHEDLAETH** – Mrs G.M. Jones, 3 Rhes Eilian, gyda Karen Hughes, y bedwaredd genhedlaeth o ferched yn ei theulu. Gyda hi mae mam a nain Karen, sef Mrs Susan Hughes a Mrs Grace Dawson.



**LLONGYFARCHIADAU** i Mr a Mrs Gwyn Davies, Bryn Eithin ar fod yn nain a thaid. Ganwyd mab bychan, Daron Gwyn, i Sioned a John.

I Dic a Jean, Llwyn Onn ar enedigaeth mab bychan, lolo, brawd i Llio Mair.

I Huw Owen, 18 Tref Eilian, ar ei ben-blwydd yn 18 oed.

**YN YR YSBYTY** – Dymunwn wellhad buan i Mr Clifford Pierce, Ty'n Twll, sydd yn yr ysbyty ym Mangor, a Mr John Griffith, Darwayne, sydd wedi cael ei symud i ysbyty yn Lerpwl.

**ADREF O'R YSBYTY** – Croeso gartref i Mr Huw Williams, Heli, Mrs Gwenno Lloyd, Tŷ Capel, Croesysaun, Mrs Lloyd Williams, Bryn Meredydd, Mr Iolo Huws Roberts, Bodriad, Iwan Ellis, Glyn Awel a Gwyn Parry, Ffridd Felan. Gobeithio eu bod yn dal i wella.

**CYDYMDEIMLWN** â theulu'r diweddar Mr William Jones, Gilfach.

**YR YSGOL** – Mae plant yr ysgol yn brysur paratoi ar gyfer Gwasanaeth Carolau a gynhelir yn Eglwys Sant Ioan, nos Fercher, Rhagfyr 16, 7.15 p.m. Y mae croeso cynnes i bawb.

**CRONFA'R GANOLFAN** – Enillwyd y Clwb 300 am fis Hydref oedd: 1 – £40, Rhif 275, Emllyn Griffith, Gorffwysfa; 2 – £25, (193), R.G. Owen, 4 Dolerddi; 3 – £10, (122), R.H. Jones, Tanybryn.

Bydd gwobrau mis Tachwedd yn cael eu tynnu yn yr Aelwyd nos Fawrth Tachwedd 24.

Enillydd y Raffl Diesel oedd Mr E.W. Thomas, Buses y Seren Arian, gyda '94' o alwyni. Roedd 15 o enwau wedi cael yr atebiad cywir a bu raid codi o het.



**EISTEDDFOD ARDAL WAUNFAWR** – Cynhaliwyd yr eisteddfod ddydd Sadwrn, Tachwedd 14 yng Nghapel Croesysaun. Dyma'r canlyniadau:

**Canu dan 5:** 1. Anwen; 2. Ceirion; 3. Delyth. **5-7:** 1. Eilir; 2. Alaw; 3. Elin a Meilir. **7-9:** 1. Telor; 2. Nia; 3. Gwennan. **Adrodd dan 5:** 1. Delyth; 2. Annwen; 3. Jennifer a Ceirion. **5-7:** 1. Elin; 2. Rhodri; 3. Meilir. **7-9:** 1. Rhys; 2. Nia; 3. Gwennan a Bethan. **Can Actol dan 9:** 1. Parti'r Gwrachod; 2. Indiald Cochion; 3. Seiri Bach; 4. Parti'r Ysgol Feithrin. **Dan 12:** 1. Bwgan Brain. **Parti Unsain dan 9:** 1. Parti Meilir; 2. Parti Alaw. **Gwaith Llaw dan 9:** 1. Telor; 2. Diane; 3. Sam a David. **Arlunio dan 7:** 1. Gerallt; 2. Rhodri; 3. Susan a Heidi. **Dan 9:** 1. Gareth; 2. Gareth; 3. David. **Dan 11:** 1. Gwyndaf; 2. Helen; 3. Karen, Sandra, Sian. **Dan 15:** 1. Kevin. **Gwaith Llaw dan 11:** 1. Aeron; 2. Nan; 3. Gwyn. **Dan 13:** Osian. **Dan 15:** 1. Nicola. **Liên dan 9:** 1. Telor; 2. Gareth; 3. Gareth a Gwyndaf. **Dan 11:** 1. Helen; 2. Karen, Sian a Gwyn. **Dan 13:** Llion. **Canu 9-11:** 1. Karen; 2. Nan; 3. Sian. **11-13:** 1. Llion; 2. Huw. **Parti Recorders dan 9:** 1. Parti Bach. **Dan 12:** 1. Parti Nan. **Adrodd 9-11:** 1. Nan; 2. Garem; 3. Wayne a Sian. **11-13:** 1. Penny; 2. Adrian; 3. Llion. **Canu Piano dan 9:** 1. Nia ac Osian. **Dan 12:** 1. Joanna; 2. Eilir; 3. Karen. **Dan 15:** 1. Joanne; 2. Penny a Huw. **Côr Adrodd dan 9:** 1. Parti Rhodri; 2. Parti Bodhyfyd. **Dan 12:** 1. Parti Karen. **Parti Unsain dan 12:** 1. Parti Joanna; 2. Parti Wayne. **Unawd Cerdd Dant dan 14:** 1. Eilir. **Deuawd dan 15:** 1. Sian a Karen; 2. Joanna a Penny. **Offeryn Chwyth dan 18:** 1. Anthony; 2. Kevin; 3. Joanne. **Darllen o lyfr dan 18:** 1. Llion; 2. Huw. **Dros 18:** 1. Irene; 2. Carys; 3. Margaret. **Deuawd Piano dan 18:** 1.

Joanna a Penny; 2. Sian a Karen. **Dros 25:** Dr a Mrs Wood. **Darn heb ei atalnodi dros 25:** 1. Margaret; 2. Grace a Gareth. **Adrodd i'r dysgwyr dros 25:** 1. Jeanette; 2. Dr. Wood. **Adrodd dros 25:** 1. Irene; 2. Myra; 3. Grace; 4. Rhian. **Côr Adrodd dros 25:** 1. Parti'r Wylan; 2. Parti'r Nant. **Sgetch:** 1. Cwmni'r Weiren Gaws. **Emyn dros 50:** 1. Alun; 2. Gwyn; 3. Wmffra. **Can Werin dros 25:** 1. Eurig; 2. Alun; 3. Jeanette. **Can Ddisgrifiadol:** 1. Margaret. **Grŵp Pop:** 1. Y Saith Gradd; 2. Perlau Gwyrfael. **Deuawd agored:** 1. Alun ac Wmffra; 2. Ann a Jeanette. **Unawd agored:** 1. Alun; 2. Jeanette; 3. Wmffra. **Parti pedwar:** 1. Parti'r Nant; 2. Parti'r funud ola; 3. Parti'r Frenni. **Parti wyth:** 1. Parti'r Nant; 2. Parti Eilian a Pharti Glyn Awel. **Erthygl i'r dysgwyr:** 1. Dr Wood; 2. Margaret Eaglestone. **Stori Fer:** 1. Mrs Sylvia Prys Jones. **Llythyr:** 1. Mrs Margaret Owen. **Drama:** 1. Gillian Wyn ac Eurig Wyn. **Barddoniaeth dan 15:** 1. Gethin. **Agored:** Mrs Gweneirus Jones. **Llinell Goll:** Mrs Annie Roberts. **Coginio dan 15:** 1. Iona; 2. Karen. **Agored:** Mrs Alma Jones; 2. Mrs Eluned Roberts. **Gwin Cartref:** 1. Dr Wood; 2. Mr Bob Eaglestone. **Arlunio agored:** 1. Mrs Maureen Griffiths; 2. Mrs Joyce Benham. **Gwnio agored:** 1. Mrs Jenny Roberts; 2. Nicola Roberts. **Crosio agored:** 1. Mrs Katie Jones; 2. Gwyneth Ellis; 3. Mrs Katie Jones. **Gwau agored:** 1. Mrs Katie Jones; 2. Mrs Rhian Ellis; 3. Mrs Beryl Jones. **Gwaith Coed agored:** 1. Mr Don Roberts. **Côr:** 1. Côr Wyn; 2. Côr Ni.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr i'r beirniaid am eu gwaith rhagorol. **Cerdd:** Mr Alwyn Samuel; **Adrodd:** Mr Morien Phillips; **Liên:** Dr John Gwilym Jones; **Gwyddor Tŷ:** Mrs Cerid McKinnon; **Arlunio:** Mr William Selwyn Jones; **Llinell Goll:** Mr T.H. Williams. Diolch hefyd i Mrs Eryl Vaughan Davies a Mr William John Humphreys am lywyddu ac i Mrs Ann Marston a Mr Brian Williams am gyfeilio; Mrs Irene Roberts a Miss Marilyn Roberts, Mr Gwyn Davies a Mr Norman Williams am arwain y cyfarfodydd; ac i bawb am yr holl waith a wnaethpwyd tuag at wneud yr eisteddfod yma yn llwyddiannus.

**O'R YSBYTY** – Croeso adref o'r ysbyty i Mr Williams Griffith, Tref Eilian.

## NANT PERIS

**LLONGYFARCHIADAU** i Mr a Mrs Owen W. Williams o Gaernarfon, ar enedigaeth ail ferch, wyres arall i Mr N. Williams, 1 Tanybryn. Hefyd i Mr a Mrs Gwyn Thomas o Nottingham ar enedigaeth merch, wyres gyntaf i Mrs Myfanwy Thomas, Bron Wyddfa.

Dymuniadau da i'r ddau deulu. Wrth longyfarch dwy nain rhaid hefyd llongyfarch Mrs Elizabeth Roberts, 2 Tanybryn ar fod yn hen nain.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs N. Griffith, Awelon ar fod yn hen nain.

**YN YR YSBYTY** – Drwg gennym ddeall bod Morris W. Williams, Terfyn, wedi ei gipio i'r ysbyty ddydd Sadwrn. Dymunir gwellhad buan iddo.

**CROESO GARTREF** – I Mrs Teresa Jones, 10 Glanrafon, ar ôl bod am driniaeth yn Ysbyty Dewi Sant. Edrychwn ymlaen i groesawu Mr T.J. Roberts, Llys Awel ar ôl ei arhosiad mewn cartref ym Mangor. Adferiad buan i'w cynefin iechyd yw ein dymuniad i bawb arall o'r pentref sydd yn cwyno ac wedi cael anhap yn eu cartref.

**Bydd Pwyllgor Rheoli Canolfan Deiniolen yn cynnal eu Cyfarfod Blynyddol nos Lun, Rhagfyr 7, 1981 am 7.30 o'r gloch. Erfyniwn am gefnogaeth deilwng o'r pentrefwyr.**

## HWYL CYN YR WYL

Dyma deitl noson caws a gwin ac adloniant a gynhelir nos lau, Rhagfyr 17 yng Ngholeg Glynllifon. Pris tocyn yw £1.50 – ar werth gan unigolion ac yn y siopau. Bydd yr elw yn mynd i gynnal y gwaith a wneir i sefydlu Canolfan Iaith yn Nantgwrtheyrn.

Ymhlith yr artistiaid bydd Elinor Bennett a Dafydd Iwan.

CARPEDI

**ALUN GLYNJONES**  
(Wetton a Thomas)

14, Ffordd Garth, BANGOR Ffôn 53705  
(gyferbyn â'r orsaf fysiau)

Gostyngiad sylweddol am arian parod  
Gosodir pob carped am ddim

Dibynnwch ar ansawdd lle bo ansawdd yn cyfrif



LLENNI



# LLEWYRCH I'N LLWYBRAU

(Diolch yn fawr iawn i Mr T. Vaughan Jones, 11 Stryd yr Eglwys, Caernarfon, am erthygl hynod o ddiddorol. Brodor o Gwm-y-Glo yw Mr Vaughan Jones)

Yn 1881 daeth Trydan i Dref fechan Godalming yn Surrey De Lloegr. Mae hyn wedi chwyldroi ffordd o fyw am byth yn y wlad yma, a hyd yn oed yn y byd.

Yn hwyr un prynhawn tua diwedd mis Medi yn 1881, daeth ychydig o swyddogion lleol a chymdogion y dref ynghyd yn y cyfnos a chyfarfod tu allan i Neuadd y Dref Godalming. Yn sydyn heb arwydd 'roedd calon y dref fechan wedi ei gorlifo â golau trydan am y tro cyntaf erioed. Golau o fath 'newydd' ydoedd. 'Roeddynt wedi addasu hen lampau nwy 24 troedfedd o uchel, ar gyfer y golau trydan newydd. Yn y cyfnos yma yr oedd Gorsaf Drydan gyntaf y byd wedi dod i rym.

Rhyw gant o lathenni i ffwrdd wrth ochr yr Afon 'dey' yr oedd pump o ddynion yn gweithio'r 'hydro Generator' o olwyn ddŵr 13 troedfedd a 6 modfedd yn y 'Pullman's leather-mill'. Yr oedd y 'cables' yn myned ar hyd gwterydd y strydoedd i'r lampau a oedd wedi cael eu haddasu, tair ohonynt.

Dydd Gwener, Medi 30, 1881, fe wnaeth y Cyngor Tref gytundeb gyda chwmni o'r enw 'Calder a Barrett', i oleuo'r strydoedd am flwyddyn am y gost o £195, ac fe wnaeth y swyddogion o'r Cyngor gofnodiad fod y trydan yn rhatach na'r nwy o £15. Ar wahân i roddi cyflenwad o drydan i'r dair lamp, sef un wrth yr Eglwys, un wrth gartref y Maer, ac un wrth swyddfa Clerc y Dref, yr oedd y Cwmni yma am werthu'r trydan i'r cyhoedd, felly y Cwmni 'calder a Barrett' oedd yr anturiaeth gyntaf yn y byd i wneud hyn.

Ganrifoedd cyn i Nwy oleuo'r Oes Fictoraidd ym Mhrydain, yr oedd y strydoedd wedi cael eu goleuo â lampau olew, ac yn cael eu cynnau gan ddynion gyda 'ffaglau' â fflam arnynt, ond nid oedd y cyhoedd yn fodlon ar y golau. 'Roedd yn berygl yn y nos i fynd allan, gan nad oedd y golau yn foddhaol.

Daeth trobwynt yn wir ar ddiwedd y flwyddyn 1870. Yn y flwyddyn 1878 fe ddefnyddiwyd 'Gramme dynamo' i roddi pŵer goleuadau 'caron arc' ar 'Victoria Embankment', yn Llundain. Y flwyddyn ddilynol lampau tebyg roddodd dechrau ar y goleuadau yn Blackpool, gyda'r Promenâd wedi ei oleuo am y tro cyntaf. Fe gafodd tref Norwich ei goleuo gan ddeunaw o lampau 'arc'. Yr oedd y lampau hyn yn goleuo canol y dref, ac erbyn Ionawr 1881 fe gafodd Cyngor y Dref hanner cant ychwaneg o lampau i oleuo y dref.

Dyma'r golau a oleuodd strydoedd cerrig (cobblestones) y

dref Godalming, arwydd sicr geni Trydan fel diwydiant oedd i fod yn hollbwysig. Fel ym mhob plentyndod, yr oedd anawsterau ar y cychwyn. Aeth yr afon dros ei glannau un tro, a bu rhai i'r cwmni fynd drosodd i bŵer stem, ac oherwydd hyn yr oedd yn rhai codi pris y trydan.

Ym mis Mawrth yn y flwyddyn 1884 cymrodd Cwmni arall y cytundeb drosodd, sef Cwmni o'r enw 'Siemens' a gofynnodd y Cwmni newydd yma am gyfrannwyr preifat i'r gwasanaeth, ond ni chafodd y Cwmni ddigon o gyfrannwyr. ym mis Mai 1884, fe wnaeth y gwasanaeth ddarfod a bu 17 o flynyddoedd cyn y dychwelodd trydan yn ôl i dref Godalming.

Er hyn fe welodd tref dawel Godalming wawrio chwyldroad trydanol distaw, anweledig, disymwth, a glân gydag ystwythder diderfyn, wrth roddi y swits ymlaen. Mae trydan yn gwresogi, goleuo, coginio, glanhau a hefyd gyrru, ac yn yr oes electronig y mae trydan yn medru meddwl trwy'r cyfrifiadur.

Ganmllynedd ar ôl y darganfyddiad yma mae pob stryd ymhob tref a dinas yn cael ei goleuo gan drydan. Mae'r siopau a'r parciau ceir hefyd yn cael eu goleuo. Gwelir y goleuadau fel rhubanau ar hyd y prif-ffyrdd, a gwelir arwyddion y ffyrdd yn glir yn y nos. Gellir yn awr ddefnyddio'r cae pêl-droed, y cae criced ac yn y blaen yn y nos oherwydd fod trydan yn eu goleuo. Mae'r cyhoedd yn troedio'r trefi a'r dinasoedd yn y nos fel y maent yn y dydd i Theatrau, ac yn y blaen, gan deimlo'n ddiogel.

Mae ein cartrefi yn llachar a braf. Cemegwr o'r enw Joseph Swan a ddarganfyddodd Bulb mewn gwagle, a chafodd y Cemegwr yma ei urddo ymhellach ymlaen. Fe oleuodd Joseph Swan ei dŷ yn y flwyddyn 1879 gyda'r math yma o 'Vacuum Bulb'. - y tŷ cyntaf yn y byd. Yn 'Gateshead' oedd ei gartref. Cafodd wared â'r hen arogl afiach yn ei gartref, gan fod yr hen ddull o oleuo gyda lampau nwy ac olew yn creu arogl yn y cartrefi.

Yn awr mae pawb ohonom yn dibynnu ar y bylbiau a ddarganfyddodd Joseph Evan, golau ar ganol yr ystafell, golau ar y pared, ac mae modd addurno ein tai mewn llawer ffordd artistiaidd. Mae'r gegin a'r ystafelloedd ymolchi a llawer ystafell arall yn cael eu goleuo â golau gwyn clir sydd yr un fath â

golau naturiol y dydd. Mae Llifleuadau o bob math yn cael eu defnyddio mewn theatrau ac yn y blaen. Anodd yw sôn am bob dim, ond mae'r teledu yn dangos i ni y gwerth mewn trydan. Mae'r ffermwyr hefyd yn ddiolchgar am drydan. Ceir hefyd geir arbennig i gario nwyddau yn cael eu gyrru gan drydan. Mae diwydiant yn defnyddio trydan i lwytho ac i ddadlwytho. Mae dyn mor fedrus yn ei ddefnydd ohono heddiw. Mae'r tren o orsaf Crewe i Lundain yn drydan.

Yr orsaf drydan gyntaf yn defnyddio stem i werthu'r trydan i'r cyhoedd oedd yr Holburn Viaduct yn Llundain yn Ionawr 12, 1882. Mis yn ddiweddarach yn Brighton cafodd y popty trydan cyntaf ei wneud gan Crompton a'i gwmni. Yn Chelmsford, hefyd y cafodd y badell ffrio ar peiriant gwneud tōst eu gwneud. Yn y flwyddyn 1904 y daeth y peiriant llau carped cyntaf ym Mhrydain. Pan ddaeth y Gwresogydd Trydan cyntaf yr oedd rhybudd arno sef, 'Mae'r tân yma yn cael ei dwymo â thrydan, felly peidiwch a defnyddio procer gydag ef'.

Yn y flwyddyn 1947 y daeth cyflenwad o 240 volt. Mae chwyldroad ymhob man i'w weled bellach, yn y siop, y swyddfa, y fferm, diwydiant o bob math, yr ysgolion, ysbytai, colegau a'r cartrefi.

Beth am y dyfodol? Heddiw mae 176,000 o weithwyr yn y diwydiant yma. Mae 213 o Orsafoedd Cynhyrchu Stem, Olew, Ynni Niwcliar neu ddŵr. Mae hefyd un ffordd arall o gynhyrchu yn ein cymodgaeth ni yma. Mae Elidir Fawr yn storio trydan. Bydd Pwerdy Dinorwig yn dod i rym yn y dyfodol agos, y trydydd o'r fath yn y wlad yma. Hydro Pumped Storage y gelwir y dull yma o gynhyrchu trydan. Mae un yn Nhan y Grisiau yn Ffestiniog ac un yn yr Alban ger Loch Awe.

Mae Gorsaf Dinorwig yn y mynydd, yn orsaf bwysig iawn yn ôl y Cyngor Trydan. Mewn deng eiliad mae chwe Turbine yn cynhyrchu 1,320 megawats i'r grid. Yn y nos pan mae'r galwad am drydan yn ysgafn fe fyddant yn pwmpio'r dŵr i fyny i'r Marchlyn Mawr yn barod i gyflawni ei ddyletswydd. Dyma ddechrau canrif eto.



Tref Godalming yn y flwyddyn 1881.

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL  
ABERTAWE A'R CYLCH  
Gorffennaf 31 - 7 Awst 1982**



**YR ANRHEG  
DELFRYDOL:**

**Tocyn Wythnos**

**Eisteddfod a Chyngerdd/Drama**

Dosbarth 1 — £33      Dosbarth 2 — £27

**Eisteddfod yn unig**

Dosbarth 1 — £18      Dosbarth 2 — £15

**Cyngerdd/Drama yn unig**

Dosbarth 1 — £15      Dosbarth 2 — £12

Manylion pellach am bris y tocynnau dyddiol,  
y Rhestr Testunau, Trefniadau Llety,  
Ffurflenni Stiwardio ac yn y blaen

Swyddfa'r Eisteddfod, Stryd Singleton,  
ABERTAWE (0792) 467303

# O6I90 – O CHWECH I NAW DEG!

Sylwch fod y teitl yn aros yr un fath hyd yn oed ar ei ben i lawr!

## STORI I BLANT

TUDALEN I'R  
PLANT: HEN AC  
IFANC  
Gan  
DYFRIN  
Y DEWIN



'EVENTYR – FORTALTE FOR BØRN'

DYNA enw cyfrol gyntaf Hans Christian Anderson o'i straeon enwog i blant. Mae pawb wedi clywed rhai o'r straeon hyn, a bydd llawer ohonynt yn cael eu hailadrodd yn ystod tymor y Nadolig; Straeon fel 'Y dyn Eira', 'Yr Esgidiau Coch', 'Yr Hwyaden Hyl', 'Brenhines yr Eira', 'Y Forforwyn Fechan', Thumbelina' a 'Dillad Newydd yr Ymerawdr'. Mae llawer iawn o bobl yn credu iddo ddechrau ei straeon a'r frawddeg "Amser maith yn ôl . . ." ond Jacob a Wilhelm Grimm oedd yn cychwyn eu straeon felly, oherwydd mai cofnodi straeon oddi ar lafar a wnaethant hwy, ond creu straeon o'r newydd a wnaeth Hans Christian Anderson.

Fe'i ganed mewn ardal dlawd o dref Odense ar ynys Funen yng ngwlad Denmarc yn 1805. Roedd enw'r dref yn coffáu Odin, un o dduwiau Sgandinafia a phan oedd Anderson yn fachgen, 'roedd pobl y dref yn taenu gwair ar fryn gerllaw er mwyn i geffyl wythgoes Odin gael bwyd. Yng nghanol coelion a chredoau o'r fath y treuliodd ei blentyndod. Crydd oedd ei dad a byddai'n darllen straeon fel *The Arabian Nights* iddo, ond yr oedd ei fam yn hollol anlythrennog, ac yn ofergoelus iawn. Unwaith pan oedd ei dad yn wael iawn anfonwyd ef gan ei fam at wrach i ofyn iddi a oedd y tad ar farw! Roedd ei daid hefyd yn ddyn od, a chredai llawer ei fod allan o'i gôf. Byddai'n crwydro strydoedd Odense yn siarad ag ef ei hun ac yn chwifio'i freichiau o gwmpas. Roedd ei nain yn gweithio mewn seilam, a threuliodd Andersen lawer o'i amser yno. Nid oedd yn hoff iawn o gwmni plant eraill, a byddai'n chwarae am amser maith gyda theatr bypedau a wnaeth ei dad iddo. Penderfynodd yn gynnar mai actor oedd am fod, ac oherwydd i'w fam ddweud wrtho fod gwlad China yn union tan afon Odense, treuliai lawer o'i amser yn adrodd a chanu ar lan yr afon gan obeithio y byddai un o dywysogion China yn ei glywed!

Yn 14 oed, penderfynodd adael cartref a mynd i Copenhagen i wneud ei ffortiwn. Unwaith eto, anfonodd ei fam at y wrach i ofyn ei barn, ac meddai honno: "Bydd Hans yn aderyn gwyllt fydd yn hedfan yn uchel a'r byd i gyd yn ei edmygu. Daw'n ôl i Odense rhyw ddydd yn enwog."

Pan gyrhaeddodd ddinas Copenhagen yn 1819 roedd y ddinas y pryd hwnnw fel pe bai allan o un o'i straeon diweddarach ef ei hun. Roedd wal anferth o gwmpas y ddinas ac yr oedd y pyrth yn cael eu cloi bob nos a'r allweddi yn cael eu trosglwyddo i'r brenin. Yn ôl traddodiad roedd y brenin yn eu gosod o dan ei obennydd. Cafodd Hans Andersen waith yn y Theatr Frenhinol yn dawnsio mewn ballet, ond buan y daeth hynny i ben oherwydd ei symudiad afrosgo. Yn 17 oed cafodd ei dderbyn i ysgol ramadeg a bu'n yr ysgol am chwe mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, enillodd wobrau am sgwennu straeon a chyfansoddi barddoniaeth.

Wedi gadael yr ysgol bu'n sgwennu llawer, ond ychydig iawn o arian a enillodd. Yn 1835

cyhoeddodd gyfrol fechan o'r enw 'Eventyr – fortalte for Børn' – anturiaethau dychmygol i blant. Bu'n llwyddiannus iawn, ac o hynny ymlaen hyd ei farwolaeth ymddangosodd cyfrolau o'r straeon hyn bob blwyddyn bron – dros 160 o wahanol straeon.

Yn 1867 fe'i hanrhyddedwyd ef gan Odense, yn union yn ôl darogan y wrach. Cyn marw yn 1875 meddai: "Biti na fyddwn i'n ugain oed ac yn mentro allan i'r byd mawr efo dau grys, pâr o sana, pin sgwennu a phot o inc." Diolch iddo gael cyfle i ddefnyddio rhywfaint ar y pot inc hwnnw i roi rhai o'i straeon i'r byd mawr hwnnw.

## ARFERION TYMOR Y NADOLIG

Y NADOLIG

O'r Almaen y daeth y syniad o gael coeden Nadolig. Yn gynnar yn yr wythfed ganrif aeth sant o Brydain drosodd i'r Almaen. Ei enw oedd Sant Boniface.

Gwyddai Sant Boniface nad oedd y bobl yn yr Almaen yn addoli Duw. Gwyddai eu bod yn addoli pob math o dduwiau.

Ar ôl cyrraedd yr Almaen gwelodd Sant Boniface griw o bobl yn addoli un o'r duwiau hyn. Reodden nhw'n sefyll o dan goeden dderwen fawr. Roedden nhw ar fin addoli bachgen bach.

Rhedodd y sant nerth ei draed a chipio'r bachgen oddi arny'n nhw. Yna cymerodd fwyell a thorri'r dderwen i lawr. Pan edrychodd ymysg y gwreiddiau gwelodd goeden fechan fythwyrd yn tyfu yno.

"Hon," meddai'r sant, "fydd eich coeden newydd chi. Coeden i gofio am y 'gwir Dduw'."

Ac felly y daeth y goeden fythwyrd yn goeden Nadolig. Daeth yn goeden gŵyl geni Mab Duw i'r byd.

Y CANHWYLLAU

Tua phum can mlynedd yn ôl yr oedd gŵr enwog yn byw yn yr Almaen. Ei enw oedd Martin Luther. Ef oedd y cyntaf i roi canhwylau ar goeden Nadolig. Fe wnaeth hyn i atgoffa pobl am y sêr oedd yn yr awyr uwchben Bethlehem y noson y ganwyd Crist.

## GŴYL SANT STEFFAN

Yn union ar ôl dydd Nadolig daw dydd Gŵyl Sant Steffan. Ef oedd y cyntaf i farw dros Iesu Grist. Ef oedd y merthyr cyntaf.

Ar y dydd hwn y byddai'r tlodion yn cael arian gan yr eglwys. Roedd blychau neu focus casglu arian ym mhob eglwys. Ar ddydd Gŵyl Sant Steffan fe fyddai'r bocsus yn cael eu hagog. Yna byddai'r offeiriad yn rhannu'r arian rhwng y tlodion. O'r arfer hwn o agor y bocsus a rhannu'r arian y daeth y gair Saesneg ar y diwrnod hwn – "Boxing Day".

## DYDD CALAN

Dydd Calan ydi'r dydd cyntaf o Ionawr. Dyma'r diwrnod cyntaf o fis cyntaf y flwyddyn. Gair rhyfedd ydi Calan.

Fe ddaeth i'n hiaith ni amser maith yn ôl. Mae'n bosib iddo ddod i'r iaith pan oedd y Rhufeiniaid yn byw yng Nghymru. Lladin oedd eu hiaith

nhw. Y gair Lladin am y diwrnod cyntaf o bob mis ydi KALENDS. Y gair hwn a roddodd i ni'r gair 'calan' yn Gymraeg.

Fyddwn ni ddim yn defnyddio'r gair hwn am bob mis o'r flwyddyn ond fe fyddwn ni'n sôn am y dydd cyntaf o Ionawr fel dydd cyntaf Calan. Weithiau fe glywch sôn am Galan Mai a Chalangaef. Bu Dewi Sant farw ar ddydd Calan Mawrth. Dydi hi ddim yn anodd gwybod pa ddyddiau ydi'r rhain. Yr un gair Lladin sydd wedi rhoi'r 'calender' i ni. A'r gair 'Calennig' hefyd.

Fuoch chi yn hel calennig rywdro? Roedd yn arferiad cyffredin iawn gan blant ar un adeg. Fe fydden nhw'r mynd o gwmpas i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i'w cymdogion. Fe fydden nhw'n gwneud hyn rhwng hanner nos a hanner dydd ar ddydd Calan. Fe fydden nhw'r derbyn ceiniog am wneud hyn. Mewn ambell i le fe fydden nhw'n cael afal neu oren yn lle arian.

## BETWS GARMON

PRAWF GYRRU – Llongyfarchiadau i lolo Jones, Bryn Tegid ar lwyddo yn ei brawf gyrru.

NOSON TÂN GWYLLT – Cafwyd noson hwyliog pan ddaeth y pentrefwyr ynghyd am gawl a chŵn poeth.

Adlais o laweroedd o nosweithiau cymdeithasol a gynhelid yn aml yn y pentref yn y dyddiau a fu yw thema'r penillion yma a ddaeth i'r fei yn ddiweddar. Os wŷr rhywun pwy a'u hysgrifennodd, buasem yn falch pe baech yn gadael i'r 'Eco' wybod.

### ALAW 'DOWCH I'R AMERICA'

Mae'n drannoeth y Nadolig  
A ninnau yn gytŵn,  
Yn dyrfa ddigon parchus  
Ac effro iawn bob un;  
Yn awr yn Ysgol Salem  
Mewn Sosial gwerth ei chael  
'Rydd hogia' Nant y Betws  
Ar fyrddau ddim byd gwael.

Ac wele ninnau'r merched  
Yn diolch i chwi'n awr  
Am drefnu mor rhagorol  
I ni y swper mawr;  
Mor braf yw ymneilltuo  
Ac edrych arnoch chwi  
Yn rhedeg ac yn rasio  
I dendio arnom ni.

Rhai da yw hogia'r Tyddyn  
Rhaid dweud, am dolti'r te,

Peth iawn i olchi'r galon  
Yw paned ddigon cre';  
Ond wir ar ôl y pwddin  
A stwffin yr hen wydd;  
A gawsom ddoe i ginio  
'Dyw'r cyllle ddim rhy rwydd.

A 'waiter' ddigon medrus  
Yw John Bach Cerrig Rhyd,  
O hyn ymlaen mae'n berig  
Mai 'cook' fydd John o hyd;  
Mae wedi'i gwneud hi rŵan,  
Wel gwarchod, fe fydd ffŷs  
'John Bach' yn plicio' tatws  
A Neli'n dreifio'r 'bus'.

Ond bit, bit garw  
Fod pobl tref a llan,  
Yn dweud wrth bawb fod tafarn  
Yn Salem o bob man;  
Ond hiti'wch, hiti'wch befo  
Dewch, chwardd'wch, dewch da chwi  
Ni thry neb adre'n feddw  
O'n tafarn datws ni.

Bydd sôn am sosial Salem,  
Wel wir, yr oedd hi'n wych,  
Peth od na fydd yr hanes  
I'w weled yn y 'Drych';  
A phapur yr Americ  
Yw hwnnw cofi'wch chwi,  
Cawn ninnau ar ôl heno  
Ein gwadd i'r B.B.C.

GWAELEDD – Dymunir adferiad llwyr a buan i Mr Rhys Williams, Y Llythrydy.

## BRYNREFAIL

CLWB MAMAU – Yng nghyfarfod mis Tachwedd daeth nifer o aelodau ynghyd i wrando ar Mr Feude, cynrychiolydd Gwynedd y Mudiad Diarfogi Niwclear. Rhoddwyd anrheg y mis gan Margaret Wardle, enillwyd yr anrheg gan Helen Jones. Rhoddwyd y te gan Audrey Roberts a Shirley Roberts.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yn Nhŷ Glas ar Dachwedd 19, cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol pan benodwyd y swyddogion am y tymor i ddod, – Llywydd, Jennie Hughes; Trysorydd, Rhian Jones; Ysgrifennydd, Carol Houston.

CLWB PEDWARUGAIN – Enillwyd mis Hydref oedd :-  
Hydref 2 – 1. Gwilym Jones, 2. Pat Jones, 3. Pat Mowll.  
Hydref 9 – 1. Betty Owen, 2. Jill Siop Ganol, 3. Jackie Jones.  
Hydref 16 – 1. Mrs Mowll, 2. Audrey Roberts, 3. Wilbert Williams.  
Hydref 23 – 1. Carl Hasson, 2. Gwyn Mowll, 3. Norma Green.  
Hydref 30 – 1. Helen Jones 2. Peter Casey, 3. Jenny Hughes.

Dalier sylw y bydd y wledd Nadolig i'w chynnal yn Neuadd Henllys ar

Ragfyr 19 yng nghwmni grwp yr 'Outlaws'. Gellir archebu tocynnau oddi wrth casglwyr y clwb, gyda blaen-dal o £2.

## ANRHEG NADOLIG!



96 tud. £1.95

Allan ddiwedd Tachwedd  
Cyhoeddiadau Mei,  
40 Stryd y Wyddfa, Penygroes  
Caernarfon, Gwynedd.

# PENISARWAUN

EGLWYS ST HELEN - Cafwyd cyfarfod diwethaf y tymor o Undeb y Mamau, nos Lun, Tachwedd 2, a chafwyd gêm o Dri Gair Bach. Mrs B. Mowll a ofalodd am y gwasanaeth, a rhoddwyd y te gan Mrs J.M. Jones.

YR YSGOL SUL - Da iawn yw cael Heather a Karen Jones i ymgymryd â'r gwaith o ofalu am un o'r dosbarthiadau yn yr Ysgol Sul. Balch ydym o weld y genethod yn ysgwyddo peth o faich yr achos.

CYDYMDEIMLWN - Fel pentref â Mrs Eirlys Williams, a'r plant, 23 Bryntirion yn eu profedigaeth sydyn o golli gŵr a thad annwyl. 'Roedd y diweddar Mr John Williams yn fab-yng-nghyfraith i Mrs Rose Jones.

DAMWAIN - Cafodd Mrs B.E. Hughes, 1 Bryn Hyfryd ddamwain a thorodd ei harddwrn. Gobeithiwn ei gweld yn ôl yn yr ysgol cyn bo hir. Bu Mrs Gayther, Coed Parc, Y Waun, mewn damwain car. Da clywed ei bod yn gwella.

DYMUNWN WELLHAD - I Mr T.E. Davies, 1 Tai Newyddion, sydd wedi cael triniaeth lawfeddygol yn yr ysbyty yn Winston. Mae Mrs K. Jones, 9 Bryntirion wedi mynd i'r ysbyty hefyd, ac mae Miss A. Williams, 1 Madog Terrace, wedi mynd i gartref yr henoed, Maesincla.

LLONGYFARCHWN - Miss Miriam Thomas, Bwthyn, Tŷ-Radd, yn 93 oed.

CLWB YR HEULWEN - Bu cyfarfod o Glwb yr Heulwen ddydd Mawrth, Tachwedd 17. Y gŵr gwadd oedd Mr Robin Jones, Cyngor Gwlad Gwynedd. Rhoddodd sgwrs amserol iawn i'r henoed ar sut i fod yn ofalus rhag llosgi. Rhoddwyd y te gan Mrs M.J. Evans, Bod Idris, a Mrs E. Porter. Enillwyd y raffl gan Mrs M. Davies. Diolchodd Mrs Nesta Jones i bawb. Hwn oedd y cyfarfod diwethaf o'r flwyddyn. Bydd y clwb yn agor eto ar Fawrth 16, 1982.

DIOLCH - Mae Mrs B.E. Hughes, 1 Tai Brynhyfryd, yn diolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati ar ôl ei damwain.

DIOLCH - Dymuna Mrs Eirlys Williams a'r plant, 23 Bryntirion, ddiolch yn ddifant i bawb am bob caredigrwydd a ddangoswyd iddi ac i bawb a anfonodd flodau a chardiau, ar yr amgylchiad trist ac annisgwyl hwn.

BEDYDD - Yng nghapel Bozra ar ddydd Sul, Hydref 12, bedyddiwyd Siôn Wyn, mab bach Mr a Mrs Michael Jones, Perthi, gan y Parch Eryl Blainey.

CYFLWYNO TESTAMENT - Ar Dachwedd 1, cyflwynodd y Parch Eryl Blainey Testament Newydd i Hughie Jones, Heather Bank, ar gael ei dderbyn yn gyflawn aelod.

AR Y TELEDU - Gwelwyd llun o

Jonathan a Kenneth Richardson ar yr Awr Fawr ar deledu BBC Y Sul o'r blaen.

YSGOL TAN Y COED - Noson Goffi. Cynhaliwyd Noson Goffi, ynghyd â stondinau amrywiol, nos Wener, Tachwedd 13. Diolch i ymdrechion glew o du'r athrawon, rhieni a'r plant fe wnaed elw o £185 i Gronfa'r Ysgol. Dymuna'r prifathro ddiolch i bawb am bob cymorth, boed yn ymwneud â'r paratoi, yn bresenoldeb ar y noson, neu yn rhoddion tuag at y Gronfa.



Andrew a Betty Tomlinson ar ddiwrnod eu priodas.

DIOLCH - Dymuna Betty ac Andrew Tomlinson ddiolch i'w teulu, cymdogion a'u ffrindiau am yr holl anrhegion gwerthfawr maent wedi eu derbyn ar achlysur eu priodas.

CROESO i Mr a Mrs S. Jones, Gwyddfor. Mae Mrs Jones yn ferch i'r Parch a Mrs Ifan Lynch, Carrog.

## Y MESSIAH

Ar Ragfyr 5 bydd Cymdeithas Eryri, gyda chefnogaeth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru, yn cynnal cwrs undydd yn Theatr Seilo, Caernarfon ar ganu'r Messiah. Cynhelir cyngerdd yr un noson yn Eglwys Crist, Caernarfon. Yr unawdwyf fydd Eleri ac Arwel Peleg Williams, Pauline Deseh a John Huw Davies.

Mae cantorion o'r fro wedi eu gwahodd i fynychu'r cwrs.

Bydd y cyngerdd am 7.30 p.m. Pris £1.00. Am ragor o fanylion cysylltwch â Roy Humphreys, Clegyr, Cae Gwyn, Caernarfon.

## YN EISIAU

Ceffyl siglo - Ffoniwch Llanberis 588

## CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

# DINORWIG

DIOLCH - Dymuna Mr a Mrs John Eryl Roberts, 1 The Avenue, Ystrad Mynach, ddiolch o galon i'w teulu, cyfeillion, a chymdogion am bob arwydd o ddymuniadau da a ddangoswyd tuag atynt ar achlysur eu priodas.

Dymuna Mr Hugh S. Jones, Buarth Newydd, Dinorwig, ddiolch o galon i'w holl deulu a'i gyfeillion am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ato tra yn ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. Diolch yn arbennig i holl ddoctoriaid a staff y 'Lower Surgical Ward', ac i Mr a Mrs R. Williams, Tan-y-Fron.

LLONGYFARCHIADAU i Dad a Mam, Mr a Mrs R. Gwilym Jones, Tan y Buarth Uchaf, ar ddatlu 25 mlynedd o fywyd priodasol ar Dachwedd 3, 1981, oddi wrth Elenid, Maldwyn, ac Irfon. Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Emlyn Griffith, 8 Bro Elidir, ar ddatlu eu priodas ruddem, Tachwedd 1, 1981. Pob bendith i'r dyfodol.

O'R YSBYTY - Croeso gartref i Mr Hugh S. Jones, Buarth Newydd; Miss Annette Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol a Mrs Lizzie Jones, Bron Myfyr; wedi triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon. Hefyd Mr David Jones, 5 Maes Eilian, wedi arhosiad yn yr ysbyty. Gwellhad buan fo iddynt, a'n cofion cynhesaf at bawb sy'n cwyno yn yr ardal.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL - Nos Iau, Hydref 29, yn y Ganolfan bu cyfarfod agoriadol y tymor. Gwasanaethwyd gan Seindorf Deiniolen, arweinydd Mr Dennis Williams, a pharti Gwlith, Llanberis, Mr John Pugh, Tywyn, enillydd yr unawd tenor dan 25 mlwydd oed yn Eisteddfod Genedlaethol Machynlleth eleni, a Miss Meinir Williams, Tywyn, a Miss Annette Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol. Cafwyd rhaglen amrywiol o gerddoriaeth safonol ganddynt i gyd. Mwynhawyd y cyngerdd yn fawr iawn. Cyfeiliwyd gan Miss Annette Bryn Roberts. Llywydd y cyngerdd oedd y Parchg Idris Thomas, Trefor. Derbyniwyd rhodd deilwng iawn ganddo at gyllid y gymdeithas. Cyflwynwyd y Seindorf a'r parti i'r gymdeithas a thalwyd diolch cynnes am y rhaglen gan Mr O.R. Williams, Bro Elidir. Nos Iau, Tachwedd 12, yn y Ganolfan cafwyd sgwrs a ffilmiau ar waith yr 'Anabl' gan Mr Myfyr Parry, Clwt y Bont, athro yn Ysgol Pendalar, Caernarfon. Dangoswyd ffilmiau ganddo o'r plant yn perfformio eitemau mewn adrodd, canu unigol a chorau. 'Roedd yn agoriad llygaid i'r gwaith a wneir yn yr ysgol yn dangos amynedd a chariad arbennig y staff am eu cyfrifoldeb tuag at y plant. Cyflwynwyd Mr Parry i'r aelodau gan Mrs Medwen Griffith, Foel Cottage.

Talwyd diolch gan Mr John Peris Roberts, Maes Eilian.

MARW - Ar Dachwedd 13, bu farw Miss Nora M. Williams, Padarn Stores, Fachwen, yn 60 mlwydd oed. Cafodd gystudd maith a chaled. Gwnaeth waith mawr yn eglwys Dinorwig MC, fel athrawes a chyfeilyddes am flynyddoedd. Cydymdeimlir yn ddwys â'i chwaer, Miss Netta Williams, Padarn Stores; Mr a Mrs Eurwyn Williams, chwaer a brawd yng nghyfraith, a'u merch, Miss Sioned Williams, Caernarfon, a chydâ'r cysylltiadau teuluol yn eu profedigaeth ddwys.

## RHAGLEN CYMDEITHAS UNDEBOL DINORWIG AM Y TYMOR 1981-1982

Tachwedd 26 yn y Ganolfan: Hanes ei daith a ffilm ar yr Unol Daleithiau gan y Cynghorydd Robert Haines, Caernarfon. Llywydd: Mr Hugh Thomas.

Rhagfyr 17 yn St Mair: Noson o Garolau a darlenniadau yng ngofal Miss Annette Roberts a Mr Glyn Thomas.

Ionawr 7, 1982 yn Sardis: Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn dan arweiniad y Parch Ifor L. Williams.


Ionawr 21 yn y Ganolfan: Sgwrs gan y Cyn-Arolygydd John Hughes, Caernarfon. Llywydd: Mr John Peris Roberts.

Chwefror 4, yn y Ganolfan: Darlith gan Mr Emyr Jones, Caernarfon ar Fywyd y Chwarelwr. Llywydd: Mr R.H. Williams.

Chwefror 18, yn y Ganolfan: Noson gyda Mr Richard Hughes, Y Co Bach. Llywydd: Mr O.R. Williams.

Mawrth 4, yn y Ganolfan: Dathlu Gŵyl Ddewi. Cawl a Chân.

## MODURDY MENAI




## FFORDD CAERNARFON Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882

Perchennog : J. Evans

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO . . .



## BWSIAU ARFON LLANRUG (ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175 neu Bangor 51981

## GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH MEWN LLECHI A GWENITHFAEN GAN GREFFTWYR LLEOL

## ATODIAD LLANRUG

MERCHED Y WAWR - Yng nghyfarfod Hydref 13, o gangen Llanrug, cafwyd arddangosfa o ddilladau gweu deniadol a chywrair yn cynnwys sgertiau, siwperi, siwtiau a chotiau, y cwbl yn gynnyrch Antur Aelhaearn. Staff Antur Aelhaearn ac un aelod o gangen Llanrug o Ferched y Wawr oedd yn arddangos y dilladau, Mrs Megan Jones, ysgrifennydd Antur Aelhaearn, oedd yn cyflwyno'r gwisgoedd a Mrs Megan Roberts wrth y piano. Croesawyd y cyfeillion o Lanaelhaearn, Cangen Cwm-y-Glo o Ferched y Wawr, ac aelodau newydd cangen Llanrug gan y llywydd, Miss Phyllis Ellis. Anfonwyd dymuniadau da'r gangen i Mrs Inigo Jones nad oedd yn bresennol oherwydd gwaelodd.

Cafwyd diolchiadau gan Miss Mat Pritchard, llywydd cangen Cwm-y-Glo, Mrs Bethan Williams, a Mrs Mair Hughes. Y gwestwragedd oedd Mrs Ann Ll. Griffith, Mrs Carys Jones, Mrs Helen Parry, Mrs Gwenda Roberts, Mrs Megan Roberts, ac aelodau o'r pwyllgor.

Mrs Ann Evans enillodd y raffl.

PAPUA NEW GUINEA - Ffarweliwyd â theulu Dolafon, ddydd Gwener, Tachwedd 6, 'Roedd Bryn a Dianne, a'r plant Elved, Alison, Sian a Glenda i ffwrdd ar daith i ochr arall y byd - Papua New Guinea. Byddant yno am gyfnod o 3 blynedd; ond yn ffodus i ni, bydd Bryn yn anfon adroddiadau'n achlysurol i'r 'Eco' i sôn am fywyd yn y wlad honno.

Derbyniwyd un llythyr oddi wrthynt yn barod, ac y mae'n amlwg na fyddant yn rhy unig yno, oherwydd un o'r pethau cyntaf a ofynnwyd i Bryn ar ei ddiwrnod cyntaf o waith oedd "Fedrwyd chi siarad Cymraeg?"

Edrychwn ymlaen am dderbyn y gyntaf o adroddiadau Bryn yn ystod y flwyddyn newydd.

MARW - Ym marw Owen David Griffiths, 12 Glanmoelyn colodd Llanrug un o'i meibion mwyaf diddorol ac athrylithgar. Bu farw yn ysbyty Gallt y Sil, Caernarfon, yn un a phedwar ugain oed. Tua phymtheg mlynedd yn ôl cafodd ergyd drom o'r parlys a'i hamddifadodd o'i leferydd, ac o'r herwydd fe ddiodeffodd gystudd blin a hir ac er gwaethaf bob gofal a thynerwch gan ei briod a'i blant bu'n rhaid ei symud i'r ysbyty rai wythnosau cyn ei farw. Yr oedd yn enedigol o Lanrug ac yn fawr ei barch gan bawb ac yr oedd yn gymeriad hoffus a diddan. Gwerinwr diwylliedig o dorwr beddau a chlochydd Eglwys y Plwyf ac yr oedd hefyd yn gerddor talu medrus ac yn meddu ar lais bas ardderchog. Bu'n aelod o gôr Eglwys Sant Mihangel ac yn asgwrn cefn y côr gyda'i lais cyfoethog. Yr oedd hefyd yn ddramodydd dihafal a chafodd amryw o'i ddramâu eu perfformio ledled Cymru ac fe drosglwyddwyd y ddawn hon i'w nai Gwenlyn Parry sydd mor adnabyddus ym myd y ddrama gyfoes. Nid oedd ei hafal fel gweithiwr - yn onest a diflino a chydwybodol a phob amser yn ceisio lleddfu ing y galarus drwy guddio bryntni'r bedd â blodau. Y Rheithor a wasanaethai yn ei angladd, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch W.O. Roberts, a'r organydd oedd Mr J.T. Morris, Erw Wen. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i briod a'i deulu oll yn eu galar a'u tristwch. Nos da ddi-ddiolch was y fro, boed beraidd hun yr henllan-lwyd; fe roir dy offer yn ei le fel arfer, ac fe gloi'r y glwyd meddai Crwys yn ei delyneg Angladd y Torrwr beddau ac fe ddywedwn minnau 'fe gawn gwrdd ar y Lan Brydferth draw.'

PLAID CYMRU - Cynhaliwyd

## Agor

## Ffiniau'r Gorffennol

### DAWEL NOS

Gan y diweddar Mr J. Ellis Williams, un o golofnwyr ffyddlon 'Yr Herald Gymraeg' am lawer o flynyddoedd, y cefais i'r hanes am gyfansoddi'r Garol hyfryd a phoblogaidd 'Dawel Nos'. Fel hyn y digwyddodd, meddai Mr Williams, 21-1-60.

### AWSTRIA

Noson cyn y Nadolig yn y flwyddyn 1818 oedd hi, eisteddai offeiriad ifanc mewn pentref bach mynyddig yn Awstria yn darllen am yr angel yn cyfarch y bugeiliaid ac yn dweud wrthynt "Ganed i chwi heddiw Geidwad yn Ninas Dafydd".

Daeth cnoc ar y drws. Merch oedd yno, wedi dwad i ofyn iddo fynd i ffarm unig ar ben y mynydd i fendithio'r baban a aned yno y prynhawn hwnnw.

Aeth Joseph Mohr yno, a gwelodd, fel y gwelsai'r bugeiliaid ym Methlehem - y fam ifanc a'r baban yn ei breichiau.

Cyn mynd i'w wely y noson honno, ceisiodd roddi ei deimladau ar bapur, a mynnodd y geiriau fynd yn gerdd.

Bore drannoeth, ddydd Nadolig, aeth â'r penillion i'w gyfaill Frans Gruber, yr athro cerdd yn ysgol y pentref, a chyfansoddodd yr athro gerddoriaeth i'r geiriau.

Ychydig a wyddai'r ddau y bore hwnnw - ddydd geni'r Arglwydd - fod Carol wedi ei geni a enillai glust yr holl fyd.

### YR ORGANYDD

Franz Gruber oedd organydd yr eglwys, ond yr oedd rhywbeth o'i le

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

ar yr organ. Estynnodd ei gitâr, ac i gyfeiliant y gitâr y canodd ef a'r offeiriad y garol newydd.

Aeth blynyddoedd heibio, ac unwaith eto aeth rhywbeth o'i le ar yr organ.

Gyrrwyd i bentref cyfagos i ofyn i Karl Nauracher ddod i drwsio'r organ, ac wedi ei thrwsio, gofynnodd Karl i'r organydd ei phrofi. Eisteddodd Franz Gruber wrth yr organ, a chanu arni'r gerddoriaeth a gyfansoddodd i garol newydd yr offeiriad.

"Cenwch hi eto," ebe Nauracher. "Ni chlywais ei chystal erioed."

"Rhaid i'n pentref ninnau glywed y gân hon," meddai. "Mae gennyf bedwar o blant bychain yng nghôr yr Eglwys, sydd â lleisiau fel angylion. Mi ddysgaf y gân a'r geiriau iddyn."

Caroline, Joseph, Andreas ac Amalie oedd enwau'r plant - dau frawd a dwy chwaer - a'r lleiaf ohonynt, Amalie, yn rhy fach i allu dweud y geiriau'n gywir.

"Plant y Glassers" y gelwid hwy gan y pentrefwyr. Enw cyffredin arall arnynt oedd "Yr Eosiad".

Gwneud menyg oedd gwaith y tad a'r fam a phob gwanwyn 'roedd plant yn mynd i'r Ffair Fawr yn Leipsig i werthu'r menyg.

Lle prysur oedd y dref fawr honno ar ddiwedd y ffair, a phawb ym mhen ei helynt.

Un prynhawn yn teimlo'n unig a hiraethus ym merw'r ddinas, dechreuodd y pedwar plentyn ganu i godi eu calonau.

"Tawel Nos" a ganasant. Stopiodd y bobl i wrando arnynt. Daeth gŵr bonheddig atynt am 'sgwrs'.

Dywedodd wrthynt mai Mr Pohlens oedd ei enw ac mai ef oedd Trefnydd Cerdd Saxony. Gofynnodd

iddynt a garent fynd i gyngerdd yn y Gewandhaus, neuadd fawr y dref.

Mwynhaodd y pedwar plentyn y cyngerdd. Braidd yn ofnus a swil oeddynt yn mynd i mewn i'r neuadd. Nid oeddynt erioed o'r blaen wedi gweld cynifer o wŷr bonheddig mewn hetiau silc, nac o wragedd bonheddig mewn sidan. 'Roeddynt yn falch iawn mai mewn sedd o'r neilltu yng nghysgod y llwyfan, yr aeth Mr Pohlens â hwy i eistedd.

Ar derfyn y cyngerdd aeth Mr Pohlens i'r llwyfan. 'Roedd pawb ar gychwyn adref, wedi mwynhau cyngerdd gwych.

"Rwyf am ofyn i chwi aros ar ôl," meddai Mr Pohlens wrth y gynulleidfa. "I glywed pedwar plentyn o'r wlad yn canu carol. Byddai'n resyn i chwi fynd adref heb eu clywed."

### Y BRENIN A'R FRENHINES

Druan o Caroline a Joseph ac Andreas ac Amalie fach! Os oeddynt yn swil yn mynd i'r neuadd, yr oeddynt ddengwaith mwy swil yn mynd i'r llwyfan. Ond wedi iddynt ganu 'Tawel Nos' dyma'r gynulleidfa enfawr yn neidio fel un gŵr ar ei thraed, ac yn gweiddi am ragor. Canodd y pedwar plentyn yr holl ganeuon a wyddent, a daeth cri drachefn am 'Tawel Nos'.

Yr oedd Brenin a Brenhines Saxony yn y neuadd y noson honno. Galwyd y pedwar plentyn atynt.

"Mae'r Frenhines a minnau," ebe'r Brenin wrthynt, "am i chwi ddod i'r Palas i ganu'r garol i'n plant. Fe garem iddynt hwythau ei dysgu."

Y noson cyn y Nadolig 1832, 'roedd y pedwar plentyn - cantorion enwog erbyn hyn - yn canu'r garol yn y Capel Brenhinol yng Nghastell Pleissenburg. Oddi yno aeth y garol ar adenydd cân drwy'r Almaen oll. Yn fuan iawn, 'roedd y gân wedi croesi'r moroedd i bedwar ban y byd.

A'r Nadolig hwn, bydd canu ar y garol 'Dawel Nos' trwy'r byd i gyd.

## O EISTEDDFOD LLANRUG



Y Ddawns Flodau ar lwyfan Ysgol Brynrefail.

Cyfarfod Blynyddol Cangen Llanrug o Blaid Cymru yn y Sefydliad Coffa nos lau 19. Etholwyd Miss P. Elis yn gadeirydd; John Roberts, Is-gadeirydd, Goronwy Hughes; ysgrifennydd, Emlyn Jones; trysorydd, Gwyndaf Hughes, ysg. ariannol; trefnydd aelodaeth, Mrs G.M. Jones (ynghyd â 6 o gasglyddion ardal) a deg o aelodau eraill yn Bwyllgor. Cafwyd adroddiad ar weithgarwch y tymor, Cynhadledd Caerfyrddin, a llawenydd fod ein Haelod Seneddol, Mr Wigley, wedi ei ethol yn llywydd y Blaid. 'Roedd y trysorydd yn falch o adrodd ei fod wedi gallu talu pob dyled a bod ganddo ychydig arian mewn llaw.

Penodwyd cynrychiolwyr i'r Pwyllgor Etholaeth, a rhai i gymryd eu lle pan fo'n anghyfleus iddynt fynd. Rhoddwyd croeso cynnes i Mr Aled Gruffydd, Trefnydd Etholaeth Arfon, a roddodd adroddiad o'i waith a'i gynlluniau i'r dyfodol.

Gorffenwyd cyfarfod lluosog a brwdfrydig gyda lluniaeth wedi ei baratoi gan ferched y gangen. Enillwyr Cant Hydref: 1. Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon; 2. Hefin Jones, Pantmwyn; 3. T.W. Thomas, Berwyn. Enillwyr Tachwedd: 1. John Roberts, Bedw Gwynion; 2. Pat Regan, Ffordd Glanmoelyn; 3. Mrs Inigo Jones, Eilionwy.

## CANLYNIADAU EISTEDDFOD LLANRUG

**Canu dan 4 oed:** 1. Llŷr Siôn; 2. Catrin; 3. Morgan. **4-6:** 1. Gwenan Mair; 2. Gwion; 3. Gwenan Parry, Iwan Rhys. **6-8:** 1. Lowri Angharad; 2. Lowri Williams; 3. Rhodri. **8-10:** 1. Ffion; 2. Iestyn; 3. Adrian, Karen. **Adrodd dan 4:** 1. Llŷr Siôn; 2. Catrin, Clare, Morgan; 3. Iwan, Luned. **4-6:** 1. Gwenan Mair; 2. Elen; 3. Wendy, Wion, Dylan, Iwan, Rhys, Nia Gwawr, Nia Gruffydd. **6-8:** 1. Lowri Angharad; 2. Rhodri; 3. Aled, Judith, Delyth, Iola, Non. **8-10:** 1. Ffion; 2. Adrian, Iestyn; 3. Sian Wyn, Ian. **10-12:** 1. Olwen; 2. Susan a Gwawr; 3. Elen ac Emma. **Cerdd dant dan 9:** 1. Lowri Angharad; 2. Adrian; 3. Lowri Williams. **Canu 10-12:** 1. Emma; 2. Elen; 3. Olwen. **Unawd piano dan 12:** 1. Morgan; 2. Olwen; 3. Elen. **Unawd offerynnol dan 12:** 1. Graham; 2. Gwyn Bowie; 3. Dylan, Nigel. **Dawnsio gwerin:** 1. Parti Barry ac Emma; 2. Parti Dewi a Siân; 3. Parti Dylan a Gwenno, Parti Bryn a Nerys. **Unawd recorder dan 12:** 1. Leri Gwenan; 2. Bethan; 3. Ruth a Gwenno. **Parti cerdd dant:** 1. Parti Leri Gwenan; 2. Parti Marian. **Canu 12-14:** 1. Nia; 2. Sharon Thomas; 3. Sharon Roberts, Einir. **Adrodd 12-14:** 1. Dafydd a Louise. **Unawd cerdd dant dan 12:** 1. Olwen; 2. Elen; 3. Rebecca. **Parti unsain dan 12:** 1. Parti Leri; 2. Parti Ffion; 3. Parti Roger. **Unawd 12-16:** 1. Helen Medi, Garndolbenmaen; 2. Delyth Wyn Huws, Llanrug; 3. Einir Parry, Llanrug. **Adrodd 12-16:** 1. Louise Bernard, Llanrug. **Deuawd dan 16:** 1. Carys a Beryl, Y Ffôr; 2. Einir a Delyth, Llanrug. **Unawd ar unrhyw offeryn dan 19:** 1. Lesley Williams, Llanrug. **Unawd cerdd dant dan 19:** 1. Helen Medi; 2. Eifion Jones, Garndolbenmaen. **Grŵp pop ysgol uwchradd: Brynrefail. Cân werin:** 1. Rhian Owen, Llanberis; 2. Eifion Jones, Garndolbenmaen. **Unawd offerynnol agored:** 1. Gwyrfa Williams, Caernarfon; 2. Gareth Jones, Llaberis a James Jones, Llanrug. **Côr adrodd:** Bethel. **Unawd dros 50:** 1. Katie Wyn Jones, Llandwrog; 2. Gwen Owen, Pencaenewydd; 3. J. Euston, Bontnewydd. **Unawd cerdd dant agored:** 1. Eifion Jones, 2. Megan Hughes, Treborth. **Deuawd agored:** 1. Alun

\* Y Nadolig yn pwysu ar eich stwmog?  
Dyma'r ateb i'ch holl broblemau—

\* LLYFRAU'R  
\* LOLFA!

## Yr ABC Doniol!

Elwyn Iwan (Rhigymau Tegwyn Jones) £2.65  
Y llyfr ABC mwyaf lliwgar, bywiog a  
deniadol erioed yn Gymraeg.

## FYNY YMA

Iolo ap Gwynn a Brynmor Williams £2.95  
Llyfr cyfres deledu newydd y BBC; diwyg  
mawr gyda channoedd o luniau a chartwau.



Dafydd Parri £1.55  
CYFRES NEWYDD SBON am gi defaid  
ffyddlon sydd ar goll, gan awdur Y Llewod.

## DIGWYDDIADUR

95c  
Dyddiadur poded mwya handi'r iaith.



Catrin Stevens 60c yr un  
Cyfres newydd "I-Spy" Cymraeg—y 4 cyntaf  
nawr allan! Hanfodol i bob plentyn!

## DIWEDD PRYDEINDOD

Gwynfor Evans £1.85  
Llyfr tanbaid, deifiol yn chwalo muth  
Prydeindod unwaith ac am byth.

## Dawns Angau

Roy Lewis £1.95  
Storiâu iasoe a ditectif gwirioneddol wych,  
i'ch dychryn allan o'ch croen!

## GAIR AM AIR

Gêm "Lexicon" newydd Cymraeg a ddyfeis-  
iwyd gan Heini Gruffudd. Pris tua £3.



STAMP LLYWELYN II 48c am 16  
Stamp 3-lliw i goffâu annibyniaeth Cymru.

Cadwgan (£2.85) yn dal mewn print, ac  
atyniadau eraill di-ri. Yr holl fanylion yn ein  
catalog rhad 32-tudalen. Anfonwch amdano!

Y LOLFA Cyf., Talybont, Ceredigion  
SY24 5HE; fôn (097086) 304.

# Y Lolfa

## DECHRAU TRADDODIAD YN Y WAUNFAWR?

Bydd Ymgyrch Canolfan y  
Waunfawr yn mynd o gwmpas y  
pentref eleni i ganu carolau.  
Ond yn wahanol i bawb arall  
maent am wneud hynny mewn  
steil—sef mewn bws deulawr a  
fenthycir i'r Ymgyrch gan Mr  
H. Roberts, Rhos Goch. Mae  
Siôn Corn hefyd wedi  
penderfynu teithio ar y bws!

Cynhelir gyrfa chwist i godi  
arian tuag at y ganolfan nos Iau  
Rhagfyr 10 am 7.30 yn Neuadd  
yr Eglwys.

## CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

## Dyddiadur y Mis

1, Mawrth: LLANRUG: Y Gymdeithas  
Undebol, Sgwrs gan Mr Geraint  
Huws Roberts.  
DEINIOLLEN: Clwb Elidir.

3, Iau: LLANRUG: Ffair Nadolig  
Cymdeithas Chwirydd Capel Mawr  
am 7.00.

WAUNFAWR: Sefydliad y Merched—  
Arddangosfa o Addurniadau Nadolig  
gan Mrs Cemlyn Williams.  
Cinio Nadolig Clwb Gwyrfa ym Mron  
Eryri.

LLANBERIS: Cinio Nadolig Sefydliad  
y Merched yng Ngwesty'r Gwynedd.

4, Gwener: LLANBERIS a NANT  
PERIS: Eisteddfod Eglwys Sant  
Padarn a Sant Peris.

WAUNFAWR: Ffair Nadolig yn  
Neuadd yr Eglwys am 6.30.

5, Sadwrn: BETHEL: Eisteddfod.

YR ARDAL: Cyngerdd dan nawdd  
Cymdeithas Eryri yn Eglwys Crist,  
Caernarfon am 7.30.

WAUNFAWR: Gwibdaith Clwb y  
Mamau i Gaer.

7, Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn  
y Ganolfan am 7.30.

DEINIOLLEN: Cyfarfod Blyneddol  
Sefydliad y Merched dan ofal Mrs  
Treen, Caernarfon.

8, Mawrth: LLANRUG: Parti Nadolig  
Merched y Wawr yng Ngwesty'r  
Gwynedd.

BETHEL: Ymweliad Clwb Bro Bethel  
â'r Ysgol Gynradd.

9, Mercher: LLANBERIS: Parti  
Nadolig Adran y Babanod, Ysgol  
Dolbadarn.

CWM-Y-GLO: Gyrfa Chwist Nadolig  
dan nawdd Clwb y Graig yn y  
Ganolfan am 7.30.

LLANRUG: Cinio Nadolig yr Henoed  
yn yr Ysgol Gynradd.

BETHEL: Cinio Nadolig Merched y  
Wawr yng Nglyn Lliffon, Marian Glas.

10, Iau: LLANBERIS: Parti Nadolig yr  
Adran Iau, Ysgol Dolbadarn.

LLANRUG: Cymdeithas Lenyddol  
Capel Mawr, Hawl i Holi.

Gwasanaeth Carolau Clwb Blodau'r  
Grug.

BETHEL: Cinio Nadolig Clwb Bro  
Bethel ym Mron Eryri.

WAUNFAWR: Gyrfa Chwist, tuag at y  
Ganolfan, yn Neuadd yr Eglwys am  
7.30.

11, Gwener: LLANBERIS: Te yr  
Henoed.

WAUNFAWR: Ffair Nadolig Cangen  
Plaid Cymru yn Neuadd yr Eglwys am  
6.30.

DEINIOLLEN: Bingo dan nawdd  
Pwyllgor Pêl-droed leuenctid yn  
Ysgol Gwaun Gynfi.

12, Sadwrn: LLANRUG: Cinio  
Nadolig y Seindorf ym Mron Eryri.

## CROESAIR

Oherwydd diffyg gofod, nid oes  
croesair yn y rhifyn hwn.

Dyma atebion croesair Tachwedd:  
AR DRAWS: 1. Crafanc, 5. Cegin, 8.  
Llesmair, 9. Ehediad, 10. Digofaint,  
12. Iâl, 13. Croesi, 14. Ehedeg, 17.  
Doe, 18. Clodforwn, 20. Pethau mewn  
rhestr, 21. Newid, 23. Dirwy, 24.  
Oraclau

ILAWR: 1. Colled, 2. Acw, 3. Atgofus,  
4. Coelio, 5. Crefft, 6. Geiriadur, 7.  
Nadolig, 11. Gloddestwr, 13.  
Cydweld, 16. Moduro, 18. Cymry, 19.  
Nadau, 22. Wil.

Enillydd: Miss A.C. Owen, 3 Bro  
Cadfan, Rhosgadfan.

CYSTADLEUAETH MIS TACHWEDD  
Beth mae'r parot yn ei ddweud? Y  
cynnig gorau a ddaeth i law oedd "Os  
ei di i 'sgota eto fydd gin i ddim plu yn  
sbâr at y gaef." Diolch i G. Jones, 12  
Tremeilian, Brynrefail. Mae £2.00 ar  
ei ffordd i chwi.

13, Sul: LLANBERIS: Gwasanaeth o  
'Naw Llith a Charol' gan ddisgyblion  
Ysgol Dolbadarn yn Eglwys Sant  
Padarn am 2 o'r gloch.

14, Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist  
yn y Ganolfan am 7.30.

15, Mawrth: LLANBERIS: Noson  
Agored i Rieni yn Ysgol Dolbadarn  
rhwyng 6 ac 8 o'r gloch.

LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol—  
Noson o Ffilmiau gan Mr Ieuan Owen  
a Mr Glyn Jones.

DEINIOLLEN: Merched y Wawr.

16, Mercher: LLANRUG: Cyngerdd  
Nadolig gan ddisgyblion yr Ysgol  
Gynradd yng Nghapel Mawr.

WAUNFAWR: Gwasanaeth Carolau  
gan ddisgyblion yr Ysgol Gynradd yn  
Eglwys Sant Iwan am 7.15.

CWM-Y-GLO: Merched y Wawr yn  
dathlu'r Nadolig.

17, Iau: LLANRUG: Cinio Nadolig  
Clwb y Mamau ym Mron Eryri.

LLANBERIS: Sefydliad y Merched.

DINORWIG: Y Gymdeithas Undebol  
—Noson o Garolau a Darlenniadau yn  
Eglwys y Santes Fair.

20, Sul: LLANRUG: Cymdeithas  
Lenyddol Capel Mawr—'Carolau' dan  
lywyddiaeth Mrs Nansi Roberts,  
Annedd Wen.

DEINIOLLEN: Y Cyngor Eglwys—  
Gwasanaeth Carolau Undebol yn  
Eglwys Llanddinorwig am 5.30.

21, Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist  
yn y Ganolfan am 7.30.

WAUNFAWR: Cinio Nadolig Cangen  
Plaid Cymru yn y Foelas.

25, Gwener: LLANRUG: Y Cyngor  
Eglwys—Gwasanaeth Plygain am 7  
o'r gloch y bore yng Nghapel  
Pontrhyallt.

DEINIOLLEN: Y Cyngor Eglwys—  
Gweinyddir y Cymun yn Festri Capel  
Disgwyllfa am 9.30 y bore.

28, Llun: LLANBERIS: Ras Bramiau  
Noddedig dan nawdd y Pwyllgor  
Pêl-droed.

31, Iau: LLANRUG: Cymdeithas  
Lenyddol Capel Mawr—'Gwynos'  
yng ngofal Mrs Jean Davies a Mrs  
Mair Jones.

## Canlyniadau Eisteddfod Llanrug (parhad)

Williams a W. Jones, Waunfawr.  
Prif-adroddiad: 1. Meirionna Williams,  
Eglwysbach; 2. Helena Parry, Llanrug.  
Prif-unawd: 1. Maldwyn Parry, Penygroes.  
Wythawd: 1. Bethel; 2. Octogan, Llanrug;  
3. Athrawon Ysgol Uwchradd Brynrefail.

### Llenyddiaeth

Cystadleuaeth y gadair: R.O. Williams, Y  
Bala. Y Fedal Ryddiaith: J.H. Evans,  
Rhiwlas. Telyneg: R.O. Williams; 2. John  
Roberts, Llanrug; Glenys Pritchard,  
Abergele; 3. J.O. Evans, Clwt-y-bont.  
Englyn: 1. R.O. Williams; 2. John Roberts.  
Englyn digri: 1. John Roberts, 2. R. Gwyn  
Davies, Waunfawr; 3. R.O. Williams.  
Dyweddiadau: 1. Emllyn Jones, Llanrug;  
Nant Roberts, Llanrug. Sgets: 1. J. Butler,  
Tanycoed; 2. J. Eirlys Williams, Deiniolen;  
3. G.A. Jones, Llanrug. Barddoniaeth dan  
10: 1. Siân Wyn, Adrian, Nicky, Ffion; 2.  
Nicola, Annwen. Barddoniaeth dan 12: 1.  
Willy, Olwen; 2. Leri, Emma; 3. Nia,  
Menna, Emma, Dylan. Rhyddiaith dan 1;  
1. Ffion, Bryn; 2. Roger, Sion Dafydd, Sian  
Wyn, Amllyn, David Gwyn, Sion Llwyd.  
Rhyddiaith dan 12: 1. Emma.  
Barddoniaeth 12-14: 1. Einir, Louise  
Bernard. Rhyddiaith 12-14: 1. Louise, 2.  
Einir. Rhyddiaith 14-16: 1. Siân; 2. Delyth.

### Arlunio

Dan 4: 1. Iwan; 2. Lynne; 3. Ceren Wyn,  
Rhiannon. 4-6: 1. Gwenan Mair; 2. Nia  
Gwawr, Catrin Thomas; 3. Mathew a  
Glenda. 6-8: 1. Gavin a Corrina; 2. David,  
William; 3. Judith, Nerys. 8-10: 1. Bryn,  
Adrian; 2. Lona, Rebecca; 3. Timothy,  
David. 10-14: 1. Louise ac Emma; 2.  
Siwsan; 3. Gwyn Bowie. 14-16: 1. Tim a  
Mark. Agored: 1. Olwen Huws, Llanrug.  
Ffotograffiaeth: 1. Siân, 2. Delyth. Tri  
dimensiwn dan 8: 1. Sarah; 2. Gwion; 3.  
Iorwerth. Safon 2 a 3: 1. Annwen; 2. Bryn;  
3. Wyn. Safon 4: 1. Andrew; 2. Siwsan; 3.  
Jake. Dan 16: 1. Louise. Gwnio dan 8: 1.  
Lowri Angharad; 2. Sarah; 3. Elen. Dan 12:  
1. Emma; 2. Elen; 3. Ffion. Dan 16: 1.  
Louise, Einir; 3. Delyth. Agored: 1. Mrs  
Jones, Bodwrog; 2. Miss V. Owen, Bethel;  
3. Mrs Lloyd Gruffydd, Llanrug.

Coginio dan 12: 1. Manon, Bethan,  
Amllyn. Dan 16: 1. Einir; 2. Delyth. Agored:  
1. Mrs Menna Williams, Llanrug; 2. Mrs V.  
Barnard, Llanrug; 3. Mrs B. Thomas,  
Llanrug. Gwin cartref: 1. Mrs Eirianwen  
Thomas, Llanrug; 2. Mrs Margaret Parry,  
Llanrug; 3. Mrs Eirianwen Thomas,  
Llanrug.



## CLWB CEFNOGWYR YR ECO

Cyfyngir yr aelodaeth i ddau gant o bobl. Bydd pob aelod yn  
cyfrannu £6 y flwyddyn. Gellir anfon y gorchymyn banc isod, (sef y  
ffordd hwylusaf o dalu), neu siec yn daladwy i 'Clwb Cefnogwyr  
Eco'r Wyddfa' i Miriam Hughes, 'Rallt Deg, Cwm-y-glo. Bydd eich  
gohebydd pentref hefyd yn barod i dderbyn eich arian neu eich  
gorchymyn.

Tynnir gwobrau o £50, £20 a £10 ym misoedd Chwefror, Ebrill,  
Mehefin, Awst a Hydref. Ym mis Rhagfyr bydd tair gwobr fawr sef £100 a  
dwy £50.

Mae hyn oll yn dibynnu ar inni gael aelodaeth llawn o ddau gant. Felly,  
ymaelodwch. Bydd yr elw a wneir yn helpu i gynnal yr 'Eco'.

Rŵan amdani! Dyma anrheg Nadolig gwerth chweil i rhywun.

### GORCHYMYN BANC

I Fanc .....  
.....(Enw a chyfeiriad

..... eich banc)

Taler i gyfrif CLWB CEFNOGWYR ECO'R WYDDFA rhif 11072412 ym  
MANC MIDLAND CYF., Y MAES, CAERNARFON 40-16-02 y swm o £6.00  
(CHWE PHUNT) ar 1af Ionawr 1982 ac ar y 1af o Ionawr bob blwyddyn  
hyd nes y diddymir y gorchymyn hwn mewn ysgrifen.

Tynnwch y taliadau hyn o'm cyfrif banc

Rhif .....

Llofnod .....

Enw .....

Cyfeiriad .....

.....

Dyddiad .....

# CHWARAEON

## AR RAS I'R EIDAL

Yn dilyn ymweliad tîm cenedlaethol rhedeg mynydd yr Eidal â Ras yr Wyddfa ym 1980 a 1981, derbyniodd trefnydd y Ras, Mr Ken Jones, Llanberis, wahoddiad oddi wrth Ffederasiwn Athletau yr Eidal i ymweld â'r wlad honno, ac i wyllo a rhedeg un o'i rاس mynydd enwocaf a hynaf, sef y Trofeo Vanoni.

Ras gyfnewid yw'r Vanoni wedi ei henwi ar ôl un o offeiriad blaenllaw yr Eglwys Gatholig. Mae'r ras wedi ei chynnal yn flynyddol er 1957 yn nhref alpaidd Morbegno i'r gogledd o Lyn Como, ac yng nghanol Alpau Bergamasche. Mae'r ras yn cychwyn yn y dref ac yn dilyn rhai o strydoedd cul a charegog yr hen dref cyn dringo'r llwybr serth sy'n arwain i bentref bychan, hardd tua 700 medr uwchlaw. Pentref yw hwn sy'n cael ei ddefnyddio'n ystod misoedd yr haf yn unig gan ffermwyr a bugeiliaid Morbegno - yn union fel yr hafod yng Nghymru ers talwm. Yn yr 'hafod' hon mae man uchaf y ras, ac yma 'roedd y rhedwyr yn ei throï hi am adref gan lamu i lawr y llethrau coediog yn ôl i'r dref.

Cynhelir y rhan fwyaf o rاس rhedeg mynydd yr Eidal ar ffurf ras gyfnewid oherwydd fod pellter ac uchder eu mynyddoedd yn ei gwneud yn amhosibl i gynnal ras debyg i Ras yr Wyddfa.

### Y DAITH I'R EIDAL

Gadael Llanberis yn brydlon am 6.00 fore Gwener, Hydref 22, a hedfan o faes awyr Manceinion. Cael golygfa fendigedig o'r Alpau wrth hedfan tua maes awyr Milan yng ngogledd yr Eidal. Ym Milan, 'roedd trefnydd ras Vanoni, Gian Petro Botta, yno i'n cyfarfod. Mae'n un o brif swyddogion Ffederasiwn Athletau'r

Eidal, ac ef oedd yn gyfrifol am dîm Rhedwyr Eryri yn ystod eu hymweliad.

Croesawyd y tîm yn Morbegno gan y Maer a phrif swyddogion y ras. Am 6.00 nos Sadwrn, 'roedd offeren arbennig wedi ei threfnu'n yr Eglwys Gatholig, ac yr oedd pob un o'r cystadleuwyr yno yn eu gwisgoedd rhedeg. Yn fuan ar ôl y gwasanaeth hwn, cyflwynwyd llun dyfiliw o Lanberis i faer Morbegno gan Ken Jones ar ran Clwb Rhedwyr Eryri a thrigolion Llanberis.

Ar y Sul y cynhelid y rاس, yn dilyn gorymdaith at gofgolofn yr Offeiriad Vanoni. 'Roedd ras y plant yn y bore, a'r ras fawr am 2.00 y pŵn. Les Williams, Hugh Parry a Glyn Griffiths oedd yn cynrychioli tîm Rhedwyr Eryri, a daethant i mewn yn unfed ar ddeg, gan ennill tlws Fiat i'r tîm tramor gorau'n y ras.

Y gobaith yn y dyfodol yw cael mynd â thîm o ieuenctid drosodd i redeg yn y Ras Plant; ond cyn y gwiredir hyn, bydd yn rhaid cael rhywun neu rywrai i noddî'r Clwb, oherwydd mae costau ariannol cystadleuaeth o'r fath yn arswydus o uchel.

Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd dau aelod o'r Clwb Rhedwyr - Garry Ellis o Gaernarfon a Malcolm Jones, Tremadog - wedi ymddangos ar raglen teledu BBC 'Fyny Yma'.



Ras y plant ym Morbegno - a fydd rhai o fro'r 'Eco' yn cystadlu yn hon rywdro'n y dyfodol agos?

### OES, MAE HAF I DDOD



Llun i'ch atgoffa fod haf i ddod - rywdro! Anfonwyd yr hen lun hwn o dîm criced Ysgol Brynrefail i ni gan Mrs E. Owen, Trigle, Llanrug. Pwy fydd y cyntaf i anfon yr holl enwau i ni?

CNCM - FIDAL - CONI

C. S. I.



CITTA' DI MORBEGNO

## XXIV EDIZIONE TROFEO VANONI

CORSA INTERNAZIONALE A STAFFETTA IN MONTAGNA 3 x 7 KM.

Promotore e organizzazione C. S. I. MORBEGNO

**25 OTTOBRE 1981 - ore 14**

**Ûre 10 - Minivanoni**  
Sponsorizzata da **BONMARKET**

PER L'ASSEGNAZIONE DELLA TARGA **Mons. DANIELI**  
STAFFETTA A DUE ELEMENTI SU PERCORSO RIDOTTO



Yr orymdaith at gofgolofn yr Offeiriad Vanoni.



Glyn Griffiths yn rhedeg yn y brif ras.

### PÊL-DROED

#### BETHEL

Mis cynghair eithaf boddhaol drwodd a thro yn hanes Bethel. Ennill un, colli un a gêm gyfartal oedd y llall. Ond siom a chosfa ofnadwy yn yr unig gêm gwpan, gan golli'n drwm yn Shotton o ddeg gôl i un. Daeth llwyddiant i'w rhan y Sadwrn diwethaf, gan guro Penrhyn o 4 gôl i 2. (M. Davies a M. Hughes yn sgorio iddynt).

#### LLANRUG

Mis llwyddiannus yn y Gynghair i Lanrug, gan ennill pob gêm, gan guro Talysarn ddydd Sadwrn o 4 gôl i 2, a Hefin Pritchard yn sgorio

3. Y Sadwrn cynt, curo Llangefni yn y Gwpan lau o 5 gôl i 2, a John Williams y tro hwn yn sgorio tair. O'r diwedd, mae pethau'n argoeli'n dda i Lanrug.

#### LLANBERIS

Un gêm gynghair yn unig i Lanberis y mis hwn, ac ennill ym Methesda o 3 gôl i ddwy, a hynny ar ôl bod yn colli o 2 gôl ar un amser. Ennill fu eu hanes yn y Cwpan lau hefyd, a hynny ar ôl taith i Ddyserth.

Mae'r tîm ieuenctid yn mynd o nerth i nerth ac yn edrych fel pe baent am ad-ennill y bencampwriaeth. Yng Nghwpan Ieuenctid Cymru, cafodd Nefyn eu maeddu ganddynt o 9 gôl i ddim.